

# Ynys y Barri: Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000  
E-bost: [cadw@cymru.gsi.gov.uk](mailto:cadw@cymru.gsi.gov.uk)

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw yn 2016  
Digidol ISBN 978 1 85760 452 8  
© Hawlfraint y Goron 2016, Cadw, Llywodraeth Cymru WG29263

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## OGL

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3> neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid ceisio caniatâd deiliad yr hawlfraint briodol, gan gynnwys Airbus Defence and Space, Casgliad Gerald Beaudette, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, Archifau Morgannwg, Casgliad Matthew Griffiths, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Mr Gwyn Morris, Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Casgliad Francis Frith, Cyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Cadw a Gordon Young.

Clawr blaen, clocwedd o'r prif lun:  
Ynys y Barri (o gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru: © Hawlfraint y Goron: Y Weinyddiaeth Amddiffyn), Amherst Crescent (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru), Merrie Friars (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw), Hwyl yn y ffair (© Cyngor Bro Morgannwg).  
Clawr cefn, o'r brig: Tai ar Nell's Point (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru), cabanau glan môr (© Cyngor Bro Morgannwg), Redbrink Crescent (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygrych a ddiogelir yn dda.

Cadw  
Llywodraeth Cymru  
Plas Carew  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ

Ynys y Barri:  
Deall Nodweddion  
Trefol

### **Cydnabyddiaethau**

Matthew Griffiths, cyn gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, a ymchwiliodd i'r astudiaeth hon a'i hysgrifennu ar gyfer Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw), gyda chymorth Anna Leron a Derw Thomas. Helpodd Cymdeithas Hanesyddol Ynys y Barri, a Gerald a Katherine Beaudette hefyd gyda gwybodaeth gefndirol a ffotograffau ar gyfer yr astudiaeth. Cafwyd sylwadau defnyddiol hefyd gan swyddogion Cyngor Bro Morgannwg.

Lluniwyd drafft cychwynnol yr adroddiad hwn ym mis Ebrill 2012, yn seiliedig ar waith arolwg a wnaed yn ystod yr hydref a'r gaeaf blaenorol. Mae'r diwygiad hwn yn ystyried newidiadau a wnaed hyd at fis Mehefin 2016.

Cafwyd caniatâd Mr Gwyn Morris i'r dyfyniad o gerdd Idris Davies gael ei ddefnyddio: 'Let's go to Barry Island Maggie Fach'.

Cyhoeddodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ffotograffau newydd o'r awyr o Ynys y Barri ym mis Awst 2016.

# Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>5</b>	Nodweddion sy'n Dyddio o'r Cyfnod Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf	50
Nodau'r Astudiaeth	5	Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf	50
<b>Cefndir Hanesyddol</b>	<b>6</b>	Rhwng y Ddau Ryfel: Ailfodelu Glan y Môr	53
Hanes Cynnar	6	Cynllun Adfywio'r Promenâd	58
Yn Arwain at y Cyfnod Modern	8	Dwyreiniol 2013–15	58
Y Dref Newydd	11	Adeiladau Rhwng y Ddau Ryfel	61
Tref yr Is-ddeddfau	13		
Y Cyfnod ar ôl y Rhyfel	17		
Ynys y Barri	18	2. Y Gymuned Cyn 1914	64
Y Cyfnod Rhwng y Ddau Ryfel	20	Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad	64
Y Gyrchfan Olaf	24	Dadansoddi Nodweddion	66
		Phyllis Street a Clive Road	66
		Amherst Crescent	70
		Plymouth Road	71
		Ivor Street	72
		The Triangle	73
		Dyfrig Street	75
		Redbrink Crescent	76
		Friars Road	80
<b>Tirwedd Hanesyddol</b>	<b>26</b>	3. Ynys Fach	84
Nodweddion Ffisegol	26	Diffinio a Dadansoddi Nodweddion	84
Ail-lunio Ynys y Barri	27		
Strydlun	29	4. Austry Hill	86
Nodweddion Tirwedd	30	Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad	86
Pentiroedd	30	Dadansoddi Nodweddion	87
Yr Hen Harbwr	30		
West Pond a South Quay	32	5. Nell's Point	89
Clive Road Cliffs	32	Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad	89
Redbrink Point a Bae Jackson	32	Dadansoddi Nodweddion	90
Bae Whitmore	33		
Promenade Gardens	34	6. South Quay	92
Spion Kop	34	Diffinio a Dadansoddi Nodweddion	92
Parc Maslin	34		
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig			
Ynys y Barri	34		
Golygfeydd a Phanoramâu	35		
Tuag at Ynys y Barri	35		
Pyrth	36		
O Ynys y Barri	37		
<b>Hanes Adeiladu</b>	<b>38</b>	<b>Datganiad Pwysigrwydd</b>	<b>94</b>
Datblygiadau Preswyl Cynnar	38	Pwysigrwydd Hanesyddol a Chymdeithasol	94
Datblygiadau Preswyl Modern	40	Elfennau Dylunio Allweddol	95
Adeiladu'r Gyrchfan Wyliau	41	Glan y Môr	95
		Datblygiadau Preswyl	96
		Cysylltiadau, Golygfeydd a Llefydd	96
		Edrych i'r Dyfodol	96
<b>Nodweddion Adeiladau ac Ardaloedd â Nodweddion</b>	<b>46</b>	<b>Ffynonellau Dethol</b>	<b>98</b>
1. Y Gyrchfan Wyliau	48	Argraffwyd	98
Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad	48	Ar-lein	98
Dadansoddi Nodweddion	48		
Cyrraedd	48		
		<b>Ôl-nodion</b>	<b>99</b>

## Rhestr o Fapiau tudalennau 102–12

1. Rhan o Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans o 1879 (25 modfedd)
2. Rhan o Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans o 1900 (25 modfedd)
3. Rhan o Ail Argraffiad y Map Arolwg Ordnans o 1920 (25 modfedd)
4. Rhan o Drydydd Argraffiad y Map Arolwg Ordnans o 1936 (25 modfedd)
5. Pob Ardal â Nodweddion
6. Pob Ardal â Nodweddion ag Asedau Hanesyddol
7. Y Gyrchfan Wyliau (1)
8. Y Gymuned Cyn 1914 (2)
9. Ynys Fach (3)
10. Austry Hill (4)
11. Nell's Point (5)



# Cyflwyniad

## Nodau'r Astudiaeth

Mae nodweddion hanesyddol wrth wraidd natur unigryw leol ac ymdeimlad o frogarwch. Mae gan bob lle hanes unigryw, felly mae gan bob lle nodweddion hanesyddol unigryw, sy'n ased grymus o ran adfywio. Mae ymateb i nodweddion lleol yn amcan sy'n bwysig i gynllun da; gall ei gynnal gyflwyno buddiannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Mae nodweddu trefol yn ddull a all ein helpu i ddefnyddio nodweddion hanesyddol i greu llyfdd cynaliadwy a nodedig ar gyfer y dyfodol. Ei nod yw disgrifio ac egluro nodweddion hanesyddol trefi, rhoi ffocws i natur unigryw leol a helpu i wireddu gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol. Ei nod yw llywio a chefnogi rhaglenni cynllunio, adfywio a chadwraeth cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.

Mae nodweddu trefol yn diffinio nodweddion hanesyddol unigryw trefi unigol ac yn nodi amrywiaeth y nodweddion ynddynt. Mae'n edrych ar hanes tref ac yn nodi ei mynegiant mewn patrymau gofod a chysylltiadau ac mewn traddodiadau adeiladu, sy'n rhan hanfodol o nodweddion hanesyddol.


Y cyd-destun uniongyrchol yw'r gwaith adfywio parhaus y mae Cyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid yn ei wneud yn y Barri. Mae hyn wedi arwain at welliannau i'r promenâd



dwyreiniol hanesyddol ac, ar adeg ysgrifennu, mae gwaith sylweddol yn mynd rhagddo i ailddatblygu'r ceiau yn Noc Rhif 1. Fodd bynnag, mae ganddo fwriadau ehangach. Cydnabod pwysigrwydd y dirwedd a nodweddion y treflun sy'n cyfrannu at ymdeimlad nodedig o le a gall ymdeimlad cysylltiedig o gymuned ddylanwadu ar y ffordd y gofelir am Ynys y Barri a'r ffordd y caiff ei gwella a'i datblygu, nawr ac yn y dyfodol, mewn modd cynaliadwy. Gallai'r adroddiad lywio deialog ynghylch beth sy'n bwysig yn amgylchedd hanesyddol yr ynys, wrth i ragor o fentrau a chyfleoedd godi — boed hynny ar lan y môr neu mewn ardaloedd preswyl. Erys y cyfle hefyd i'r astudiaeth lywio canllawiau cynllunio ategol a gweithredu fel adnodd ymarferol ar gyfer rheoli datblygiadau.

*Y promenâd dwyreiniol ar ôl cwblhau prosiect adfywio 2013–15 (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

*Mae'r wal ddringo newydd ar Ynys y Barri yn nodwedd ryngweithiol drawiadol sydd wedi'i hysbrydoli gan lan y môr a hanes y gyrchfan wyliau (© Gordon Young).*





*Golygfa banoramig o Ynys y Barri o'r tir mawr tua 1884 (Casgliad Gerald Beaudette).*


## Cefndir Hanesyddol

Mae'r Barri yn dref 'newydd' Fictoraidd. Yr hyn sydd o ddi-ddordeb yn bennaf yw datblygiad y dref yn union ar ôl Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875, pan geisiwyd creu cyrchfan wyliau fodern i'r dosbarth gweithiol ynghyd â chartrefi a strydoedd priodol i'w harwyr ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Ond, cyn 1884, roedd yr ardal yn hollol wledig, gyda phoblogaeth fechan wedi ymgartrefu ym mhentrefi a ffermydd plwyfi y Barri, Merthyr Dyfan a Thregatwg. Drwy ddamwain hanes canoloesol (neu'n gynharach), roedd Ynys y Barri, er gwaethaf ei henw, yn perthyn i blwyf y Sili ac mae hanes y dirfeddiannaeth yn gysylltiedig â'r Sili yn hytrach na'r plwyfi ar y tir mawr a gafodd eu hymgorffori o fewn y dref fodern. Mae gorffennol cyfoethog y tir mawr ac Ynys y Barri wedi cael cryn sylw gan haneswyr ac archaeolegwyr. Defnyddiwyd y gwaith hwn wrth

lunio'r cefndir hanesyddol, ond nid yn fanwl gan ei fod yn canolbwyntio ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol yn hytrach nag ar ei botensial archaeolegol.<sup>1</sup>

## Hanes Cynnar

Mae archaeoleg ac aneddiadau cynnar Ynys y Barri yn dechrau gyda thystiolaeth o weithgarwch o'r Oes Efydd ar Friars Point ac olion o oresgyniad y Rhufeiniaid sy'n dyddio o'r ganrif gyntaf AD.<sup>2</sup> Gan fod arfordir y Barri yn ddigon o faint, roedd Cold Knap yn lleoliad i strwythur mawr o ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg a allai fod yn westy milwrol Rhufeinig. Gall fod gan yr ynys gysylltiad, drwy Sant Baruc, â hanes Cristnogaeth yn yr ardal cyn cyfnod y Normaniaid.<sup>3</sup>



*Olion Capel Sant Baruc, y mae rhannau ohono'n dyddio o'r ddeuddegfed ganrif (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



Fodd bynnag, ni cheir tystiolaeth bendant bod olion Capel Sant Baruc ar safle canoloesol cynnar, er bod hynny'n debygol.<sup>4</sup> Mae olion y capel sydd wedi goroesi, y mae'n debygol eu bod yn cynrychioli capel rhydd a safle pererindod, yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif. Maent yn rhan o gyfadeilad a oedd yn cynnwys mynwent a thŷ gweinidog, yn ogystal â safle annedd bosibl.<sup>5</sup> Gadwyd y capel yn wag ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg ac yn raddol cafodd ei orchuddio gan dywod chwythedig.<sup>6</sup> Mae'n debyg bod ffynnon offrrwm, y ceir tystiolaeth ôl-ganoloesol ohoni, yn gysylltiedig â'r capel wedi'i lleoli 270m (885 troedfedd) i'r de.<sup>7</sup> Mor ddiweddar â 1700, câi ei thrysori am ei nodweddion meddyginiaethol.

Canfuwyd arwyddion ychwanegol o anheddau canoloesol a diweddarach o bwys, yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif i'r ail ganrif ar bymtheg,

ym mhen gorllewinol Station Approach.<sup>8</sup> Nodwyd tomen glustog a chefnen a rych canoloesol ar Friars Point.<sup>9</sup> Mae adroddiad Edward Lhuyd ar ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn cyfeirio at 'plenty of rabbits' a 'very good cattle and sheep', 'good fowling' a 'plaice and soles and mullets and bass'.<sup>10</sup>

Roedd yr ynys yn gysylltiedig â môr-ladrata a smyglo yn lleol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, ond, erbyn 1804, roedd yr unig ffermdy yn croesawu lletywyr a oedd yn mwynhau'r ffasiwn ar gyfer ymdrochi yn y môr yn ogystal â physgota. Yn absenoldeb peiriannau ymdrochi, roedd yn anodd i 'delicate females' fynd i mewn i'r môr.<sup>11</sup> Dengys mapiau o'r ddeunawfed ganrif a map y degwm o'r Sili yn 1846 fod gan y fferm lond llaw o gaeau ar ochr serth ogleddol yr ynys. Cwningod oedd prif gynnyrch yr ynys erbyn hynny, ac fe'u gwerthwyd mewn swmp ym Mryste.<sup>12</sup>

*Erys cloddwaith  
cynhanesyddol  
a chanoloesol  
ar Friars Point  
(© Hawlfraint y Goron  
(2016) Llywodraeth  
Cymru, Cadw).*





*Braslun o Ynys y Barri yn 1884 gan John Stuart Corbett (1845–1921) (darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*

## Yn Arwain at y Cyfnod Modern

*'We cross the fine stretch of sand in Whitmore Bay, and, undressing under the shelter of the rocks, plunge exuberantly into the limpid blue water which comes rolling gently in from the channel... Whitmore Bay is unrivalled on this part of the coast as a bathing ground.'*

'Saturday at Barry Island', *Western Mail*, 17 Gorffennaf 1876

Ar brynhawn dydd Sadwrn ym mis Gorffennaf 1876, gyda'r tymheredd yn 32 gradd Celsius (90°F) yn y cysgod, ymunodd gohebydd o'r *Western Mail* â 'two or three hundred excursionists' ar fordaith fer i Ynys y Barri. Aeth ar fwrdd y stemar olwyn *Marie Joseph* yn y Pier Head yng Nghaerdydd. Curodd y stemar ei ffordd drwy des crychdonnog a môr cysglyd, ac ymddengys bod y teithwyr wedi mwynhau eu hunain yn wyneb eu dewrder. 'Matronly ladies and eligible misses read novels' o dan yr

adlen a orchuddiai'r dec ôl, tra bo criw y dec blaen — 'typical working mên, in some cases with their wives or sweethearts' — yn yfed cwrw neu gwrw du (neu, os oeddent yn llwrymwrthodwyr, diodydd meddal). Ar ôl tri chwarter awr, daeth Ynys y Barri i'r golwg. O ddec y stemar roedd yn edrych yn ddiffirwyth gyda 'scarcely a tree or a shrub to be seen higher than a hawthorn hedge'; roedd y glaswellt yn gras a brown.

Methodd y cwch ag angori ger pier yn Friars Point. Yn hytrach, daeth ar lawr 11 metr allan (36 troedfedd) felly bu'n rhaid i'r teithwyr lanio mewn cychod bach, neu groesi astell o flaen y llong i'r pier. Oddi yno, heidiodd y newydd-ddyfodiaid i fyny at westy gydag ystafell smygu a bar lle torodd y 'thristy throng' eu syched, dan ofal y rheolwr 'hard-working', Capten Atkins, a'i staff. Wedi hynny, gwasgarodd yr ymwelwyr i fwynhau'r ynys. Croesodd y dynion 'unencumbered by the restraint imposed by society on the gentler sex', dywod Bae Whitmore<sup>13</sup> at y creigiau islaw Nell's Point i ddiosg eu dillad a nofio yn y 'limpid blue water' a ddeuai o Fôr Hafren. Roedd y gohebydd papur newydd



o'r farn bod Bae Whitmore yn 'unrivalled on this coast as a bathing ground' a nododd ddyhead ei berchennog i ddatblygu'r ynys fel cyrchfan glan môr i'r 'toiling masses' yng Nghaerdydd. Gan ddychwelyd i'r ddinas dros fôr tawel y cyfnos, myfyriodd ymhellach bod swyn yr ynys fel cyrchfan glan môr yn gyfyngedig ar y pryd, ond bod ganddi'r potensial i fod yn un o gyrchfannau maestrefol mwyaf deniadol Caerdydd.<sup>14</sup>

Mae'r hanesyn bach hwn yn dangos bod Ynys y Barri wedi datblygu yn gyrchfan fechan i dwristiaid hyd yn oed yn ei gyflwr annatblygedig. Ar ddiwedd oes Fictoria, roedd pob dosbarth cymdeithasol yn darganfod glan y môr. Tra bod rheilffyrdd yn cyrraedd yr arfordir, roedd cyrchfannau gwyliau yn ehangu gan gynnwys nodweddion ysblennydd fel pierau, promenadau a gerddi gaeaf.

Ychydig dros 40 mlynedd yn gynharach, yn 1833, roedd y *Topographical Dictionary of Wales* gan Samuel Lewis yn 1833 wedi nodi bod y ffermdy ar yr ynys yn 'fitted up in summer for the reception of persons desirous of enjoying in retirement the benefit of sea-bathing'.<sup>15</sup> Yn 1856, pan roddodd perchennog yr ynys, Robert Jones yr ynys ar ocsiwn, awgrymwyd y gallai Ynys y Barri ddatblygu i fod yn 'considerable bathing place'. Prynwyd

yr ynys gan y meistr haearn o Ferthyr, Francis Crawshay. Roedd Crawshay eisoes wedi mynd â'i weithwyr yno i fwynhau diwrnod ar lan y môr yn 1845.<sup>16</sup> Nawr, adeiladodd Westy'r Marine (a alwyd yn Friars Point House yn ddiweddarach) a gwnaeth drefniadau i ymwelwyr gael eu cludo drosodd o Storehouse Point yn y Barri pan fyddai'r llanw'n uchel. Fodd bynnag, erbyn 1873, pan werthwyd yr ynys i J. P. Trehame, a oedd yn feistr glo ac entrepreneur, roedd cynlluniau ar droed, nid yn unig i greu cyrchfan glan môr fodern, ond i integreiddio'r prosiect hwn â doc newydd yn y culfor rhwng Ynys y Barri a'r tir mawr. Byddai hyn yn diwallu anghenion perchenogion pyllau glo y cymoedd a oedd yn teimlo'n rhwystredig oherwydd y diffyg lle yn Nociau Caerdydd.

Mae gwir hanes modern yr ynys yn dechrau pan gloddiwyd doc cyntaf y Barri (1884–89). Ond dim ond un o sawl cynllun oedd hwn i greu doc yn Swnt y Barri a'i gysylltu drwy reilffordd â phyllau glo'r cymoedd dwyreiniol. Arweiniwyd y fenter gyntaf gan y teulu Jenner o Gastell Gwenfô a'u partneriaid, a oedd yn cynnwys y pensaer J. P. Seddon. Gwnaethant sefydlu'r Barry Building Company er mwyn adeiladu tai ar yr ynys, a fyddai'n cael ei chysylltu â'r tir mawr drwy reilffordd a ffordd. Methodd y prosiect hwn

*Denodd Bae Whitmore ymwelwyr hyd yn oed yn ei gyflwr annatblygedig i raddau helaeth (TuckDP Postcards 7109, dim dyddiad).*



*Y pier simsan a adeiladwyd gan J. P. Treharne ar Friars Point ar ddechrau'r 1870au (Casgliad Gerald Beaudette)*

oherwydd diffyg cefnogaeth gan farwniaid glo nad oeddent yn gallu penderfynu rhwng cadw at y posibilrwydd y byddai Dociau'r teulu Bute yng Nghaerdydd yn ehangu a chynllun a fyddai'n torri monopoli Bute.

Treharne oedd yr ail i roi cynnig ar hyn. Roedd yn rhan o gynllun dociau a arweiniwyd gan ymddiriedolwyr ystâd Windsor ac roedd yn hyrwyddo'r syniad y gellid datblygu'r ynys ar gyfer tai a hamdden mewn cysylltiad â doc a rheilffordd newydd. Chwalodd y cynllun hwn pan wynebodd y diwydiant haearn a dur ddirwasgiad byr. O ganlyniad, gwerthwyd yr ynys ym mis Hydref 1877 i ystâd Windsor, a oedd am warchod ei fuddsoddiad yn y doc newydd a thref Penarth drwy atal y gwaith o ddatblygu doc cystadleuol yn y Barri.<sup>17</sup>

Fodd bynnag, erbyn hyn, roedd Treharne wedi ehangu Gwesty'r Marine, wedi adeiladu pier haearn simsan yn Friars Point, wedi annog ymwelwyr i ddod ar deithiau dydd ar stemar ac wedi cludo ymwelwyr ar gwch o Westy'r

Ship yn Storehouse Point. Yn 1876, daeth 12,000 o ymwelwyr i'r ynys.<sup>18</sup>

Fodd bynnag, erbyn 1881, roedd yr amgylchiadau wedi newid digon i olygu bod datblygu doc y Barri yn syniad deniadol unwaith eto i berchenogion pyllau glo y Rhondda (yn enwedig David Davies o Gwmni Glo Ocean ac Archibald Hood o Gwmni Glo Morgannwg). Roedd mwy na 200 o byllau yn y Rhondda bellach, a phob un ohonynt yn dibynnu ar Ddociau Caerdydd a oedd yn eiddo i deulu Bute. Roedd Davies a'i gydweithwyr wedi methu â darbwyllo'r ardalydd Bute i gynyddu capasiti Caerdydd ac yn hytrach, gwnaethant ddarbwylllo yr Arglwydd Windsor i drafod y defnydd o'r ynys gyda nhw. Er gwaethaf gwrthwynebiad chwym o du Bute, pasiwyd Bil Doc a Rheilffyrdd y Barri ym mis Awst 1884. Ar 14 Tachwedd 1884, gwnaeth cynrychiolwyr y consortiwm ymgynnull yn Castleland Point i weld y dywarchen gyntaf yn cael ei thori yn y gwaith o adeiladu'r dociau.

Yn 1881, dim ond 500 o drigolion oedd yn nhri phlwyf y Barri, Merthyr Dyfan a Thegatwg.

Trosglwyddwyd y dirwedd a'r gymdeithas yn sgil adeiladu'r doc a'r rheilffordd, ac arweiniodd at lefelau uchel iawn o fewnfudo o bob cwr o Ynysoedd Prydain. Erbyn 1911, roedd 33,763 o drigolion yn y dref newydd, a chynyddodd i 38,000 erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Y Dref Newydd

Agorwyd y doc cyntaf yn y Barri ar 18 Gorffennaf 1889. Erbyn hynny, roedd tref newydd yn datblygu o amgylch y mynedfeydd i'r dociau a'r gorsafoedd rheilffordd yn y Barri, Doc y Barri a Thregatwg o'r man lle'r oedd llinellau'r Barry Railway Company yn rhedeg tua'r gogledd, drwy Wenfô i Drehafoed a'r Rhondda. Erbyn

1890, roedd gan y dref gysylltiadau rheilffordd â Chaerdydd drwy Benarth a Cogan. Cysylltwyd Ynys y Barri â'r tir mawr drwy reilffordd yn 1896, gyda'r llinell yn cael ei hymestyn i'r Pier Head ger y fynedfa i'r dociau yn 1899. Erbyn 1900, roedd y dref wedi'i chysylltu â Phen-y-bont ar Ogwr drwy linell Bro Morgannwg.

Y doc cyntaf (Doc Rhif 1) a oedd yn 30 hectar (73 erw) o faint, oedd y mwyaf ym Mhrydain, ond nid oedd yn ddigon o faint ar gyfer y fasnach glo oedd ar gynydd. Yn 1898, agorwyd ail ddoc llai o faint (Doc Rhif 2), ynghyd â Llifddorau newydd dwfn y Lady Windsor. Yn 1913, cafodd mwy nag 11 miliwn o dunelli o lo ei allforio, sef y swm uchaf erioed, a'r Barri oedd y porthladd allforio glo mwyaf yn y byd.

*Dociau'r Barri cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Swyddfeydd Dociau'r Barri, a adeiladwyd yn 1898, yn y cefndir (Cardiau Post TuckDB 7109, dim dyddiad, ond cyn 1914).*





*Dociau'r Barri yn 1929 yn edrych o'r ynys tuag at y dref sy'n tyfu (© Haulfrait y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW019461).*



*Dociau'r Barri yn 1942 (© Haulfrait y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WAW007742).*



*Chwith a chwith isod: Siopau ar Stryd Fawr, y Barri, tua 1900 ac yna ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Isod: Datblygodd gwystai, fel Gwesty'r Barri ar Windsor Road, y Barri, ac amwynderau eraill gyda thwf y dref newydd. Mae'r olygfa hon o gerdyn post sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914.*

## Tref yr Is-ddeddfau


Wrth gwrs, mae hanes modern Ynys y Barri yn rhan o stori ehangach y dref, lle y mae ei chymeriad nodedig yn deillio o'i thwf cyflym ar ôl 1884. Yn y blynyddoedd cynnar, roedd sylwebwyr yn siarad yn huawdl am natur ad hoc y dref. Gyda'i hadeiladau pren a'i strydoedd lleidiog anniben, roedd y lle (a oedd yn dal yn ddiennw) yn debyg i dref yng ngorllewin gwyllt America. Newidiodd hyn yn 1894 pan sefydlwyd Cyngor Dosbarth Trefol y Barri, a oedd yn sail ar gyfer rheoli iechyd y cyhoedd a phennu safonau priodol, yn seiliedig ar Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 a'i his-ddeddfau enghreifftiol ar gyfer cynllun strydoedd, safonau tai a draeniad.



*Roedd Dock View Road, yn union uwchlaw'r dociau, yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o safleoedd masnachol a llety. Mae'r cerdyn post hwn, gan J. A Manaton, Gwerthwr Deunydd Ysgrifennu, o'r Barri, yn dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif.*



*Dde ac isod: Tai teras ar Church Road, Tregatwg ym mis Medi 2011 a chyn y Rhyfel Byd Cyntaf (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



Adeiladwyd tai teras uwchlaw'r dociau, gyda nodau yn y Barri, Doc y Barri a Thregatwg. Roedd gan bob nod ei ardal siopa a busnes, ysgolion, eglwysi a chapeli. Adeiladwyd y rhan fwyaf o'r dref newydd erbyn 1900 pan roedd y boblogaeth wedi cyrraedd 27,000. Yn ystod y blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, adeiladwyd neuadd y dref, llyfrgell Carnegie a choleg hyfforddi merched i fod yn athrawon. Roedd sôn am brifysgol a thŷ opera.

Gwaith adeiladu tai hapfasnachol a gafwyd yn bennaf, gyda chwmnïau adeiladu bach yn prydlesu blociau o dir a oedd yn aml yn adlewyrchu ffiniau caeau a system ffyrdd a dyfodd yn organig o'r rhwydwaith cynharach o lonydd gwledig a pherthi. Er gwaethaf hyn, roedd safonau is-ddeddfau'n





*Mae'r ffotograff hwn o 1929 yn dangos adeiladau trefol a llyfrgell y Barri, a gublbawyd yn 1906, wedi'u hamgylchynu gan dai teras ac ardal siopa Holton Road (© Haulfrint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW029394).*

*Isod: Yr ardal o amgylch Eglwys yr Holl Saint, y Barri, yn 1929. Noder yr ardaloedd mawr o randiroedd a thai cymysg yn yr ardal breswyl hon yn bennaf (© Haulfrint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WAW029462).*



golygu bod yn rhaid i ffyrdd fod yn 11 metr (36 troedfedd) o led o leiaf, bod yn rhaid i bob tŷ gael o leiaf 14 metr sgwâr (150 troedfedd<sup>2</sup>) o ardal agored a lonydd cefn yn gwasanaethu'r rhesi o dai teras. Cyfunodd perchenogaeth tir dameidiog a nodweddion y gynghrair adeiladu leol ynghyd â natur fryniog y tir mawr at greu treflun diddorol iawn.<sup>19</sup>

Yn aml, gall terasau is-ddeddfau fod yn undonog, ond yn y Barri, mae cymaint o amrywiaethau ar y thema, sy'n adlewyrchu graddoliad cymdeithasol a'r dirwedd fryniog yn y bôn. Ymestynna'r strydoedd ar hyd ac ar draws llethr amffitheatr naturiol uwchlaw'r dociau. Roedd golygfeydd dramatig o'r dref newydd i'r de tua'r ynys a Môr Hafren, ac arfordir Gwlad yr Haf a Dyfnaint y tu hwnt.

Rhwng 1918 a 1939, gwelwyd dirywiad yn y dociau. Fodd bynnag, parhaodd y gwaith adeiladu tai a datblygiadau hamdden yn sgil buddsoddiad gan y llywodraeth a Chyngor Dosbarth Trefol y Barri. Un ymateb oedd ailfodelu'r gyrchfan glan môr fach, a oedd wedi datblygu ar yr ynys, ar y cyd â'r gwaith cyhoeddus yn Cold Knap a'r Parade, lle y crewyd llyn adduniadol, gerddi, promenâd a phwll nofio. Roedd hyn yn ymateb uniongyrchol i'r dirwasgiad yn y fasnach glo a'r diweithdra dilynol yn y dociau.<sup>20</sup> Roedd y buddsoddiad yn llwyddiant diamheuol, o leiaf o ran nifer yr ymwelwyr. Datblygodd Ynys y Barri yn benodol i fod yn gyrchfan boblogaidd i ymwelwyr dydd a fyddai'n teithio ar drên neu siarabang o'r cymoedd, tra bod Cold Knap, gyda'i draeth caregog a'i bromenâd yn edrych allan dros Fae Porthceri, yn tueddu i ddenu teuluoedd lleol.

*Golygfa rhwng y ddau ryfel o'r gwaith cyhoeddus yn Cold Knap, y Barri. Roedd y cynllun yn cynnwys ailfodelu gyrchfan glan môr ar Ynys y Barri. Agorwyd y pwll nofio yn 1926. Adeiladwyd canolfan gynadledda a gwyliau YMCA Glanymor yn y cefndir yn 1931-33 a chafodd ei dymchwel yn 1980 (Cardiau Post TuckDB, BRY 3, dim dyddiad).*



*Gerddi'r promenâd ar lan y môr ar Ynys y Barri, wedi'i dynnu ar ddechrau'r 1950au mae'n debyg, gyda'r gysgodfan siarabang yn y pellter (Cardiau post TuckDB, BRY 83, dim dyddiad).*



## Y Cyfnod ar ôl y Rhyfel

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, datblygwyd ar y cyron wrth i'r Barri ddatblygu i fod yn dref i gymudwyr. Adeiladwyd llawer o'r tai cyn y rhyfel gan adeiladwyr preifat; nawr, sefydlodd y cyngor lleol raglen adeiladu tai cyhoeddus fawr mewn ymateb i argyfwng tai diwedd y 1940au a dechrau'r 1950au. Ychwanegodd hyn at y cynlluniau effeithiol rhwng y ddau ryfel ar Jenner Road a'r Colcot. Adeiladwyd rhagor o dai cyhoeddus yn y 1960au a dechrau'r 1970au, yn enwedig yn ardal Gibbonsdown. Yn ystod y pedwar degawd ar ôl 1960, gwelwyd llawer o ystadau tai preifat yn llenwi'r ffermdir rhwng ffyrdd rheidiol y dref gan ehangu dros y gefn i'r gogledd-orllewin o'r dref a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel ac i'r gorllewin o Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri (agorwyd ym mis Tachwedd 1981<sup>21</sup>). Yng nghanol y 1990au, dechreuwyd adeiladu tai a datblygiadau manwerthu ar ochr ogleddol Doc Rhif 1. Y cynllun mewnlenwi mwyaf ei faint a welwyd yn ddiweddar yw'r cynllun yn White Farm, Merthyr Dyfan.<sup>22</sup>

Erbyn y 1960au, gwelwyd dirywiad diwydiannol difrifol yn y dref gyda chyfyngiad y dociau a'r rheilffyrdd. Daeth lard Woodham yn Noc Rhif 1 i enwogrwydd fel lleoliad sgrapio injans stêm British Railways. Roedd yn amlwg, hefyd, bod arferion hamdden newydd yn erydu masnach yr ynys.

Er bod gan y Barri borthladd gweithiol o hyd o amgylch Doc Rhif 2, nid yw fel ag yr oedd yn 1913. Erys rhywfaint o draffig o hyd, efallai yn sgil Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri, sy'n sicrhau mynediad uniongyrchol ar y ffordd i draffordd yr M4. Yn gymdeithasol, mae'n gymuned sy'n dibynnu ar y sector gwasanaeth, rhywfaint o ddiwydiant ysgafn a pharc dosbarthu a chemegion ar Rosydd Tregatwg. Mae rhannau o'r dref, yn enwedig mewn ardaloedd o dai cyhoeddus a adeiladwyd ar ôl y rhyfel, yn cynnwys diweithdra ac amddifadedd. Mae'r dirywiad diwydiannol wedi gadael ei ôl ar ganol y dref yn arbennig ac mae wedi methu â chystadlu â thwf manwerthu y tu allan i'r dref.

Mae mentrau adfywio allweddol y chwarter canrif diwethaf wedi canolbwyntio ar ganol y dref, Ynys y Barri a Doc Rhif 1. Tai a adeiladwyd yn bennaf yng nghynllun adfywio'r dociau, ynghyd â pharc manwerthu bach a dwy archfarchnad fawr. Fodd bynnag, mae ail gam y rhaglen, sy'n cynnwys 2,000 o dai, hefyd yn cynnwys elfennau hamdden a manwerthu.<sup>23</sup> Agorwyd archfarchnad yn ystod gwanwyn 2015 ac roedd datblygiad tai y Quays yn mynd rhagddo ar adeg llunio'r astudiaeth hon. Crëwyd ail ffordd fynediad i Ynys y Barri drwy'r doc (2016) ac mae'r tŷ pwmpio hydrologig rhestredig gradd II wedi'i adnewyddu at ddibenion hamdden, byw a busnes.<sup>24</sup>



*Y gwaith o adfywio'r dociau yn mynd rhagddo ym mis Awst 2016 (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

Ar yr ynys, mae'r promenâd dwyreiniol wedi'i adfywio ym Mae Whitmore (gweler tt. 58–60), ond hefyd gwelwyd newid sylweddol pan drawsnewidiwyd Gwesty'r Marine yn dai, sy'n amlwg ar gyffordd Friars Road â Plymouth Road, a'r gwaith o ddatblygu ei gwrtil ar gyfer tai cymdeithasol Ger y Môr.<sup>25</sup>

Er gwaethaf y mewnlenni a'r ehangu trefol helaeth dros y ganrif ddiwethaf a'r gwaith graddol o adfywio'r dociau, erys cymeriad lleol ac ymdeimlad nodedig o le yn bennaf oherwydd gwreiddiau Fictoraidd ac Edwardaidd y dref a lleoliad dramatig ei strydoedd cynnar ar y llechwedd yn edrych dros y dociau a'r ynys. Mae Ynys y Barri ei hun, fel cymuned breswyl a grëwyd cyn 1914, gyda glan y môr a grëwyd rhwng y ddau ryfel, yn gwneud ei gyfraniad ei hun at hunaniaeth y dref.

## Ynys y Barri

Gellir gweld y broses o ddatblygu Ynys y Barri fel microcosm o hanes y dref. Creodd datblygiadau

preswyl cynnar amrywiaeth o strydoedd a mathau o dai sy'n creu ymdeimlad o unrhywiaeth â thref y tir mawr er bod y cynllun strydoedd a'r ffurf drefol wedi'u rheoli gan un tîrfeiddiannwr, a'r safonau wedi'u rheoleiddio gan Gyngor Dosbarth Trefol y Barri. Roedd y gwaith datblygu ar yr ynys yn dilyn cynllun strydoedd a luniwyd yng nghanol y 1890au. Roedd hyn oherwydd y rhaniad rhwng glan y môr a'r strydoedd preswyl a orfodwyd oherwydd y tir, a atgyfnerthwyd drwy adeiladu'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd o'r tir mawr i'r ynys a'r Pier Head.

Dengys tystiolaeth o fapiau a'r cyfrifiad bod llawer o'r tai a adeiladwyd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf ar yr ynys wedi'u hadeiladu erbyn 1900. Roedd hyn yn amrywio o dai gweithwyr mewn terasau â blaenau gwastad i filâu pâr helaeth yn edrych dros Fae Jackson a Môr Hafren. Er mwyn gwasanaethu'r gymuned gynyddol, adeiladwyd Gwesty newydd y Marine ar ben Plymouth Road yn 1893. Datblygwyd The Triangle, gyferbyn, fel canolfan siopa fach ar gyfer yr ynys. Gwelwyd rhagor o ddatblygiadau ar hyd Friars Road yn ystod degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif.

*Gwesty'r Marine cyn 1914 (Cardiau Post TuckDB, 7109).*



Roedd yr ymgyrch adeiladu hon yn adlewyrchu'r broses o ddatblygu cymuned yn gysylltiedig â'r dociau, y rheilffyrdd a gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, yn yr un modd, datblygwyd cyrchfan glan môr o amgylch Bae Whitmore, a ehangodd yn gyflym oherwydd dyfodiad y rheilffordd yn 1896. Roedd peiriannau ymdrochi wedi ymddangos ar y tywod yn 1891 ac, yn yr un flwyddyn, agorwyd ystafelloedd lluniaeth yn edrych dros y traeth islaw'r mynediad i Friars Point House. Cwblhawyd Harbour Road (y sam) yn 1897, a oedd yn golygu nad oedd y mynediad ffordd i'r ynys yn mynd ar draws y dociau mwyach. O ganlyniad i'r cysylltiadau da â'r tir mawr a'r cymoedd, datblygodd twristiaeth yn gyflym yn y 1890au.

Creodd y sam siâp modern, cyfarwydd Porthladd y Barri hefyd — yr Hen Harbwr fel y'i gelwir yn lleol — gan gysylltu Cold Knap a'i strydoedd preswyl gerllaw â'r ynys. Hyd nes i'r West Pond gael ei lenwi ar ôl yr Ail Ryfel Byd, cynhaliodd yr ardaloedd hyn o ddŵr ymdeimlad pwerus o wahaniad rhwng yr ynys a rhan orllewinol y Barri.


Gyda dyfodiad y rheilffordd, cyflymodd y buddsoddiad yn yr ardal. Yn 1897, agorwyd y Switchback Railway rhwng y traeth ac ochr

y cae criced (1904). Fe'i cynlluniwyd gan y peiriannydd ffigar-êt Americanaidd LaMarcus Thompson ar gyfer Addangosfa Empire Caerdydd a daethpwyd ag ef i'r Barry gan Sydney White. Hefyd yn 1897, creodd ystâd Windsor arglawdd uwchlaw'r blaendraeth, rhwng Friars Road a'r traeth, er mwyn cadw'r twyni yn ôl. Yn 1899, estynnwyd y rheilffordd i'r Pier Head drwy dwnnel, a arweiniodd at dwf masnach y stemar plaser.

Yn 1900, gwerthodd ystâd Windsor, a gynlluniodd ddatblygiad cynnar yr ynys, dir ar Paget Road i Gyngor Dosbarth Trefol y Barri ar gyfer adeiladu ystafelloedd newid a thai bach (cawsant eu dymchwel yn y 1980au). Nesaf, rhwng 1903 a 1905, datblygwyd promenâd plaser ar hyd yr arglawdd rhwng Paget Road a Nell's Point, ac adeiladwyd pwll ymdrochi llanw islaw Friars Point. Adeiladwyd 'tai ymdrochi' neu ystafelloedd newid ar gyfer merched uwchlaw'r pwll llanw ac ar gyfer dynion ym mhen Nell's Point o'r traeth. Yn ddelfrydol, byddai dynion a merched yn ymdrochi ar wahân. Adeiladwyd cwt arolygydd traeth (caffi Dinky yn ddiweddarach) ar ben yr esgynfa a'r grisiau, a roddai fynediad o'r traeth i Friars Point. Roedd y cwt wedi'i gynnal gan byst, y gellir gweld eu holion ar y creigiau o hyd.

*Y pwll ymdrochi llanw, Tŷ Ymdrochi'r Merched a'r caffi, a chwt yr arolygydd traeth ar byst yn y blaendir yn Friars Point (cerdyn post Valentines, 1905–14. Casgliad Matthew Griffiths).*





*Y Figure 8, a godwyd gan y brodyr White ar safle'r ffair fodern yn 1912.*

Roedd pontydd pren yn cludo'r promenâd dros fylchau yn y twyni at bennau dwyreiniol a gorllewinol y traeth. Yn Nell's Point, adeiladwyd esgynfa o'r traeth yn union cyn Tŷ Ymdrochi'r Dynion. Cafodd y tŷ ymdrochi a'r esgynfa eu hintegreiddio i'r gwaith o ddatblygu'r promenâd ar ddechrau'r 1920au ac maent wedi goroesi i gael eu hymgorffori i Gynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol a gwblhawyd yn 2015. Yn anffodus, roedd Tŷ Ymdrochi'r Merched (ac ystafell de Gwalia uwchlaw) yn fwy agored i wynt, y llanw a llithriant. Roedd hwn, ynghyd â chaffi Dinky, wedi'u dymchwel erbyn 1977.<sup>26</sup> Erys olion y pwll ymdrochi llanw islaw.

Yn 1909, cymerodd Cyngor Dosbarth Trefol y Barri reolaeth o Fae Whitmore. Yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai'r gyrchfan wyliau ddatblygu ymhellach, cymeradwyodd y cynghorwyr gynllun ar gyfer morglawdd a phromenâd newydd; fodd bynnag, ymyrrodd y rhyfel ar y prosiect. Yn 1912, gosododd y teulu White y Figure 8 ar safle

presennol y ffair, cyn dymchwel y Switchback Railway yn 1914.

## Y Cyfnod Rhwng y Ddau Ryfel

Dechreuodd y gwaith o adeiladu prif nodweddion y gyrchfan a welir heddiw yn 1922 fel rhan o gynllun mwy i ddarparu atyniadau glan y môr modern ar Ynys y Barri ac yn Cold Knap. Dechreuwyd hyn drwy adeiladu'r morglawdd a'r promenâd. Agorwyd cysgodfannau'r Gorllewin a'r Dwyrain, a ddyluniwyd mewn arddull Paladaidd nodedig gyda cholofnau a goruwchadeiliau Tysganaidd, erbyn 1925. Ddegawd yn ddiweddarach, er mai Art Deco oedd arddull y cyfnod, yn llawn golau ac aer, roedd hwn yn gynllun a grëwyd yn yr oes Edwardaidd. Plannwyd gerddi cyhoeddus rhwng y promenâd a Friars Road. Dinistriwyd rhannau o'r gwaith tirlunio a'r nodweddion cysylltiedig, yn benodol, y Dingle a'i bont gerdded, pan adeiladwyd gwersyll gwyliau Butlin's ar ôl 1964, ond mae'r gweddill wedi goroesi.



*Y canllaw nodedig ac un o'r ciosgau yng ngerddi'r promenâd, tua 1929. Noder yr Adeiladau Esplanade newydd.*

Yn 1924, agorodd y brodyr White y ffair ar ei safle presennol, gyda'r Figure 8 yn brif atyniad. Arweiniodd ffrae rhwng y brodyr White a'u cystadleuwyr, y teulu Collins, at Pat Collins yn cymryd rheolaeth o'r safle yn 1930. Symudodd y brodyr White ar draws y ffordd i sefydlu atyniadau cystadleuol ar Cosy Corner.

Adeiladwyd caffi The Merrie Friars ac Adeiladau'r Esplanade (siopau, fflatiau a neuadd ddawns) — dau o strwythurau amlycaf y gyrchfan wyliau —

y naill yn 1925 a'r llall yn 1928. Yn 1929, ehangodd y Great Western Railway yr orsaf mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dydd. Prynodd Cyngor Dosbarth Trefol y Barri dir yn Nell's Point yn 1931, a'i alluogodd i gwblhau'r broses o ddatblygu seilwaith y gyrchfan wyliau drwy godi cysgodfan siarabáng ar Forrest Drive. Yma, hyd at ganol y 1960au, roedd cwrs golff bach (uwchlaw'r gysgodfan siarabáng) a chyrtau tennis. Yn 1933, hyrwyddodd y cyngor sioe oleuadau Ynys y Barri am y tro cyntaf.



*Ar ddechrau'r 1930au, symudodd y brodyr White eu ffair o'r safle modern, ar draws y ffordd, i Cosy Corner. Mae'r olygfa hon o'r 1950au yn dangos dau fwa; dim ond yr un ar ochr dde bellaf y ffotograff sydd wedi goroesi (© Archifau Morgannwg, DX53/2).*



*Uchod: Y gyrchfan wyliau o'r awyr yn 1933 yn dangos yr holl brif nodweddion a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel. Y gysgodfan siarabang yw'r strwythur gwyn amlwg ar Nell's Point (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW041251).*



*Traeth a phromenâd Ynys y Barri (Cardiau Post TuckDB, BR Y 14, dim dyddiad, 1948 o bosibl).*



Hyd yn oed ar ddechrau'r 1890au, roedd Ynys y Barri wedi denu 100,000 o ymwelwyr mewn un tymor. Pan agorodd y rheilffordd yn ystod haf 1896, ymwelodd rhwng 30,000 a 40,000 o ymwelwyr ar y diwrnod cyntaf. Erbyn 1934, ymwelodd 400,000 â'r ynys am y diwrnod yn ystod wythnos gŵyl y banc ym mis Awst. Roedd y gyrchfan wyliau yn gwasanaethu cymunedau glofaol cymoedd de Cymru, yn ogystal â phobl Caerdydd gerllaw. Roedd gwestai bach ar agor, ond ymweliadau dydd oedd prif gynhalydd yr economi wedi'u gwasanaethu gan drenau gwibdaith hir o gymoedd y Rhondda a'r Taf, a gorymdeithiau o goestys a siarabángs. Roedd Ynys y Barri yn ganolog i ddiwylliant de Cymru ddiwydiannol ac i'r clybiau, capeli ac ysgolion Sul a oedd yn ffocws i fywyd cymunedol.


Let's go to Barry Island, Maggie Fach,  
And give all the kids one day by the sea,  
And sherbet and buns and paper hats,  
And a rattling ride on the Figure Eight;  
We'll have tea on the sands and rides on  
the donkeys,  
And sit in the evening with the folk of  
Cwm Rhondda.

Idris Davies (1926)

Yn ddigon rhyfedd, y peth cyntaf a ddeilliodd o'r Ail Ryfel Byd oedd nodwedd amlycaf yr ynys, sef y ffair a adeiladwyd ar ôl y rhyfel. Roedd y Scenic Railway yn strwythur pren anferth a oedd yn llenwi hanner ardal y ffair. Fe'i gosodwyd yn ystod hydref 1939. Roedd yn gopi o Scenic Railway John Collins yn Great Yarmouth (1932), ac fe'i hadeiladwyd ar gyfer Arddangosfa'r Empire yn Glasgow yn 1938 am gost o £150,000 ac yna aethpwyd ag ef i Liège ar gyfer yr Arddangosfa Ddŵr Ryngwladol yn 1939. Pan dorodd y rhyfel, cafodd ei ddymchwel, ei wagio a'i godi ar yr ynys. Cafodd y strwythur pren anferth ei orchuddio â golygfeydd (porffor yn bennaf) i gyfleu tirwedd fynyddig. Roedd ganddo gwmp o 22 metr (72 troedfedd) ac roedd yn rhoi reid milltir o hyd i ymwelwyr. Cafodd y Scenic Railway ei ddifrodi'n rhannol yn 1963 a'i ddiinstrio'n llwyr yn 1973 gan storm fawr, a arweiniodd at ei ddymchwel. Ymgorfforwyd rhannau o'r strwythur yn y Wacky Goldmine a'r Log Flume, a oedd yn nodweddion amlwg o'r ffair nes i'r hen reids gael eu clirio ar ddechrau 2015 cyn i'r safle ailagor yn nwylo gweithredwr newydd.

Ar ôl 1945, gwelodd y fasnach gwyliau. Y prif waith datblygu ffisegol oedd adeiladu tai

*Y Scenic Railway, un o eiconau Ynys y Barri o 1939 hyd nes iddo gael ei ddymchwel fwy na 40 mlynedd yn ddiweddarach (Cardiau Post TuckDB, BRY 42, dim dyddiad, cyn 1952).*



cyhoeddus ar y rhandiroedd uwchlaw Parc Maslin ar hyd y strydoedd a nodwyd gan ystâd Windsor yn ystod degawd olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hyn yn rhan o'r ymgais i fynd i'r afael â'r diffyg tai difrifol yn y dref. Daeth Nell's Point, gyda'i orsaf gwylwr y glannau o oes Fictoria a'i fagnelfa, yn safle i wersyll sgwatwyr a gaewyd yn 1954. Adeiladwyd rhagor o dai cyhoeddus yn y 1960au ar gefn Redbrink Crescent.

Erbyn canol y 1950au, roedd arwyddion nad oedd popeth yn dda â'r economi glan môr. Arweiniodd y gorbryder hwn at ysgrifennu adroddiad yn 1956 gan y cynllunyydd a'r pensaer tirwedd nodedig, (Syr) George Jellicoe (1900–96), a gynigiodd gynllun uchelgeisiol i ailfodelu holl ardal y glannau, o Nell's Point i Fae Porthceri. Arddangoswyd model o'r cynllun yn ardal y glannau am sawl blwyddyn, ond nid oedd y cynigion fyth yn ymarferol ac aeth yn fwyfwy rhyfedd gyda threigl amser.<sup>27</sup>

*Gwersyll gwyliau Butlin's yn cael ei adeiladu ar Nell's Point. Dechreuodd y gwaith adeiladu ar ddiwedd 1965 ac agorodd y gwersyll ar 18 Mehefin 1966 (Casgliad Gerald Beaudette).*

## Y Gyrchfan Olaf

Gyda dirywiad y dociau a'r rheilffyrdd, hyrwyddwyd twristiaeth fel achubwr yr economi

leol. Yn 1964, daeth Cyngor Bwrdeistref y Barri i gytundeb i roi Nell's Point a'r tir gerllaw i Butlin's. Yn sgil adeiladu'r gwersyll gwyliau, ailddatblygwyd y penrhyn cyfan a Spion Kop i'r gogledd. Ardal o dywod a phrysgwydd oedd Spion Kop yr arferwyd ei ddefnyddio fel tomen arfau yng nghyfnod y rhyfel ac yn ddiweddarach fel maes parcio ceir a bysiau. Cafodd Forrest Drive a'i nodweddion cysylltiedig eu chwalu; torrwyd Friars Road yn ddwy, ond adeiladwyd Breaksea Drive fel parhad o Station Approach er mwyn cynnal y cysylltiad rhwng y gyrchfan wyliau a dwyrain yr ynys.

Gyda'r cynnydd ym mhoblogrwydd gwyliau pecyn i Fôr y Canoldir, arweiniodd y gostyngiad yn y farchnad teithiau dydd at ddirywiad cyfatebol yn y cyrchfannau glan môr ledled Prydain. Gyda dirywiad stemars Môr Hafren, caewyd gorsaf y Pier Head yn 1971. Caeodd Butlin's yn 1986 ar ôl dim ond ugain mlynedd, i gael ei ddisodli gan weithredwr arall a gaeodd y ganolfan yn 1996.

Ar ddiwedd y 1980au, arweiniodd y dirywiad yn nifer yr ymwelwyr at ymgais i ailfrandio'r ynys drwy fuddsoddi mewn goleuadau, llawrlun, arwyddion a dodrefn stryd fel rhan o Raglen Weithredu Cyrchfan Wyliau Ynys y Barri.<sup>28</sup>





*Tai modern ar Nell's Point yn 2015  
(© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Pan gaewyd y gweryll gwyliau yn 1996, defnyddiwyd Nell's Point ar gyfer tai a mannau agored. Datblygwyd y tai mewn dau gam: oddi ar Breaksea Drive yn 1998–2000 ac ar Nell's Point ei hun yn 2000–04. Dilëwyd olion olaf y gweryll gwyliau yn 2005. Mae rhan orllewinol y safle yn aros i gael ei ailddatblygu o hyd, ond mae'n cael ei ddefnyddio fel maes parcio dros dro yn 2016.

Rhoddyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Mawrth 2012 i ailddatblygu safle'r ffair. Ar adeg ysgrifennu'r astudiaeth hon, mae'r cynllun arfaethedig yn cynnwys tai a ffair newydd. Cliriwyd

y safle'n rhannol ar ddechrau 2015 cyn iddo gael ei roi ar brydles i weithredwr ffair newydd.

Y fenter fwyaf hyd yma oedd buddsoddi yn y gwaith o wella'r mannau cyhoeddus, sy'n rhan o raglen adfywio ehangach. Cwblhawyd gwaith sylweddol i'r promenâd dwyreiniol yn 2015. Roedd hyn yn cynnwys adnewyddu Cysgodfa'r Dwyrain, llawrlun newydd, gerddi a llwybrau gyda chysylltiadau i'r maes parcio dros dro uwchlaw. Cwblhawyd y cynllun gyda'r gwaith o warchod ac aildddefnyddio Tŷ Ymdrochi'r Dynion ac adeiladu cytiau ymdrochi newydd lliwgar.



*Mae cytiau traeth lliwgar yn nodwedd allweddol o Gynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol 2013–15. Ffotograffwyd ym mis Chwefror 2015  
(© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

# Tirwedd Hanesyddol

Cyn adeiladu doc cyntaf y Barri, nifer fach o bobl oedd yn byw ar yr ynys. Roedd cydgyfeiredd dwy economi yn llywio cwrs y gwaith datblygu: y fasnach allforio glo, gyda'i dociau a'i rheilffyrdd, a dyfodiad twristiaeth glan môr ar raddfa fawr, a lwyddodd i ehangu yn sgil y rheilffordd.

Cyfunodd nodweddion ffisegol Ynys y Barri a'r ffordd y cafodd ei chysylltu â'r tir mawr pan adeiladwyd Doc Rhif 1, ynghyd â phatrwm tirlfeddiannaeth ac uchelgeisiau llywodraeth y dref, i lywio datblygiad a nodweddion modern yr ynys.

## Nodweddion Ffisegol

Mae siâp Ynys y Barri yn debyg i bysgodyn gwastad, gyda'i gynffon yn cael ei chynrychioli gan Ynys Fach a Friars Point, wedi'i chysylltu gan gyfyngdir cul rhwng Bae Austy<sup>29</sup> a Bae Whitmore â chorff yr ynys. Redbrink Point sy'n cynrychioli pen annhebygol braidd y pysgodyn.

Mae tystiolaeth ar fap a ffotograffau yn datgelu bod y clogwynlun, sy'n edrych dros y dociau ar ochr ogleddol yr ynys, yn goleddfu'n llai serth i lawr at y blaendraeth cyn y diwydianeiddio. Mae'r pwyntiau uchaf ar yr ynys (dros 40 metr/130 troedfedd) o uchder ar Austy Hill, yn edrych dros yr Hen Harbwr, ac uwchlaw Battery Hill (Dock Road) a Redbrink Point. Fel y gwelir yn yr amlinell o'r dref, mae ochr ogleddol yr ynys yn codi, yn pantio ac yn codi eto. Tua'r de, mae'r tir yn pantio'n serth tuag at dir corsiog Leech Pool (Parc Maslin). O'r llwyfandir i'r gorllewin o Redbrink Point a bryncyn Spion Kop, arweiniau llethr arall tuag at Fae Whitmore a'r twyni a'r rhostir y tu hwnt iddo.

Caiff traethau Bae Whitmore eu cysgodi gan bentiroedd Friars Point — sy'n gorwedd yn isel a chul uwchlaw Cold Knap — a Nell's Point sy'n uwch ac yn oddfog, gyda'i olygfeydd dros Fôr Hafren, Craig Bendrick ac Ynys Sili. Cyn y dociau, penrhyn agored oedd Nell's Point yn bennaf ac

*Bae Whitmore, wedi'i amgylchynu gan Nell's Point i'r chwith a Friar's Point i'r dde, yn 1981. Mae'r gwerysll gwyliau yn gorchuddio Nell's Point yn gyfan gwbl bron (Llywodraeth Cymru 8101 J. A. Story & Partners 2181 fframiau 88 a 89, 30 Gorffennaf 1981, © haulfrait Cyngor Bro Morgannwg).*



ni chafodd ei ddatblygu'n llawn tan i'r gwerysll gwyliau gael ei adeiladu yn y 1960au. Cyn hyn, roedd ei safle uchel yn golygu ei fod yn lleoliad delfrydol ar gyfer gorsaf gwylwyr y glannau, gorsaf rybuddio a garsiwn.

Cyn 1884, roedd yr ynys wedi'i gwahanu oddi wrth y tir mawr gan Swnt y Barri, a luniodd foryd afon Tregatwg ac a oedd yn cwrdd â Môr Hafren rhwng pentiroedd Cold Knap a Friars Point. Ymddengys bod dau bwynt mynediad ar ddistyll: rhwng Storehouse Point yn y Barry a Bae Austry, ac o'r Sili. Er mwyn cerdded o'r Sili, ymddengys y byddai angen croesi tywod a mwd at hen ody galch ar lan ochr ogleddol yr ynys, lle'r oedd llwybr yn arwain i fyny allt, ar hyd gwrych, at Fferm Ynys y Barri.

Roedd sawl cae wedi'u hamgáu ar y llechweddau oedd â systemau draenio gwell ar ochr ogleddol a dwyreiniol yr ynys. Rhwng y ffermdir a'r rhostir a'r twyni a oedd yn ffinio â Bae Whitmore roedd Leech Pool isel o ddŵr croyw. Rhedai llwybr i'r de o'r pwll o Fae Austry i'r fferm, yn gyfochrog â ffordd fodern Plymouth Road. Fe'i dinistriwyd pan ddatblygwyd y rheilffordd yn 1896. Cafodd Plymouth Road ei nodi ar ôl 1894 i'r gogledd o'r pwll.

Ar ôl ei ddraenio, byddai llawer o'r tir hwn yn datblygu i fod yn Barc Maslin yn y pen draw.

Caiff y gwrthgyferbyniad hanesyddol hwn rhwng ffermdir a thir pori garw cysylltiedig i'r gogledd a'r rhostir, prysgwydd a'r twyni ar ochr dde yr ynys ei adlewyrchu i raddau helaeth gan y gwrthgyferbyniad rhwng y strydoedd preswyl hŷn ac ardal y gyrchfan glan môr.

Roedd y fferm yn un o ddau adeilad cynddiwydiannol ar yr ynys. Collwyd ei safle, ger Gwesty'r Marine (adeiladwyd yn 1893, sef Ger y Môr bellach), pan ymrwyd y rheilffordd drwy'r llechwedd er mwyn cyrraedd y Pier Head yn 1899. Y llall oedd Gwesty cyntaf y Marine, a adeiladwyd yn 1858 ar gyfer Francis Crawshay. Friars Point House yw ei enw bellach, ac arferai wasanaethu ymwelwyr a groesai ar y distyll o Westy'r Ship yn Storehouse Point, neu, ar ôl 1876, a ddaeth o'r môr mewn cwch pleser a laniai ger Pier Trehame (gweler t. 10).

## Ail-lunio Ynys y Barri

Roedd y gwaith o lunio Doc Rhif 1 (1884–89) yn cynnwys newidiadau sylweddol i dopograffi'r ynys. Rhwng Bae Austry a'r tir uchel i'r gogledd o'r fferm, crëwyd clogwynlun newydd dramatig pan dorwyd y draethlin wreiddiol yn ôl er mwyn gwneud lle i lan cei deheuol y doc newydd.

Cafodd Bae Austry ei adfer o'r môr er mwyn creu lle i gilffyrdd rheilffordd, gan ledu'r cyfyngdir



*Edrych o ochr ogleddol y doc tuag at glogwyni'r ynys, a grëwyd pan dorwyd y llechwedd yn ôl i wneud lle i gei deheuol y dociau newydd. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

rhwng Ynys Fach a'r traeth. Creodd hyn hefyd dir gwastad a ddefnyddiwyd yn ddiweddarach ar gyfer tref newydd y Barri gyda chae criced a chlwb tennis. Mae'r hen draethlin wedi'i ymgaregu ar ffin gefn lleiniau Paget Road, sy'n dilyn ymyl grom y bae coll.

I'r dwyrain, cafodd Redbrink Point ei gwtogi er mwyn gwneud lle i fynedfa'r doc a chafodd Bae Jackson ei greu drwy adeiladu'r morglawdd gorllewinol ger mynedfa'r doc. Island Road oedd y brif fynedfa o'r tir mawr


i'r ynys dros dro. Hyd at 1905, rhedai o Broad Street drwy'r twnnel ac islaw'r clogwyn gorllewinol newydd i gyraedd pen dwyreiniol hen Fae Austri. Pan adeiladwyd y rheilffordd (1896) a'r sarn (Harbour Road 1897), sicrhawyd gwell mynediad ac, ar yr un pryd, amgaewyd y West Pond newydd. Yn ystod y broses, datblygodd yr Hen Harbwr ei siâp modern. Parhaodd y pwll yn ddŵr agored hyd at y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a chynhaliodd ymdeimlad o fod ar wahân i'r tir mawr ac Ynys y Barri.

*Dde: Mae'r sarn a adeiladwyd yn 1897 o'r tir mawr i Ynys y Bari yn cludo'r prif fynediad ffordd ar hyd y rheilffordd a adeiladwyd flwyddyn yn gynt yn 1896. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Isod: Roedd West Pond, a ddangosir yma uwchlaw'r sarn, dal yn ddiŵr agored tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW029395).*





## Strydlun

Yng nghanol y 1890au, roedd ystâd Windsor yn cynnwys patrwm o strydoedd i gefnogi datblygiad yr ynys. Roedd y broses drefoli yn gyflym ac roedd y cam cyntaf wedi'i gwblhau erbyn 1900. Dyluniwyd y cynllun i fanteisio ar fryniau tonnog yr ynys, a chreu cysylltiad agos rhwng y tir a fwriadwyd ar gyfer tai a glan y môr. Lluniodd y tirffurf drefn drefol gref. Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad i'r tir mawr, ymddengys nad oes llawer o gydberthynas rhwng patrwm caeau cyntefig yr ynys a'r ffordd y gosodwyd ei strydoedd.

Mabwysiadwyd siâp cymharol gylchol ar gyfer patrwm strydoedd yr ynys. Roedd cylch allanol o strydoedd yn cysylltu glan y môr a thai newydd yr ynys, a ddiffiniwyd gan Paget Road, Clive Road, Redbrink Crescent a Friars Road. Rhannwyd y cynllun hwn gan Plymouth Road a'r rheilffordd, a oedd, o 1896, yn nodi'r rhaniad sylfaenol o'r defnydd o dir rhwng cartrefi a adeiladwyd ar y tir a godai i ogledd a dwyrain yr ynys a glan y môr, a warchodwyd gan y ddau bentir ac a oedd yng nghysgod Spion Kop, i'r dwyrain o'r orsaf.<sup>30</sup> Felly, atgyfnerthodd y gwaith adeiladu rheilffyrdd y broses o wahanu tirweddau a defnydd tir, a'r ymdeimlad o raniad rhwng cymuned yr ynys a'r miloedd lawer a ddaethai i ymweld bob haf. Agorodd yr ynys ar gyfer twristiaeth ar raddfa fawr gan ysgogi'r broses o ddatblygu'r gyrchfan glan môr cyn y Rhyfel Byd Cyntaf o amgylch Bae Whitmore. Roedd Paget Road, rhan isaf Friars Road a Station Approach yn amgylchynu dam o dir hirgrwn lle y datblygwyd y ffair.

Gosodwyd tai i'r dosbarth gweithiol ar hyd cefnfen a llethr ogleddol y bryn siâp cefn morfil a edrychai dros y dociau. Mewn gwrthgyferbyniad, gosodwyd Plymouth Road ar hyd y codiad i'r dwyrain o Leech Pool, gyda'i thai wedi'u lleoli i fanteisio ar olygfeydd gwell tuag at Friars Point a'r Hen Harbwr. Mae Redbrink Crescent a Friars Road yn edrych oddi wrth y dociau a thros Fôr Hafren. Mae'n debyg ei bod yn rhesymol tybio bod Forrest Drive, sy'n croesi Nell's Point, hefyd wedi'i bwriadu ar gyfer datblygiadau tai o ansawdd da. Fodd bynnag, daeth hyn i ben yn gyflym pan werthwyd tir ar frig y penrhyn ar gyfer garsiwn a magnelfa i ddiogelu'r dociau (1897).<sup>31</sup>

Ar ochr ogleddol yr ynys, gosodwyd Bromfield Road, Archer Road ac Ivor Street fel strydoedd croes, a greodd grid syml. Mae golygfeydd i'r gogledd a'r de o'r ffyrdd ond, o'r tir mawr, maent yn ymddangos fel bylchau yn y llinell adeiladu.

Roedd cynllun cynnar Clive Road, Phyllis Street ac Amherst Crescent yn sail i dai teras cynnar ar y strydoedd hyn, yn ogystal â thai cyhoeddus cyn y rhyfel ar Austrey Hill. Yn wreiddiol, roedd y tir hwn yn cynnwys rhandiroedd y ceid mynediad iddynt ar hyd llwybrau a adlewyrchwyd gan gynllun y strydoedd. Fel rhan o'r gwaith datblygu ar ddechrau'r 1950au, cadwyd y cynllun i raddau helaeth, er bod Clive Road a Phyllis Street yn gwyro tua'r de y tu hwnt i Bromfield Road er mwyn cynnwys lleiniau tai pâr newydd. Cafodd McQuade Place ei gynnwys ar hyd llinell y lôn a wahanai Phyllis Street ac Amherst Crescent.

*Mae'r panorama hwn, a luniwyd yn 1901 ar gyfer y Barry Railway Company, yn dangos y dociau a'r rheilffyrdd, yn ogystal â'r patrwm strydoedd a osodwyd gan ystâd Windsor erbyn 1900 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*

Torrodd y gwaith o adeiladu'r gwersyll gwyliau yn 1964–66 gylch allanol gwreiddiol y strydoedd, gan dorri Friars Road yn ei hanner wrth iddi groesi cyfyngdir Nell's Point.

## Nodweddion Tirwedd

Er gwaethaf y broses o drefoli morlin y Barri a'r ynys ei hun, erys nodweddion naturiol ac artiffisial yn y dirwedd arfordirol o hyd sy'n dylanwadu ar y cymeriad lleol. Maent yn cynnig lleoliad trawiadol ar gyfer datblygiadau preswyl a chyrchfan gwyliau. Ceir nodweddion lled naturiol hefyd — er enghraifft, y man agored adferedig ar bentir Nell's Point — sydd â gwerth gwledol ac amwynder sylweddol iddo, yn ogystal â chyfrannu at fioamrywiaeth.

## Pentiroedd

Mae Nell's Point a Friars Point yn bentiroedd amlwg sy'n cynnwys Calchfaen Carbonifferaidd yn bennaf. Gyda'i gilydd, maent yn amgylchynu traethau Bae Whitmore. Mae Friars Point yn edrych ar draws yr Hen Harbwr at Cold Knap Point, pentir calchfaen arall, ac mae wyneb dwyreiniol Nell's Point yn edrych dros Fae Jackson a mynedfa'r doc, gyda golygfeydd pellach tuag at y Sili.

Glaswelltir agored yw Friars Point yn bennaf. Mae'n nodedig am ei nodweddion archaeolegol a'i ffurf ddaeaegol, ac mae'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Ynys y Barri. Mae Nell's Point yn uwch ac edrychai'n agored i raddau helaeth hyd at y cyfnod pan ddatblygwyd y gwersyll gwyliau yn 1964–66. Pan gaewyd y gwersyll yn 1996, cafodd y safle ei glirio; adferwyd y tir agored a'i roi at ddefnydd cymunedol mewn cysylltiad â datblygiadau tai diweddar.

## Yr Hen Harbwr

Arferai ardal yr Hen Harbwr, rhwng Cold Knap a'r ynys, ffurfio aber afon Tregatwg. Creodd argae rhwng y tir mawr a'r ynys y doc cyntaf, roedd Island Road yn cysylltu'r ddau. Parhaodd yr hen foryd ar agor nes yr adeiladwyd y sam a chau West Pond (1897). Mae cychod wedi'u hangori yn yr harbwr o hyd a, nawr ac yn y man, bydd llong fwy yn cael ei chlymu yn York Breakwater sy'n dyddio o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ond mae ardal y forfa rynglanwol yn tyfu. Mae ochr ogleddol yr harbwr wedi'i nodweddu gan glogwyni a Parade Gardens. Mae tŵr gwyllo a gorsaf rocedi a adeiladwyd yn y 1860au yn wynebu York Breakwater ar draws yr harbwr a cheir traeth bach islaw Cold Knap Point. Mae'r amrywiaeth eang o lanwau yn golygu bod traethau helaeth yn ymddangos rhwng yr ynys a Cold Knap pan fydd y llanw'n cilio.



*Friars Point yn edrych tuag at Cold Knap Point. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





*Chwith: Yr Hen Harbur yn edrych tuag at York Breakwater a Cold Knap Point. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Isod: Y tŷr gwyllo a'r traeth caregog bach islaw Cold Knap Point, yn edrych tuag at yr ynys ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



Y tu hwnt i'r traeth bach yn Cold Knap Point, ceir llyn cychod a gerddi. Mae'r hen bwll nofio, a agorwyd yn 1927 fel rhan o'r gwaith ehangach o ddatblygu'r gyrchfan glan môr a oedd yn cynnwys creu promenâd yr ynys, wedi'i lenwi a'i orchuddio â glaswellt.

Cyn adeiladu'r dociau, roedd porthladd bach yn Storehouse Point ger Gwesty'r Ship. Mae cofnodion o longau yn teithio ar hyd yr arfordir o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ymlaen. Mae olion warws cynddiwydiannol a warchodwyd wrth gyffordd y sam a Parade Gardens yn ein hatgoffa o'r dirwedd gynharach hon.

Adferodd datblygiad y dociau dir ym Mae Austry, a ddiffiniodd gyfyngdir cul Ynys Fach ar ei hochr tua'r tir. Llanwyd yr ardal hon ar gyfer cilffyrdd rheilffordd. Tyfodd coetir fel cefnlen ar gyfer Friars Point House, sydd bellach yn nodwedd weledol gref o Ynys Fach a welir o'r tir mawr mewn cyferbyniad â llymder Friars Point. Mae'r cae criced a'r cyrtiau tennis, a sefydlwyd yma ar ôl 1905, hefyd yn fannau gwyrdd pwysig.

### West Pond a South Quay

---

Roedd West Pond yn ddŵr agored hyd at y cyfnod ar ôl 1945 ac ategodd yr ymdeimlad bod Ynys y Barri ar wahân i'r tir mawr. Cafodd yr ardal ei draenio a'i defnyddio ar gyfer cilffyrdd a gweithgarwch diwydiannol ysgafn, ac mae bellach wrthi'n cael ei datblygu (mis Medi 2016)

ar gyfer tai, manwerthu a hamdden, a mynediad ffordd newydd i'r ynys. Saif y Cei Deheuol islaw'r clogwyni a grëwyd o lethrau gogleddol yr ynys yn y 1880au. Cei glo ydoedd yn wreiddiol, ac fe'i defnyddiwyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd fel lleoliad tanciau storio cemegion. Mae'r rhain wedi'u clirio ar gyfer cynllun tai y Cei Deheuol a'r Cei Dwyreiniol, sy'n ymestyn o Austry Hill i Battery Hill (Dock Road).

### Clive Road Cliffs

---

Caiff amlinelliad gogleddol yr ynys, fel y'i gwelir o'r dref, ei nodweddu gan y clogwyni islaw Clive Road. Crëwyd y rhain yn y 1880au i wneud lle i lan y cei deheuol a'r morglawdd yn Noc Rhif 1. Ar ben y clogwyni, ceir terasau i'r dwyrain a'r canol, a thai cyhoeddus o gyfnod ar ôl y rhyfel ar fryncyn Austry Hill. Mae'n debyg i galchfaen a chwarelwyd yma gael ei ddefnyddio wrth adeiladu'r dociau a'r tai diwydiannol cynnar a adeiladwyd gan Gwmni Ystâd y Barri i'r gogledd o Broad Street ar y tir mawr.<sup>32</sup> Mae'r clogwyni wedi tyfu'n wyllt i raddau helaeth bellach.

### Redbrink Point a Bae Jackson

---

Cafodd Redbrink Point ei ail-lunio hefyd fel rhan o'r cam cyntaf o ailddatblygu'r doc. Erys yn nodwedd amlwg yn y golygfeydd o'r ynys o'r gogledd, y dwyrain a'r môr, oherwydd ei nodweddion naturiol sydd wedi goroesi a'i dai amlwg o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd ac



*Bae Jackson islaw tai amlwg ar Redbrink Crescent. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Edwardaidd. Adeiladwyd rhai o dai mwyaf mawreddog yr ynys yma. Crëwyd Bae Jackson pan adeiladwyd y morglawdd sy'n ffurfio ffin de-ddwyreiniol mynedfa'r doc. Mae'r gwyrddni ar ben y clogwyn ac uwchlaw Nell's Point yn cynnwys cymysgedd o ordyfiant a rhandiroedd sydd wedi goroesi — yn atgof o'r adegau pan arferwyd trin y rhan fwyaf o dir agored ar yr ynys fel hyn.

Mae'r traeth tywodlyd cysgodol ym mae Jackson yn cyferbynnu ag ehangder agored Bae Whitmore.

### Bae Whitmore

Denodd Bae Whitmore, 750 metr (bron i hanner milltir) rhwng ei ddau bentir, ymdrochwyr Fictoraidd cyn i'r dociau gael eu hadeiladu a dyna'r rheswm dros ddatblygu twristiaeth ar raddfa fawr yn y 1890au ac ar ôl hynny. Roedd y bae yn dywodlyd ac yn cynnwys dŵr bas, felly gellid padlo a nofio yn ddiogel yno, hyd yn oed os oedd yn oer, ac ychwanegwyd at apêl y bae gan amrediad llanw uchel Môr Hafren a'r ffaith ei fod yn agored i'r môr a'r awyr. Yn wreiddiol, roedd twyni yn gefnlen i bromenâd pleser Edwardaidd, ond cafodd ei ddisodli gan forglawdd, promenâd



a chysgodfannau a adeiladwyd yn y 1920au. Caiff y golygfeydd o'r traeth eu domineiddio gan y nodweddion hyn a'u gerddi cysylltiedig yn erbyn cefnlen o adeiladau pwysig — Merrie Friars, Paget Road ac Adeiladau'r Esplanade — gyda chipolwg ar y ffair y tu hwnt.

Caiff y bae ei amgylchynu gan Friars Point glaswelltog ac annatblygedig i'r gorllewin. I'r dwyrain, y brif nodwedd yw Nell's Point, sy'n uwch ac yn lled agored tua'r môr a'r traeth gan ddilyn ardal agored y gwersyll gwyliau.

*Mae rhandiroedd yn edrych dros Harbur y Barri yn ein hatgoffa mai dyna sut yr arferid trin y rhan fwyaf o dir agored. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Friars Point yn edrych tuag at Fae Whitmore (© Haulfrait y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Gerddi'r promenâd ar Ynys y Barri, a adeiladwyd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r gyrchfan wyliau rhwng y ddau ryfel (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

## Promenade Gardens

Gosodwyd gerddi'r promenâd yn y 1920au fel un o brif nodweddion y gyrchfan wyliau. Gwnaethant ddisodli'r promenâd pleser a adeiladwyd uwchlaw'r traeth gan ystâd Windsor. Arferai twyni a rhostir fod yn gefnlen i'r traeth. Collwyd ardal sylweddol o erddi'r promenâd, a oedd yn cynnwys y Dingle, y caffi a rhwydwaith o risiau a llwybrau yn cysylltu pen dwyreiniol y promenâd â Forrest Drive, pan adeiladwyd y gwerysll gwyliau.

## Spion Kop

Mae'r Spion Kop (a enwyd ar ôl brwydr yn Rhyfel De Affrica yn 1900) yn un o'r nodweddion yn y dirwedd gynddiwydiannol sydd wedi goroesi'n rhannol. Rhostir tywodlyd ydoedd uwchlaw'r ffair ac roedd yn amlwg yn y golygfeydd o'r tir mawr. Fe'i defnyddiwyd yn rhannol fel maes parcio cyn 1964, a chafodd ei gynnwys yn y gwerysll gwyliau drwy adeiladu cabanau gwyliau arno. Cafodd ei ailddatblygu'n rhannol ar gyfer tai ar ôl 1996. Cafodd rhan orllewinol y safle ei marchnata ym mis Gorffennaf 2015 fel ardal a fyddai'n addas ar gyfer gwesty, canolfan hamdden, neu barc difyrrwch.

## Parc Maslin

Mae Parc Maslin modern wedi'i leoli yn yr ardal a elwid yn Leech Pool gynt, a oedd ar dir isel, gyda system ddraenio wael i'r dwyrain o Fae Austry. Ar ôl iddi gael ei draenio, crëwyd y parc ar y rhan ddwyreiniol, a ddefnyddiwyd fel cae pêl-droed yn bennaf. Yn agosach at Paget Road, defnyddiwyd y tir fel maes carafannau a maes parcio. Roedd sawl adeilad yn wynebu'r ffordd, yn cynnwys ffatri hufen iâ a hen Glwb yr Hen Harbwr. Mae'r safle bellach wedi'i glirio a'i dirlunio fel rhan o'r parc.

## Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Ynys y Barri

Mae'r nodweddion daearegol, a arweiniodd at ddynodi'r statws SoDdGA, yn cynnwys diddordeb gweledol cryf yn ogystal â phwysigrwydd gwyddonol unigryw. Mae'r safle'n cwmpasu Friars Point ac Ynys Fach, ynghyd â'r clogwyni a'r creigiau sy'n amgylchynu Nell's Point ac yn ymestyn i Fae Jackson. Mae'n bwysig gan fod creigiau o'r cyfnod Triasig wedi goroesi yno a ffurfiwyd 205–290 miliwn o flynyddoedd yn ôl fel llyn, basn anial a thraeth. Maent yn gorwedd



*Strata serth y Calchfaen Carbonifferaidd o dan ddyddodion Triasig llorweddol ar Friars Point (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw)*

ar ben strata Calchfaen Carbonifferaidd sy'n 350 miliwn o flynyddoedd oed. Mae'r dyddodion rhyngol o'r cyfnod Triasig Carbonifferaidd Uwch, Permaidd ac Isaf a Chanol wedi erydu i ffwrdd. Mae'r safle yn galluogi daearegwyr i amlinellu lleoliad y morlin Triasig. Ceir bodolaeth anghydfurfedd onglog — yn torri'r cofnod dyddodi — sy'n dangos dyddodion Triasig mewn cydberthynas unigryw â'r calchfaen. Mae'r strata calchfaen yn goleddfu'n serth tua'r de. Mae'r creigiau llorweddol sy'n eu gorchuddio yn cynrychioli terasau a dorwyd i lan y llyn sy'n gorchuddio'r calchfaen. Mae hon yn ardal glasurrol ar gyfer astudiaethau daearegol a dylai'r ffaith y dynodwyd statws SoDdGA iddi sicrhau y caiff ei gwarchod a'i rheoli'n ofalus.<sup>33</sup>

## Golygfeydd a Phanoramâu

Gellir gweld Cold Knap Point neu'r traethau ym Mae Whitmore a Bae Jackson o'r traethau llanwol yn yr Hen Harbwr, ac mae'r ffurf ddaearegol yn cyfoethogi'r golygfeydd o ddau bentir yr ynys. Mae'r golygfeydd tuag at yr ynys yn cyfrannu at gymeriad, cymaint â'r golygfeydd o fannau gwahanol ar yr ynys ei hun.

### Tuag at Ynys y Barri

Mae'r golygfeydd tuag at yr ynys yn agweddau pwysig ar dreflun y Barri. Mae'r olygfa o'r ynys a'r ardal o'i hamgylch o'r awyr hyd yn oed yn fwy dramatig — gellir gweld hyn yn amlach heddiw oherwydd llwybr glanio Maes Awyr Caerdydd, sy'n ymestyn uwchlaw Bae Porthceri ac yn cynnig


panorama o'r ynys, y dociau a'r dref o'r gorllewin.

Gan fod y rhan helaeth o'r dref wedi'i hadeiladu ar fryn, ceir golygfeydd trawiadol o'r ynys o nifer o wylfannau. O'r wylfan orau, gellir gweld amlinelliad gogleddol yr ynys yn glir, ond ceir golygfeydd hefyd tuag at Nell's Point, Friars Point a'r môr y tu hwnt.

Mae'r ynys yn dominyddu glan y môr y Barri. Mae'r clogynlun artiffisial sy'n codi at Clive Road a Redbrink Point yn un o nodweddion allweddol y golygfeydd tua'r de o ardal Doc Rhif 1 a ailddatblygwyd.

Mae'r golygfeydd o'r Parade a Cold Knap yn edrych dros y traethau llanwol a chors yr Hen Harbwr tuag at Ynys Fach a Friars Point. O'r Parade (ac o'r ffordd ddynesu dros y sarn i'r ynys), mae'r golygfeydd yn cynnwys maes parcio, coetir a chefn yr adeiladau ar hyd Paget Road a Friars Road.

*Yr olygfa nodedig o'r glogwynlun islaw Clive Road o'r dociau. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





*Uchod: Mae'r porth i Cosy Corner y brodyr White yn nodwedd mynedfa o hyd wrth gyrraedd yr ynys, y paentiwyd dros yr enw erbyn hyn. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Dde: Y nodwedd mynedfa yn 1990 (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

## Pyrth

Y rheilffordd (1896) a sam Harbour Road (1897) sy'n cysylltu Ynys y Barri â'r tir mawr. P'un a fyddant yn cyrraedd ar droed, mewn car, bws neu ar drên, bydd gan yr ymwelwyr olygfeydd ar draws yr Hen Harbwr a Doc Rhif 1. Ceir ymdeimlad penodol o gyrraedd wrth deithio tuag at yr ynys. I'r dwyrain, mae Austy Hill yn edrych dros y rheilffordd. I'r gorllewin, mae glan ddeheuol yr ynys yn denu'r llygad tuag at York Breakwater a cheg yr harbwr, a'r maes parcio gyda choetir dwys yn gefnlen iddo.

Mae'r cae criced yn meddalau cefn Paget Road, sy'n rhwystro'r golygfeydd tuag at y traeth. Ceir 'nodwedd mynedfa' hwyliog o ganol y 1990au ar ben y sam ac mae olion ffair y brodyr White (Cosy Corner) wedi goroesi mewn porth 'gorchest' a phum obelisk sy'n nodi ffin y safle, sy'n dyddio o ddiwedd y 1920au ac sy'n adlewyrchu'r gystadleuaeth rhwng perchenogion y ffair. Wrth ddynesu at y ffair fodern, ers i'r Log Flume gael ei glirio, y strwythur amlycaf yw cefn trawiadol Adeiladau'r Esplanade. Yn y pellter canol, mae'r tai oddi ar Breaksea Drive ac ar Nell's Point yn gefnlen i'r gyrchfan wyliau. Arferai twyni a rhostir



*Yr olygfa o Dyfrig Street tuag at y dociau. Mae safle Rank Hovis Atlantic Mills, yn y pellter, wedi'i ddymchwel ers hynny. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

y Spion Kop roi cyd-destun i'r ffair, ond cawsant eu disodli gan bafliynau blaen y gweryll gwyliau. Mae'r rhain wedi'u clirio bellach hefyd ac yn 2016 mae'r safle'n aros i gael ei ailddatblygu.

Mae llwybr cerdded o'r tir mawr i'r ynys yn rhedeg o Clive Road ar draws y doc. Mae grisiau a phont droed fetel yn arwain ar draws y Cei Gogleddol ac mae'r llwybr yn mynd heibio'r morglawdd i ymuno â Ffordd y Mileniwm. Wrth adael yr ynys, bydd gan y rhai sy'n croesi'r bont olygfeydd dros y dociau a thuag at y dref; wrth gyrraedd, ceir golygfeydd o amlinelliad gogleddol yr ynys a'r clogwyni sydd wedi tyfu'n wyllt, sydd wedi'u torri'n ôl i gynnwys y dociau, wrth iddynt godi tuag at Clive Road.

## O Ynys y Barri

Mae'r drafodaeth o bob ardal â nodweddion yn dangos yr agwedd hon ar nodweddion yn ddyfnach. Fodd bynnag, yn fyr, mae tirwedd a chynllun strydoedd yr ynys yn golygu bod golygfannau da allan tuag at y tir mawr, yr harbwr a'r arfordir o wylfannau amrywiol sy'n wynebu'r dwyrain, y gorllewin a'r gogledd. Mae gan rai tai newydd ar Nell's Point olygfeydd ar draws

Môr Hafren tuag at y Sili a thros Fae Whitmore. Fodd bynnag, mae golygfeydd eraill dros y gyrchfan wyliau neu tuag at y dref wedi'u rhwystro naill ai oherwydd dyluniad ffyrdd pengaead neu waith ffensio. Mae gan y strydlun cynharach gysylltiad mwy naturiol â thirwedd yr ynys, gan roi golygfeydd o'r treflun a'r morlun o amgylch.

*Mae gwaith ffensio o amgylch tai ar Nell's Point yn rhwystro rhai o'r golygfeydd tuag allan. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



# Hanes Adeiladu

## Datblygiadau Preswyl Cynnar

Mae'r diwygiad cyntaf o fapiau'r Arolwg Ordnans a gyhoeddwyd yn 1900, ond a arolygwyd yn 1898, yn dangos bod pob un o brif elfennau ffurf drefol yr ynys wedi'u sefydlu erbyn y dyddiad



*Uchod: Rhan o'r tai teras ar Phyllis Street a adeiladwyd erbyn 1900. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

hwn — er nad adeiladwyd yr holl strydoedd a osodwyd gan ystâd Windsor tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Tanlinellodd yr ystâd ei phwysigrwydd drwy sicrhau bod gan y rhan fwyaf o enwau'r strydoedd gysylltiadau â'r teulu Windsor-Clive.

I'r gogledd o'r rheilffordd, roedd yr holl strydoedd modern wedi'u gosod. Yn y 1890au, gwelwyd tai o wahanol safonau'n cael eu darparu ar gyfer cymuned yr oedd ei bywoliaeth, mewn ffyrdd gwahanol, yn adlewyrchu economi'r pyllau glo, y dociau a'r rheilffyrdd.

Adeiladwyd Clive Road mor bell â'i chyffordd â Bromfield Road, yn gyflawn o ran hyd heblaw am fwch yn llinell yr adeiladau rhwng rhifau 3 a 12. Adeiladwyd tai ar ochrau gogleddol a deheuol Amherst Crescent, a datblygwyd Phyllis Street i'w maint llawnaf cyn 1939. Roedd ochr orllewinol Ivor Street yn rhannol gyflawn ac roedd y teras mawr â ffenestri bae ar Plymouth Road wedi'i adeiladu. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu Dyfrig Street a Redbrink Crescent. Mae hen Westy'r Marine (Ger y Môr bellach), gerllaw'r siopau yn The Triangle a Battery Hill (Dock Road), yn dyddio o 1893.



*Dde: Plymouth Road a Gwesty'r Marine, a adeiladwyd yn 1893, yn 1900 (Cerdyn post Frith yng Nghasgliad Matthew Griffiths).*



Cwblhawyd Clive Road rhwng 1900 a 1914 pan adeiladwyd rhifau 4–11 ac 86–87 (yr unig estyniad cynnar ar ochr orllewinol y gyffordd â Bromfield Road). Ychwanegwyd ysgoldy ar ochr ogleddol Amherst Crescent ac adeiladwyd filâu pâr sylweddol ar hyd Redbrink Crescent a Friars Road. Mae'r gydberthynas â chanlyniadau cyfrifiad 1911 yn dangos bod y tai ychwanegol hyn yn bodoli eisoes. Roedd dau dŷ ar 'Other Road',<sup>34</sup> ger eglwys Bresbyteriaid newydd, ac roedd Clive Place wedi'i chwblhau. Roedd pedwar tŷ pâr wedi'u hadeiladu ar Dyfrig Street (ac mae darlun syrfêwr bwrdeistref o 1907 yn dangos bod mwy wedi'u cynllunio).<sup>35</sup> Roedd Ivor Street yn anghyflawn o hyd gyda bylchau ar bob ochr a lanwyd yn y 1920au.



Mae'r dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ar gyfer 1901 a 1911 yn dangos sut roedd y mathau o dai yn adlewyrchu'r haenau cymdeithasol yn y gymuned newydd hon. Adlewyrchwyd rhaniadau cymdeithasol yng ngwahaniad y dosbarthiadau, yn nodweddion y strydoedd a dyluniad a manylion yr adeiladau.

Ar Clive Road a Phyllis Street, roedd y mwyafrif o'r aelwydydd yn ddosbarth gweithiol. Roedd y galwedigaethau'n gysylltiedig â swyddi yn y dociau, y rheilffyrdd neu ar y môr yn bennaf. Ymysg yr enghreifftiau o alwedigaethau ymysg dynion roedd dynion pen y domen lo, labrwyd yn y dociau, ysgraffwyr, tanwyr a gyrwyr injans. Roedd sawl aelwyd yn fawr, gyda hyd at 13 o bobl yn bresennol ar noson y cyfrifiad yn 1901. Yn aml, byddai teuluoedd yn derbyn lletywyr.

Adeiladwyd y tai teras mwy ar Plymouth Road ar gyfer pobl yr oedd eu galwedigaethau'n cynnwys peilot llong, pregethwr ac asiant llongau. Ymysg y siopau roedd siop cogydd, brethynwyr a thŷ coffi.

Cododd y statws cymdeithasol wrth i'r strydoedd droi oddi wrth y dociau i wynebu'r môr. Gellir gwahaniaethu rhwng pen gorllewinol Redbrink Crescent â'r tai mwy mawreddog a edrychai dros y fynedfa i'r doc. Yn agosach at Westy'r Marine, roedd y galwedigaethau'n cynnwys gwneuthurwyr boeleri, dynion pen y domen glo a dynion tai golchi. Yn 1901, roedd y tai mawr o rifau 20 ymlaen yn gartrefi i beilotiaid a llongfeistri, adeiladwr a rheolwr gwaith. Roedd perchennog pwll glo yn byw yn rhif 62 gyda'i wraig a oedd yn gyfrifydd.

*Uchod: Tai ar Dyfrig Street, a oedd yn gyflawn i raddau helaeth cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*20–30 Redbrink Crescent yn 1907 (Casgliad Matthew Griffiths).*

Erbyn 1911, gwelwyd defnydd tir modern yn datblygu. Lleolwyd amwynderau i ymwelwyr yn agos at y traeth, ac eithrio Gwesty'r Marine, y mae'n rhaid ei fod yn denu gwesteion masnachol a rhai a oedd yn gysylltiedig â'r dociau. Roedd gan ogledd a gogledd-ddwyrain yr ynys nodweddion preswyl ac roedd yno siopau a oedd yn darparu gwasanaethau lleol ar Plymouth Road, Ivor Street a The Triangle. Adlewyrchir datblygiad Paget Road yn y pedair aelwyd lle cafwyd 'perchenogion bwytaï', gydag un ohonynt yn cadw bwyty Dorothy.

Roedd angen cyfleusterau addysgol ac addoldai ar y gymuned newydd. Ymysg yr adeiladau sydd wedi goroesi o'r cyfnod hwn mae Ysgol Gynradd Ynys y Barri, capeli Presbyteriaidd a Methodistaidd, ac Eglwys Anglicanaidd bresennol Sant Baruc, sef merch Eglwys yr Holl Saint ar y tir mawr.

*Mae'r olygfa hon o'r awyr yn 1929 yn dangos y cynllun preswylio cynnar a oedd yn gyflawn fwy neu lai (© Haulfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW029457).*

## Datblygiadau Preswyl Modern

Erbyn 1914, roedd cam cyntaf y datblygiadau preswyl yn gyflawn i bob pwrpas. Er bod ystâd

Windsor wedi dylunio'r patrwm strydoedd yn y 1890au fel rhan o gynllun datblygu trefol a chyrchfan wyliau gynlluniedig, roedd llawer o dir heb ei ddatblygu tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Yn benodol, datblygwyd rhan orllewinol Austy Hill, a ddefnyddiwyd ar gyfer rhandiroedd, ar gyfer tai cyhoeddus ar ôl 1945. Roedd hon yn adeg pan roedd problem dai ddifrifol yn y dref ac roedd sgwatwyr wedi meddiannu gwersylloedd y fyddin yn Nell's Point a'r Buttrills ar y tir mawr. Y datblygiad hwn oedd yr ychwanegiad mawr mwyaf i'r stoc o dai cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar ddiwedd y 1960au, adeiladwyd tai pâr preifat ar ochr ddeheuol Redbrink Crescent. Ddegawd yn ddiweddarach yn y 1970au, llanwyd y tir rhandiroedd wrth gefn Redbrink Crescent â rhagor o dai cyhoeddus yn Earl Crescent a Marquis Close.

Mae'r elfennau olaf yn y treflun preswyl modern yn rhai diweddar iawn a ddatblygodd ar ôl cau'r gwersyll gwyliau. Rhwng 1996 a 2003, gwelwyd datblygiadau preifat sylweddol oddi ar Breaksea Drive a Friars Road ar dir a gliriwyd o strwythurau'r gwersyll gwyliau. Cafodd rhan fawr o Nell's Point ei thirlunio a'i hadfer fel pentir agored.



## Adeiladu'r Gyrcfan Wyliau

Mae sawl cam i hanes adeiladu'r gyrcfan wyliau. Er y cafwyd ymgais gynnar gan ystâd Windsor (Plymouth yn ddiweddarach), a Chyngor Dosbarth Trefol y Barri wedi hynny, i fanteisio ar botensial yr ynys i ddenu ymwelwyr dydd a oedd yn teithio yno ar y rheilffordd, y cyfnodau allweddol ar gyfer datblygu oedd y 1920au, pan adeiladwyd y promenâd a'i strwythurau cysylltiedig, a'r 1960au, pan adeiladwyd y gwersyll gwyliau ar Nell's Point. Cwblhawyd rhaglen fawr i adfer a diweddarau'r promenâd dwyreiniol a'i hailuno â Nell's Point yn 2015.

Mae hanes y gyrcfan wyliau gynnar (tt. 18–20) yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer datblygiad ffisegol glannau'r ynys. Cyn y rheilffordd a'r sam (1896 ac 1897), ni welwyd llawer o ddatblygiadau. Er enghraifft, mae darlun ar un o gardiau post Francis Frith o 1899 yn dangos Pier Treharne a oedd wedi dirywio a mynedfa ar esgynfa o lefel y traeth i ymyl gogledd-orllewinol Friars Point — y mae'r ail yn dal i fodoli heddiw — ond sydd fel

arall yn awgrymu nad yw'r naws wedi newid rhyw lawer ers cyn 1884.

Fodd bynnag, erbyn 1891, roedd Bae Whitmore yn frith o beiriannau ymdrochi ac, yn ystod yr un flwyddyn, adeiladwyd ystafelloedd lluniaeth ar ben gorllewinol Friars Road.<sup>36</sup> Adeiladwyd ystafelloedd newid i ddynion a merched ar bennau croes y traeth erbyn 1905. Mae cerdyn post o'r cyfnod cyn 1914 yn dangos y fynedfa ar esgynfa o'r traeth i Nell's Point uwchben cyfleuster y dynion a'r caffi uwchlaw. Cafodd yr esgynfa hon, a ddisodlodd lwybr igam-ogam a osodwyd yn 1897, ei hymgorffori yng nghynllun y promenâd yn y 1920au ac mae'n dal i fodoli heddiw ers y broses o ailddylunio'r promenâd dwyreiniol.

Agorodd gorsaf Ynys y Barri yn 1896. Roedd y llinell yn rhedeg o dan Redbrink Point i'r Pier Head yn 1899. Gwelwyd datblygiadau cyflym ar ôl dyfodiad y rheilffordd. Darparodd ystâd Plymouth, Windsor gynt, y seilwaith cychwynnol ar gyfer y gyrcfan wyliau cyn 1914 cyn i'r blaendraeth a'r tir cysylltiedig gael ei werthu i Gyngor Dosbarth Trefol y Barri yn 1909.

*Cerdyn post o 1899 yn dangos Pier Treharne a'r esgynfa o'r traeth i Friars Point (Hawlfraint: Casgliad Francis Frith).*



© The Francis Frith Collection

*Y Promenâd Pleser, tua 1910. Gellir gweld twyni a rhostir y Spion Kop yn y pellter (Casgliad Gerald Beaudette).*



*Tŷ Ymdrochi'r Merched a'r pwll llanu ar ben gorllewinol y traeth (Cerdyn Post TuckDB (BRY 77, cyhoeddwyd y rhifyn hwn ar ôl 1952).*



*Cerdyn post o'r cyfnod cyn 1914 yn dangos Bwyty Dorothy ar Patet Road (Casgliad Matthew Griffiths).*





*Uchod: Caffi'r Merrie Friars ar Paget Road, a adeiladwyd yn 1925.*



*Chwith: Mae'r canllaw concriid bwrw nodedig wedi goroesi mewn nifer o lefydd ar lan y môr ac yn Cold Knap. Mae'r rhan hon y tu ôl i'r Gysgodfan Orllewinol. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Cyn 1900, roedd gwaith hefyd wedi dechrau ar Paget Road, a gwblhawyd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf; mae'r siopau a'r caffis yno yn dal i adlewyrchu'r nodwedd hanesyddol hon. Roedd y gwaith o ailddatblygu glan y môr yn y 1920au yn rhan o gynllun trefol uchelgeisiol i wneud y gorau o botensial twristiaeth traethau'r Barri. Yn rhan

o'r broses honno, cafodd swyddi eu creu mewn gwaith cyhoeddus ar gyfer y nifer cynyddol o bobl ddi-waith. Mae gan y gwaith datblygu ar yr ynys ac yn Cold Knap, ynghyd ag Alexandra Gardens, Gladstone Gardens a'r gerddi yn Church Road, Tregatwg, nodweddion cyffredin, yn enwedig y canllaw concriid bwrw nodedig.

Mae'r ddwy gysgodfan glasurol yn lleoliadau ar gyfer gerddi'r promenâd a'u strwythurau ategol. Roedd y gwaith tirlunio dilynol yn cynnwys rhan o Nell's Point uwchlaw'r Gysgodfan Ddwyreiniol a Thŷ Ymdrochi'r Dynion, a llwybrau drwy'r Dingle ac ar draws y llechwedd er mwyn cysylltu â Forrest Drive.

Ysgogodd datblygiadau trefol fentrau preifat wrth i lan y môr ddechrau datblygu ei golwg gyfarwydd.

Adeiladwyd caffi'r Merrie Friars ar gornel Paget Road a Friars Road yn 1925, adeiladwyd Adeiladau'r Esplanade yn 1928 ac, fel rhan o ddatblygiadau'r ffair gan y teuluoedd White a Collins gosodwyd y Scenic Railway yn 1939. Trysor olaf y gyrchfan wyliau rhwng y ddau ryfel oedd y gysgodfan siarabáng amlwg a godwyd uwchlaw'r cyrtiau tennis ar Forrest Drive a chwrs golff naw twll.

*Golygfa o'r gyrchfan wyliau o'r awyr yn 1929. Mae'r cyrtiau tennis ar Forrest Drive yn y blaendir (© Hawlfraint y Goron: CBHC: Casgliad Aerofilms, WPW029390).*



*Cerdyn post o'r 1930au yn dangos y datblygiad trefol bron yn gyflawn, yn cynnwys gerddi'r promenâd, cysgodfannau a'r gysgodfan siarabáng ar Nell's Point (Casgliad Gerald Beaudette).*



*Y prif strwythurau a adeiladwyd rhwng y ddau ryfel fel ag y maent heddiw (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Yn 1967, roedd caffi Dinky ac ystafell de Gwalia yn dal i gael eu defnyddio; dim ond 10 mlynedd yn ddiweddarach, roeddent wedi'u colli (Casgliad Gerald Beaudette).*

Collwyd estyniad y gerddi i Nell's point, gyda llwybr cerdded poblogaidd (a chyfleoedd i sgelfrolio drwy'r Dingle<sup>37</sup>) yn y 1960au. Fodd bynnag, mae mynedfa'r hen wersyll gwyliau i'r gorllewin o'r ffair yn dangos llinell wreiddiol Friars Road. Tan yn ddiweddar, gorweddaid gweddillion a deunydd tirlenwi ar ben y strwythurau cynharach uwchlaw'r promenâd. Mae ffotograffau a dynwyd yn ystod y broses o adeiladu'r gwersyll gwyliau yn dangos bod y gweddillion hyn yn dechrau gorchuddio'r grisiau a'r llwybr sy'n cysylltu pen dwyreiniol y promenâd â Friars Road. Ar yr un pryd, dymchwelwyd y siopau bach uwchben Tŷ Ymdrochi'r Dynion a chafodd yr adeiladwaith a oedd yn weddill ei ddiogelu. Fodd bynnag, ymgorfforodd y Cynllun diweddar i Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol yr esgynfa a Thŷ Ymdrochi'r Dynion, ac ailgysylltu'r promenâd â phen Nell's Point.

Erbyn 1977, roedd Tŷ Ymdrochi'r Merched, ystafell de Gwalia, a chwt yr arolygydd traeth (caffi Dinky) wedi'u colli.

Ar ddiwedd y 1980au, arweiniodd adroddiadau gan ymgynghorwyr at roi Rhaglen Weithredu Cyrchfan Wyliau Ynys y Barri ar waith a gwariwyd tua £2.5m erbyn 1993. Mae cryn dipyn o edrychiad rhannau canol a gorllewinol y promenâd, gwaith priffyrdd, dodrefn stryd a'r llawrlun yn dyddio o gyfnod y fenter hon. Hefyd, buddsoddwyd mewn nodwedd mynedfa ac arwyddion oedd â'r nod o sicrhau delwedd nodedig i'r gyrchfan wyliau yn y farchnad hamdden.

Mae'r broses o ddatblygu gweddill safle'r gyrchfan wyliau yn cael ei hyrwyddo (mis Medi 2015)<sup>38</sup> ac mae defnydd yn cael ei geisio ar gyfer y cyfleusterau rhestredig gradd II o'r 1920au.

# Nodweddion Adeiladau ac Ardaloedd â Nodweddion



*Ynys y Barri, yn edrych dros Fae Whitmore tuag at Nell's Point, o Friars Point. Mae Friars Point yn annatblygedig o gymharu â'r tai modern ar Nell's Point a'r tai cynharach ar rannau gogledd a'r gogledd-ddwyrain yr ynys. Ffotograffwyd ym mis Awst 2016 (o gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru: © Haulfraint y Goron: y Weinyddiaeth Amddiffyn).*

Mae'r ffaith bod yr ardaloedd preswyl a'r ardaloedd cyrchfan wyliau ar wahân yn un o brif nodweddion Ynys y Barri. Mae'r gwahaniad hwn yn adlewyrchu'r dirwedd, lleoliad y rheilffordd — sy'n gwahanu rhannau gogleddol a deheuol yr ynys — a'r penderfyniadau datblygu a wnaed gan ystâd Windsor a Chyngor Dosbarth Trefol y Barri.

Mae Friars Point yn annatblygedig o hyd (ac eithrio Friars Point House a'i dir a sefydlwyd yn y cyfnod Fictoraidd) ac mae cryn dipyn o ardal ddeheuol Ynys Fach wedi cadw ei nodweddion agored. Datblygwyd yr hen gilffyrdd rheilffordd ar dir adferedig i greu maes parcio ar y blaendraeth gogleddol; mae'r clwb athletau rhyngddo â Paget Road. Roedd Nell's Point, a ymgorfforwyd yn rhannol yn y gyrchfan wyliau rhwng y ddau ryfel ac a ddefnyddiwyd gan wylwr y glannau a'r lluoedd arfog hyd at ganol yr ugeinfed ganrif, yn lleoliad gwersyll gwyliau rhwng 1964 a 1996. Bellach, pentir agored ydyw yn rhannol, a gwelwyd datblygiadau tai amo'n ddiweddar.

Ceir ardal sylweddol o dai cyhoeddus ar Austry Hill ac wrth gefn Redbrink Crescent.

Mae Austry Hill yn cynnwys nodweddion sy'n amlwg yn dyddio o'r cyfnod ar ôl y rhyfel ac mae'n adlewyrchu argymhellion Adroddiad Dudley a *Housing Manual* 1949.<sup>39</sup> Mae arddull y tai a'r mathau o dai, maint y lleiniau a chynllun y ffyrdd, ynghyd â'r manau agored, yn rhoi uniondeb a hunaniaeth ei hun i'r rhan hon o'r ynys.

Roedd cymuned gynnar yr ynys, wrth iddi ddatblygu ar y gefn ogleddol a gogledd-ddwyrain, yn cyfateb o ran amser, lle a nodweddion adeiladau, i strydoedd tref y tir mawr wrth iddi ddatblygu cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. O amgylch The Triangle, mae strydoedd y dosbarthiadau gweithiol a edrychai dros y dociau wedi gwneud lle i gartrefi o ansawdd gwell sy'n edrych allan i'r môr. Mae terasau is-ddeddfau o dai â blaen gwastad yn edrych allan dros y doc; mae filâu pâr o gyfnod yr adfywiad domestig ar Friars Road yn edrych allan dros Redbrink Point a Môr Hafren. Adlewyrchir y parhad yn y rhagoriaeth o frics coch, llechi a Charreg Caerfaddon, gyda blaenau bae yn nodweddiadol o'r holl strydoedd heblaw am y rhai mwyaf di-nod.





Caiff yr amrywiaeth o fathau o dai a phatrymau manylion pensaernïol eu rhannu â'r strydoedd teras i'r gogledd o'r dociau. Mae effaith y gerfwedd a'r amrywiaeth o fanylion ar y strydoedd yn golygu bod amrywiaeth yn hytrach nag undonedd yn nodweddiadol o'r gymuned Fictoraidd ac Edwardaidd hon. Nid yw'r ffaith bod tai cyhoeddus cymharol ddiweddar wedi'u hadeiladu ar Earl Crescent a Marquis Close, mewn arddull lled Sgandinafaidd sy'n nodweddiadol o ddyluniad y 1960au a'r 70au yn amharu ar yr undod a'r cydlyniad cyffredinol.

Mae gan Paget Road nodweddion o ddiwedd y cyfnod Fictoraidd; mae ei phrif nodweddion yn cynnwys talcenni lseidreg yn ogystal â brics coch a Charreg Caerfaddon. Mae'n dyddio o gyfnod cymuned cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, ond mae ei bensaerniaeth yn awgrymu arddull cyrchfan wyliau yn hytrach na stryd breswyl. Mae elfennau rhwng y ddau ryfel yn ychwanegu amrywiaeth, yn enwedig y Merrie Friars yn yr arddull Art Deco ac olion ffair y brodyr White, gyda'i mynedfa glasurol amlwg.

Mae'r cysgodfannau clasurol ffurfiol Gorllewinol a Dwyrainol, sy'n rhestrredig gradd II, yn rhoi hynodrwydd a hunaniaeth arbennig i lannau'r ynys sy'n ei gwneud yn unigryw. Caiff yr ymdeimlad clasurol ei atgyfnerthu gan Adeiladau'r Esplanade, sy'n dominyddu Bae Whitmore. Mae hyn oll wedi rhoi cyd-destun i'r ffair, sy'n gyson â'r defnydd o dir ers y 1920au, er gwaethaf natur fyrhoedlog ei strwythurau.

Cyn 1970, roedd rheilffordd yn cysylltu mynedfa'r dociau a'r Pier Head â'r gyrchfan wyliau; roedd stemars pleser yn rhan o economi'r gyrchfan wyliau. Pan gaewyd y llinell rheilffordd yn 1971, trawsnewidiwyd yr ardal hon ac mae ganddi bellach gysylltiadau gwell â'r porthladd gweithiol na'r ynys. Gerllaw, ystyrir bod Bae Jackson, sy'n draeth a ddefnyddir gan bobl leol yn hytrach na thwristiaid yn hanesyddol, yn nodwedd ar y dirwedd sy'n gysylltiedig â Redbrink Crescent lle ceir llwybr a grisiau yn arwain ato.

Yn olaf, mae'r Cei Deheuol, islaw clogwyni gogleddol yr ynys, sydd wedi'i glirio ar gyfer gwaith datblygu.

*Ymyl orllewinol Ynys y Barri gyda'r sarn yn y blaendir. Mae'r tai ar Austry Hill (i'r dde) yn edrych dros y Cei Deheuol sydd wedi'i glirio ar gyfer gwaith ailddatblygu. Ffotograffwyd ym mis Awst 2016 (o gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru: © Hawlfraint y Goron: y Weinyddiaeth Amddiffyn).*

## Y Gyrchfan Wyliau

### Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad

Pan gyrhaeddodd y rheilffordd Ynys y Barri yn 1896, gwahanwyd y lan a'r traeth ym Mae Whitmore oddi wrth gymuned y dociau a oedd yn datblygu ar y tir uwch i'r gogledd a'r dwyrain. Pennodd ffyrdd a osodwyd gan ystâd Windsor ac a fabwysiadwyd wedi hynny gan Gyngor Dosbarth Trefol y Barri gynllun y gyrchfan wyliau a atgyfnerthwyd gan leoliad y promenâd a'r gerddi yn y 1920au. Mae'r defnydd o dir yn gysylltiedig yn gyfan gwbl bron ag economi hamdden yr ynys. Mae Friars Point a Nell's Point yn amgáu traeth llydan, tywodlyd Bae Whitmore — ffocws ymwelwyr yn draddodiadol.

Mae'r gydberthynas rhwng y gyrchfan wyliau a Nell's Point wedi newid dros amser. Yn wreiddiol, mae'n debyg i Nell's Point gael ei nodi gan ystâd Windsor ar gyfer tai o ansawdd uchel. Fodd bynnag, pan gaffaelwyd rhannau helaeth

o'r pentir at ddibenion milwrol, dim ond ei odrau gorllewinol oedd yn rhan wirioneddol o'r gyrchfan wyliau hyd at ganol y 1960au. Pan ddatblygwyd y gweryll gwyliau, newidiodd y gydberthynas hon ac mae'r gwaith o ailddatblygu llawer o'r safle ar gyfer tai wedi creu ardal â nodweddion nodedig, a gaiff ei thrin ar wahân (t. 89).

Yn 2016, mae blaen safle'r gweryll yn aros i gael ei ailddatblygu ac nid yw'n glir eto beth fydd y gydberthynas rhwng y parth hwn a'r gyrchfan.

### Dadansoddi Nodweddion

#### Cyrraedd

Wrth ddynesu at Ynys y Barri ar ffordd neu reilffordd, mae'r strwythurau sy'n gysylltiedig â'r gyrchfan wyliau yn amlwg. Mae gweddllun cefn yr adeiladau ar Paget Road yn gefnlen i nodweddion lled naturiol yr Hen Harbwr ac Ynys Fach. I'r dwyrain, mae'r tai cyhoeddus a adeiladwyd ar ôl y rhyfel ar Austy Hill yn edrych dros y sarn. Ers tynnu'r Log Flume, mae cefn Adeiladau'r Esplanade i'w weld i'r de o'r ffair.

*Bae Whitmore gyda'r promenâd a'r ffair y tu ôl iddo yn 2016 (o gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru: © Hawlfraint y Goron: y Weinyddiaeth Amddiffyn).*





- |                         |  |  |
|-------------------------|--|--|
| 1 Pwll Ymdrochi         | 8 Adeiladau'r Esplanade                        | 14 Merrie Friars   |
| 2 Pont a Chaffi         | 9 Figure 8                                     | 15 Pont Droed  |
| 3 Parc Siarabang        | 10 Ciosgau                                     | 16 Esgynfa a Chiosg  |
| 4 Cyfleusterau          | 11 Tŷ Ymdrochi'r Merched ac Ystafell De Gwalia | 17 Esgynfa at y Point a Chwt yr Arolygydd Traeth (Caffi Dinky) |
| 5 Cosy Corner           | 12 Pwll Lilis                                  | 18 Spion Kop   |
| 6 The Dingle            | 13 Tŷ Ymdrochi'r Dynion                        | 19 Cysgodfan Orllewinol  |
| 7 Cysgodfan Ddwyreiniol |  |  |

(h) a hawl cronfa ddata Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd (Cedwir pob hawl 2016)

Map yn dangos nodweddion allweddol cyrchfan wyliau Ynys y Barri yn 1936.

Cyn i'r gwersyll gwyliau gael ei adeiladu yn y 1960au, arferwyd gallu gweld tywod a phrysgwydd y Spion Kop uwchlaw'r ffair. Bellach, yr ystâd oddi ar Breaksea Drive yw prif nodwedd yr olygfa hon. Mae Rhaglen Weithredu Cyrchfan Wyliau Ynys y Barri a weithredwyd ar ôl i'r gwersyll gwyliau gau wedi gadael nodwedd mynedfa fach ger y fynedfa o'r sarn. Mae'r porth yn hen ffair y brodyr White yn Cosy Corner yn fwy amlwg, ac mae bellach yn gwasanaethu fel nodwedd porth hanesyddol.

### Nodweddion sy'n Dyddio o'r Cyfnod Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf

Y ffair yw nodwedd ganolog y gyrchfan wyliau o hyd heddiw. Er y pennwyd ei siâp gan geometreg system ffyrdd ystâd Windsor, ni chafodd ei datblygu fel ffair tan y 1920au.

Mae sawl nodwedd sy'n gysylltiedig â'r traeth wedi goroesi o flynyddoedd cynnar iawn y gyrchfan wyliau. Gellir gweld yr esgynfa at Friars Point ar ben gorllewinol y traeth mewn delwedd gan Frith yn 1899 (t. 41). Ychwanegwyd grisiau pan adeiladwyd Tŷ Ymdrochi'r Merched a chwt yr arolygydd traeth yn 1903–05. Mae adeiladwaith tameidiog y tŷ ymdrochi wedi goroesi uwchlaw'r pwll ymdrochi llanw cyfoes. Uwchlaw'r esgynfa, ceir sylfeini concrid a haearn ar gyfer cwt yr arolygydd traeth, a adeiladwyd ar byst ac yr oedd ei fynedfa ar frig yr esgynfa. Gellir gweld drws a ffenestr caeedig yn yr adeiladwaith sydd wedi goroesi.

Roedd Tŷ Ymdrochi'r Dynion ar ben dwyreiniol Bae Whitmore ger esgynfa at Nell's Point. Mae cardiau post cynnar yn dangos bod llinell yr esgynfa yn dyddio o gyfnod cyn y tŷ ymdrochi. Cafodd y ddau eu hintegreiddio â'r promenâd pan gafodd ei adeiladu yn y 1920au. Roedd Tŷ Ymdrochi'r Dynion yn fwy o faint na Thŷ Ymdrochi'r Merched; adeiladwyd caffis uwchben y ddau yn y diwedd. Daeth y gwaith o adeiladu'r gwersyll gwyliau â'r defnydd hwn i ben a rhwystrwyd y llwybr cysylltiedig o lan y môr i Nell's Point a Forrest Drive. Mae'r cysylltiadau wedi'u hadfer o ganlyniad i Gynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol a gwnaed gwaith i warchod Tŷ Ymdrochi'r Dynion a rhoddwyd defnydd newydd iddo (gweler t. 60).



*Y grisiau a roddai fynediad i do Tŷ Ymdrochi'r Dynion. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Y fynedfa o'r traeth i Friars Point i fyny grisiau ac esgynfa (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

Roedd y gyrchfan wyliau yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnwys y Switchback Railway, ystafelloedd lluniaeth a chyfleusterau ar ben gorllewinol Friars Road. Safai'r cyfleusterau ar gornel New Road hyd at y 1980au; ail-fodelwyd y safle fel ardal ffitrwydd yn 2012. Mae'r adeiladau mwyaf nodedig i'r gorllewin o'r Merrie Friars ac ar Paget Road. Roedd y rhai ar Paget Road yn benodol yn ganolog i isadeiledd y gyrchfan wyliau gynnar a gwnaethant wasanaethu fel caffis a thai llety. Ymysg y defnyddiau a wneir o'u lloriau daear heddiw mae bwytai ac arcedau pleser. Mae dau eiddo i'r gorllewin o New Road yn dyddio o'r cyfnod cyn 1900 ac maent wedi cael eu hadnewyddu. Mae gan hen gaffi Rowe's

dalcenni Iseldiraidd sy'n ategu datblygiadau cyfoes ar Paget Road. Mae manylion y canllaw ar lefel y llawr cyntaf yn cyd-fynd â'r canllaw concriid bwrw a ddefnyddiwyd ar lan y môr ac yn fwy eang yn y Barri yn y 1920au.

Mae talcen hen fwyty Dorothy yn nodwedd amlwg mewn cardiau post sy'n dyddio o'r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth edrych o'r traeth, hon oedd y nodwedd adeileddig amlycaf, ynghyd â'r Switchback Railway. Mae nodweddion hanesyddol y cilgant hwn o adeiladau yn elfen allweddol yn nhreflun yr ynys ac maent o ddiddordeb a gwerth mawr. Cyfrannodd hyn at yr argymhelliad i ehangu Ardal Cadwraeth Forol y Barri.<sup>40</sup>

*Talcenni Iseldiraidd caffi Rowe's gynt. Mae'r canllawiau concriid bwrw ar lefel y llawr cyntaf yn adlewyrchu datblygiadau cyfoes mewn mannau eraill ar lan y môr (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



Mae hen fwyty Dorothy ar Paget Road wedi cadw ei ganopi gwaith haearn (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).



Isod: Manylion y canopi gwaith haearn. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).



Datblygwyd y cilgant hwn o adeiladau mewn dau gam, a ddechreuodd cyn 1900 gyda bwyty Dorothy. Fe'i hadeiladwyd mewn brics coch, gyda baeau Carreg Caerfaddon ar ogwydd ar y llawr cyntaf a'r ail lawr. Mae'r baeau ar bob pen i'r rhes yn granelog a cheir talcenni Iseldiraidd i'r croglofftau. Mae canopi gwaith haearn addumul yn ychwanegu at natur nodedig y ffasâd a chaiff ei adlewyrchu ym mlaen 8–9 Paget Road sy'n dyddio o gyfnod ychydig yn hwyrach, sy'n terfynu ar y cilgant.

Parhawyd â'r thema Iseldiraidd, sy'n cyd-fynd â ffasadau brics coch a baeau Carreg Caerfaddon, yn y datblygiad gerllaw. Mae'r datblygiad hwn yn ffurfio cyfansoddiad cymesur hir, gyda chroglofftydd talcennog â ffenestri crwn ar bob pen a bae bargodol llai a rennir ar ganol y grŵp. Ar ddiwedd y grŵp ceir rhes fwy clasurol nad yw'n cynnwys yr elfen Iseldiraidd, ond y mae ei chanopi gwaith haearn yn cyd-fynd â chanopi bwyty Dorothy.



Mae'r defnydd o frics coch a Charreg Caerfaddon yn cysylltu'r grŵp hwn yn bensaemiol â phensaerniaeth ddomestig Plymouth Road a Redbrink Crescent. Mae Gwesty'r Marine sy'n dyddio o 1893 hefyd yn cynnwys elfen Iseldiraidd o fewn cyfansoddiad clasurol amrywiol. Yn hyn o beth, mae pensaerniaeth y gyrchfan wyliau gynnar yn cyd-fynd yn thematig ag elfennau dylunio a ffefrir ar strydoedd preswyl cynnar yr ynys. Un o nodweddion gweledol eraill y strydoedd sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 ar yr ynys ac yn nhir mawr y Barri, yw arwydd enw stryd Paget Road mewn dyluniad glas a gwyn. Caiff y thema brics coch ei hadlewyrchu hefyd yn Adeiladau'r Esplanade sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel, sy'n dominyddu adran ganol glan y môr.

*Chwith: Un o'r arwyddion enw strydoedd glas a gwyn nodedig sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 sy'n nodweddiadol o Ynys y Barri a thref y tir mawr. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Ynghyd â gorsaf arddull Gothig Jacobeaidd wyneb carreg 1896, mae cilgant Paget Road yn nodwedd bwysig sydd wedi goroesi o'r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Rhwng y Ddau Ryfel: Ailfodelu Glan y Môr**

Roedd y gwaith a wnaed rhwng y ddau ryfel i ailfodelu Bae Whitmore yn rhan o raglen ehangach o waith cyhoeddus yn y Barri gyda'r

*Isod: Gorsaf Ynys y Barri mewn arddull Gothig, Jacobeaidd, a adeiladwyd yn 1896 (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*





nod o ddarparu cyflogaeth ac atgyfnerthu potensial y dref i ddenu twristiaid yn y cyfnod ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae thema glasurol debyg yn Cold Knap, lle y gosododd y cyngor bromenâd, llyn addumol a phwll nofio. Mae'r cysgodfannau ar lan y llyn, gyda'u colofnau Tysganaidd, yn debyg i'r cysgodfannau ym Mae Whitmore ac mae'r canllawiau clasurol yn rhoi elfen ddylunio a rennir yn y cyfansoddiad ehangach yn y ddau leoliad. Mae'r canllawiau ar lan môr yr ynys yn nodweddion pwysig sydd wedi goroesi o ystyried y broses o erydu'r nodweddion rhwng y ddau ryfel a welwyd o ganlyniad i newidiadau yn ystod y 1960au ac wedi hynny.



Amlygodd yr arfarniad a gynhaliwyd yn 2009 o'r ardal gadwraeth yr elfennau dylunio cyffredin hyn a'r arddull clasurol a fabwysiadwyd, a amlygodd pa mor hawdd yw adeiladu gan ddefnyddio concrid.<sup>41</sup> Felly, mae'r cyfleusterau yn Cold Knap a'r ynys wedi'u hadeiladu gan ddefnyddio concrid dur/brics brown, pilastrau, cornisiau a rhagfuriau addumol.

Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu morglawdd, promenâd a strwythurau cysylltiedig yn 1922 ac roeddent yn ganolog i'r broses o ail-ddylunio a welwyd yn y 1920au. Y cysgodfannau Dwyreiniol a Gorllewinol, ar bob pen i'r promenâd, yw elfennau mwyaf nodedig glan môr yr ynys, ond cânt eu cynnal gan strwythurau ategol.

*Brig: Mae'r cysgodfannau ar lan y llyn yn Cold Knap yn rhannu eu dyluniad â'r rhai ar y promenâd ar yr ynys (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

*Uchod: Mae'r canllawiau sydd wedi goroesi ar yr ynys yn nodweddion pwysig sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel. Mae'r rhan hon, y tu allan i'r cyfleusterau cyhoeddus, ger yr hen fynedfa i'r guersyll gwyliau. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Dde: Mae'r cyfleusterau cyhoeddus ar yr ynys yn rhannu nodweddion dylunio â'r rhai yn Cold Knap (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*





Yn benodol, ceir dau giosg wythonglog syml ar Friars Road, y bont droed dros yr esgynfa at y promenâd dwyreiniol, ciosgau hirsgwar ar y morglawdd a'r cyfleusterau cyhoeddus ar ben gerddi'r promenâd. Mae pob un ohonynt yn rhan hanfodol o'r cyfansoddiad. Cafodd y diddordeb pensaemiol a hanesyddol arbennig sydd i'r cysgodfannau, y cyfleusterau, y bont a'r morglawdd ei gydnabod drwy eu rhestru.

Ceir siopau a chaffis yn y Gysgodfan Orllewinol. Mae hen ffotograffau yn dangos bod y Gysgodfan Ddwyreiniol, nad oedd yn cynnwys siopau, yn olygfan boblogaidd. Ar ddechrau'r 1960au, roedd llawr sgleftrio masnachol ar do y safle.

Dim ond rhan o'r glan môr trefol sydd wedi goroesi erbyn heddiw gan iddi gael ei datblygu yn y 1920au. Yn ystod y 1960au ac ar ôl

*Y Gysgodfan Orllewinol gyda'r morglawdd yn y blaendir (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Un o'r ciosgau a'r canllawiau a oedd yn rhan o'r gwaith o ail-ddylunio'r gyrchfan wyliau yn y 1920au (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

*Nell's Point yn 1942. Forrest Drive yn croesi'r pwynt ac mae'r cysgodfan siarabáng yn y blaendir (Llywodraeth Cymru 4201, RAF Medmenham 261 ffrâm 1 Ac43, 27 Ebrill 1942).*

hynny, collwyd rhai o'r elfennau gwreiddiol neu gwnaethant erydu. Yn benodol, arferai'r gerddi wedi'u tirlunio y tu ôl i'r promenâd ymestyn ar hyd Friars Road at Forrest Drive ac roeddent wedi'u hintegreiddio â'r nodweddion sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 y tu hwnt i'r Gysgodfan Ddwyreiniol. Roedd y grisiau o'r gysgodfan a thu ôl i Dŷ Ymdrochi'r Dynion yn rhoi mynediad i lethrau Nell's Point a'r Dingle, gyda'i gaffi a'i ail bont droed. Roeddent hefyd yn rhoi mynediad i gyrsiau tennis ar frig y llethr. Adeiladwyd cysgodfan glasurol fach o goncrid

hanner ffordd i fyny'r esgynfa o'r promenâd. Roedd caffi a siop to tun (y 'Toy Factory') ar ben Tŷ Ymdrochi'r Dynion, a oedd yn debyg i ystafell de Gwalia ar ben Tŷ Ymdrochi'r Merched ar Friars Point. Cwblhaodd Cyngor Dosbarth Trefol y Barri ei waith o ddatblygu'r gyrchfan wyliau drwy adeiladu cysgodfan siarabáng concrid gwyn ar hyd Forrest Drive. Roedd hon yn nodwedd amlwg yn y dirwedd hyd at y 1960au pan gafodd ei chllirio i wneud lle i'r gwersyll gwyliau, a newidiodd gymeriad hanesyddol yr ardal hon.





*Gerddi'r promenâd a chysgodfan siarabàng Nell's Point yn 1949 (Casgliad Gerald Beaudette).*

*Isod: Nell's Point yn 1997: mae'r gwersyll gwyliau wedi torri drwy erddi'r promenâd ac wedi torri'r cysylltiad rhwng Redbrink Crescent a glan y môr (Llywodraeth Cymru Awdurdod Datblygu Cymru A970005 ffrâm 1725, 6 Mawrth 1997, (© Hawlfraint Llywodraeth Cymru).*

Pan ailddatblygwyd y pentir, collwyd y rhan fwyaf o'r nodweddion glan môr uwchlaw'r Gysgodfan Ddwyreiniol a'r cyfleusterau cyhoeddus y tu hwnt. Llanwyd y Dingle er mwyn darparu safle adeiladu gwastad. Torrwyd y llwybrau o'r promenâd a'r Gysgodfan Ddwyreiniol. Dymchwelwyd y siopau ar ben

Tŷ Ymdrochi'r Dynion. Felly, arweiniodd y gwaith o adeiladu'r gwersyll gwyliau at ddinistrio estyniad dwyreiniol y gerddi glan y môr a dirywiodd strwythurau'r promenâd. Ar yr un pryd, torrodd y gwersyll gwyliau Friars Road yn ei hanner, a dorrodd y cysylltiad rhwng glan y môr a Redbrink Crescent.



*Y bont droed a arferai gysylltu gerddi'r promenâd â'r gerddi a'r Dingle islaw Nell's Point. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Isod: Palmentydd coch modern nad ydynt yn cyd-fynd â chymeriad hanesyddol y nodweddion sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Effeithiodd proses llai amlwg o erydu cymeriad ar yr elfen sydd wedi goroesi o erddi'r promenâd a'r ardal o'u cwmpas. Collwyd rhai elfennau o ddyluniad y gerddi sydd wedi goroesi; yn benodol, y pwll lilis a'i oleuadau addurnol, er bod ei amlinelliad wedi goroesi. Mae muriau terfyn gwreiddiol y gerddi wedi mynd ac mae rhannau o'r canllawiau concriid bwrw sy'n gysylltiedig â'r

bont droed a'r fynedfa i'r traeth wedi dirywio. Creodd mentrau llawrlun modern, yn benodol rhai a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun gweithredu ar gyfer y cyfnod ar ôl y gwrsyll gwyliau, waliau, dysglau a phalmentydd nad ydynt yn gysylltiedig â chymeriad hanesyddol yr elfennau dylunio sy'n dyddio o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel.

### **Cynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol, 2013–15**

Cwblhawyd Cynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol yn ystod gwanwyn 2015, a chyrrhaeddodd restr fer ar gyfer gwobr genedlaethol mewn cynllunio a dylunio ar gyfer y cyhoedd.<sup>42</sup> Ei brif nodweddion yw'r gwaith o adfer a diweddarau'r Gysgodfan Ddwyreiniol, ail-bwyntio ac atgyweirio wal wreiddiol carreg galch las, aildefnyddio Tŷ Ymdrochi'r Dynion, ailgysylltu'r promenâd a Nell's Point drwy rwydwaith newydd o lwybrau a gerddi, gosod celf cyhoeddus ac adeiladu cytiau traeth newydd. Yn y broses, mae elfennau o gymeriad hanesyddol glan y môr yn y cyfnod cynnar a rhwng y ddau ryfel wedi goroesi a chyflwynwyd nodweddion newydd sy'n parchu'r hen elfennau.<sup>43</sup>





*Top y Gysgodfan Ddwyreiniol ag olion yr esgynfa yn arwain at Nell's Point cyn cynllun adfywio 2013–15. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Y cytiau traeth newydd a'r esgynfa wedi'i hadfer. Ffotograffwyd ym mis Chwefror 2015 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Gosodwyd esgynfa ar ôl 1905 yn arwain o'r traeth at Nell's Point uwchlaw Tŷ Ymdrochi'r Dynion, a ddisodlodd lwybr 1897. Yn y 1920au, ymgorfforwyd yr esgynfa yng nghynllun y promenâd. Roedd wedi'i gorchuddio â choncrid, ac roedd yn un o ddau gysylltiad allweddol rhwng y promenâd a'r pwynt. Roedd hefyd yn cysylltu â Forrest Drive a'r cyrtiau tennis. Hanner ffordd i fyny'r esgynfa roedd gysgodfan glasurol fach a oedd yn olygfan ac yn cynnwys siop fach.

Rhedai grisau i lawr o gyffordd y rhwydwaith o lwybrau ar ben y clogwyn at y caffi a'r siop ar ben Tŷ Ymdrochi'r Dynion. Rhedai'r llwybr arall o ben y Gysgodfan Ddwyreiniol naill ai drwy'r Dingle at gornel Friars Road a Forrest Drive, neu at y llwybrau a'r gerddi wrth gefn y cyfleusterau. Ar lefel y promenâd, roedd grisau byr a arweinai i'r gorllewin o'r cysgodfan gyda dwy golofn oleuo addurnol ar y top. Cadwyd bonion y rhain.

*Dde: Tŷ Ymdrochi'r Dynion gyda'r amffitheatr uwchben (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



Cadwyd yr esgynfa mewn rhagfur newydd (neu wal dynnu), 1.5 metr (5 troedfedd) yn uwch na'r rhagfur cynharach, sy'n arwain y teithiwr drwodd i amffitheatr uwchlaw'r tŷ ymdrochi ac i'r maes parcio (dros dro) ar ben y clogwyn sy'n gysylltiedig â'r promenâd. Mae'r grisiau i'r gorllewin o'r gysgodfan bellach yn arwain at yr ardd newydd ar lan y môr a tho'r gysgodfan, gyda chysylltiadau â'r esgynfa a phen y clogwyn. Mae gwaith maen y tŷ ymdrochi wedi'i atgyweirio ac mae ei ddrysau a arferai fod yn gaeedig wedi'u hailagor er mwyn rhoi mynediad i doiledau a chyfleuster goruchwyliwr. Mae cynllun lliwiau cysefin llachar ar gyfer gwaith paent y drysau yn creu cyswllt gweledol â drysau paentiedig y 24 o gytiau traeth i'r dwyrain o'r tŷ ymdrochi. Ar lefel y promenâd, mae'r gwaith wynebu wedi'i adnewyddu a cheir mynediad gwell i'r traeth.



Mae celf gyhoeddus yn un o brif nodweddion y cynllun dylunio. Gosodwyd nodwedd oleuo o fewn nenfwd panelog y gysgodfan, a gall pob cell ddangos animeiddiad unigol.<sup>44</sup> Mae wyneb newydd yr esgynfa bellach yn cynnwys 40m (130 troedfedd) o wal ddringo llythrennau, a ddyluniwyd gan Gordon Young a Part-Two Creative. Mae'r llythrennau'n cynnwys mwy na 4,000 o siapiau gwahanol ar thema glan y môr sy'n helpu pobl i ddringo (yn cynnwys deinosauriaid, ffrwythau, a geiriau a siapiau sy'n berthnasol i Ynys y Barri). Y bwriad oedd trawsnewid wal goncridd yn dimod rhyngweithiol y gellir ei weld o awyrennau sy'n glanio ym

*Uchod: Y wal ddringo sydd wedi'i gwneud o lythrennau yn cynnwys mwy na 4,000 o siapiau gwahanol ar thema glan y môr i helpu pobl i ddringo (© Gordon Young).*



*Y nodwedd carreg amonit gyda jetiau creu niwl (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

Maes Awyr Caerdydd.<sup>45</sup> Gerllaw, ceir nodwedd niwl amonit — nodwedd ffurfiol addumulol a gynlluniwyd i annog chwarae. Cynlluniodd Cyngor Bro Morgannwg yr amonitau carreg ddu caboledig gyda jetiau sy'n creu niwl a goleuadau LED sy'n newid lliw.<sup>46</sup>

Os yw'r cytiau traeth yn cysylltu'n weledol â syniadau o lan y môr cynharach a bod y wal dynnu yn ail-ddehongli un o nodweddion hir sefydledig glan môr yr ynys, darperir elfen fodern ddramatig yn y saith canopi ffabrig tynnol a osodwyd. Y nodwedd amlycaf o'r rhain yw côn anghymesur tal, sydd wedi'i ongli tuag at y môr ac sy'n ymestyn tua'r awyr uwchlaw'r tŷ ymdrochi gan ddarparu cysgod i'r amffitheatr. Mewn golygfeydd pellach o'r traeth, mae gwynder y canopi hwn yn cyferbynnu â glesni'r clogwyn y tu ôl iddo. Ceir chwe chanopi llai, strwythurau 'ymbarél' un post safonol, ar y promenâd i'r gorllewin o'r Gysgodfan Ddwyreiniol.<sup>47</sup>

### Adeiladau Rhwng y Ddau Ryfel

Mae'r seilwaith glan môr gan Gyngor Dosbarth Trefol y Barri a ddatblygwyd yn y 1920au ac ar ôl hynny o bwys hanesyddol. Mae'n ganolog i hanes cymdeithasol de Cymru, nid dim ond y dref. Yn y 1920au a'r 1930au y gwnaeth agweddau modern at lan y môr, heulwen a thorheulo ymddangos, a gaiff ei symboleiddio gan ffasiynau newydd mewn dillad ymdrochi a chymysgu'r rhywiau. Ynys y Barri oedd y brif gyrchfan ar gyfer pobl y cymoedd glo. Mae ei

heconomi'n dal i ganolbwyntio ar ymwelwyr dydd, y caffi, yr arcêd pleser a'r ffair. Fodd bynnag, mae gwaddol ffisegol y 1920au a'r 1930au i'w gweld o hyd a dechreuwyd dangos y potensial ar gyfer cymeriad hanesyddol i ategu adfywiad ffisegol ac economaidd Ynys y Barri.

Yn y 1920au, roedd buddsoddiad preifat yn mynd law yn llaw â gwaith cyhoeddus. Mae'r Merrie Friars ac Adeiladau'r Esplanade yn gwneud cyfraniad gweledol at gymeriad y gyrchfan wyliau. Maent yn amlwg yn ffisegol, p'un a gânt eu gweld o'r traeth/promenâd neu mewn golygfeydd pellach o'r pentir. Gellir eu gweld o'r tir mawr ac ar ffyrdd sy'n arwain at yr ynys.

*Isod: Mae canopiau bach neu ymbarellau yn cynnig cysgod ar hyd y promenâd dwyreiniol (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Gerddi'r promenâd yn edrych tua'r gorllewin, gyda'r bont droed yn y blaendir (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Brig: Mae Adeiladau'r Esplanade o frics coch yn un o brif nodweddion glan y môr heddiw (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

Strwythur tal o frics coch yw Adeiladau'r Esplanade sy'n cynnwys y math o bensaernïaeth glasurol syml a oedd yn apelio rhwng y ddau ryfel. Cynlluniwyd y strwythur canolog, mewn wyth bae oedd yn darparu llawer o olau, fel neuadd ddawns a sinema. Arferai pafilynnau ar bob tu, gyda thri bae yr un a tho llechi talcennog ddarparu llety ar lan y môr, ac maent yn fflatiau bellach.

Mae'r Merrie Friars yr un mor drawiadol. Fe'i hadeiladwyd yn y 1920au, mewn arddull modern rhannol glasurol a rhannol Art Deco, a ddangosir mewn adeiladwaith o waith carreg nadd sy'n amlwg yn weledol. Mae'r strwythur trillawr yn cynnwys saith bae gyda chormis a rhagfur plaen. Mae'r baeau canolog ac ar y pen yn sefyll allan ychydig o gymharu â'r prif adeilad. Yn gyffredinol, mae ei gymeriad cyfnod cadarn yn rhan annatod o Fae Whitmore.



*Dde: Mae'r Merrie Friars yn adeilad trawiadol o hyd, sy'n dominyddu pen gorllewinol y promenâd (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*





*Chwith: Mae arcêd pleser Stardust wedi'i leoli ar yr hyn a arferai fod yn Cosy Corner y brodyr White (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

Mae Arcêd Pleser Stardust yn enghraifft o un o'r problemau sy'n wynebu ymdrechion yn y dyfodol i wella'r gyrchfan wyliau. I ba raddau y dylai gwaith adfywio geisio cuddio traddodiad pysgod a sglodion ac arcedau pleser yr ynys — 'kingdom of the chip' Gwyn Thomas — a welir ar lawer o'r arwyddion a ffrytiadau sy'n gysylltiedig â chaffis ac arcedau'r ynys? Mae Cosy Corner ac olion clasurol ffair y brodyr White drws nesaf. Mae'r porth gorchest yn nodwedd porth hanesyddol sy'n darparu timod gwirioneddol, yn ogystal ag atgof o gyfnod a fu a'r cystadlu a welwyd yn y gorffennol rhwng ffeiriau'r ynys.



Ar y gomel groes, diflannodd y Log Flume pan gliriwyd y safle ar ddechrau 2015. Yn 2016, mae'r safle'n cael ei ailddatblygu fel ffair. Ceir grŵp o strwythurau diweddar gerllaw'r ffordd ddynesu at yr orsaf o arddull Gothig Jacobeaidd a adeiladwyd yn 1896.



*Uchod: Mae un o'r ddau borth a phum piler o Cosy Corner y brodyr White wedi goroesi ac yn darparu porth amlwg i'r ynys. Ffotograffwyd yn 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Chwith: Yr adeiladau brics modern sydd ger y ffordd ddynesu at yr orsaf. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

## 2. Y Gymuned Cyn 1914


### Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad

Mae'r ardal hon â nodweddion yn uno'r strydoedd preswyl a ddatblygwyd rhwng canol y 1890au a'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda'u rhwydwaith cymdeithasol a manwerthu ategol. Adlewyrchir

undod o ran amser a lle yn nyluniadau'r adeiladau sy'n amrywiadau ar y teras brics coch i raddau helaeth. Mae'r ardal yn cynnwys hierarchaeth o fathau o dai, sy'n amrywio o dai teras syml â blaen gwastad, gyda'r mynedfeydd yn uniongyrchol ar y stryd, i enghreifftiau mawreddog o filâu pâr. Terasau a welir yn bennaf gyda graddoliad cymdeithasol yn amlwg o'r gorllewin i'r de-ddwyrain; o Clive Road, lle ceir golygfeydd



*Manylion talcen gyda charreg dyddiad ar Friars Road (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Mae'r rhan hon o'r panorama, a luniwyd yn 1901 ar gyfer y Barry Railway Company, yn dangos y patrum strydoedd a osodwyd gan ystâd Windsor erbyn 1900 (Darparwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).*



dros y dociau a thref y tir mawr, i ben gorllewinol Redbrink Crescent, lle mae tai llawer mwy mawreddog yn edrych allan tua'r môr.

Ynghyd â'r datblygiad hwn yn y mathau o dai, nodir statws blociau o dai gan gyfoethogiad cynyddol o nodweddion pensaernïol, yn enwedig presenoldeb baeau unllawr a deulawr, y defnydd o dalcenni a dormerau, a'r dewis o ddeunyddiau. Manylion brics syml a welir ar y tai teras mwyaf sylfaenol i'r dosbarth gweithiol; mae'r tai teras mwy yn defnyddio nodweddion Carreg Caerfaddon. Nodweddir y tai mwyaf mawreddog ar Redbrink Crescent a Friars Road gan amrywiaeth o nodweddion addurnol mewn carreg, pren a gwaith haearn, ac maent wedi'u lleoli mewn lleiniau mwy o faint. Mae gan dai gwell i'r dosbarth gweithiol (ar Amherst Crescent, er enghraifft) flaengwrt bach, wedi'i wahanu oddi wrth y stryd gan wal frics. Ar hyd Redbrink Crescent, mae'r blaengyrtiau yn ehangu'n erddi blaen, gyda grisiau yn amlygu'r fynedfa flaen. Ar ben

gorllewinol Redbrink Crescent, mae gwrychoedd prifet trwchus ar ben waliau brics yn darparu preifatrwydd a chaeadle.

Gellir rhannu'r ardal â nodweddion yn ddwy brif ran — tai i'r dosbarth gweithiol i'r gogledd a'r gorllewin o Plymouth Road, a thai mwy boneddigaidd i'r de — sy'n cwrdd yn The Triangle. Yma, mae Plymouth Road, Battery Hill (Dock Road) a Redbrink Crescent yn cwrdd i greu pwynt nodol yn rhwydwaith ffyrdd yr ynys. Y gyffordd hon, y mae Battery Hill yn arwain oddi wrthi at fynedfa'r doc a lle mae Plymouth Road yn edrych tua'r gorllewin er mwyn cysylltu â'r sarn, oedd y lleoliad naturiol ar gyfer Gwesty'r Marine (Ger y Môr bellach) a siopau lleol yr ynys. I'r gorllewin o'r gyffordd hon, mae Friars Road yn arwain oddi wrth Nell's Point, a arferai gysylltu â Forrest Drive a glan y môr. Mae Redbrink Crescent yn gwyro o amgylch man uchaf yr ynys er mwyn ymuno â Friars Road ger Nell's Point. Islaw Redbrink Crescent, saif Dyfrig Street uwchlaw fynedfa'r doc.

*Mae'r olygfa hon o Ynys y Barri o'r awyr yn 1943 yn dangos bod nifer y tai yn agos iawn at yr hyn a welwyd yno cyn 1914 (Llywodraeth Cymru, ffrâm Letraws Memenham yr RAF 17836, 20 Medi 1943)*

Yn ddiweddarach, mae gwaith adeiladu wedi llenwi'r bylchau yn ffryntiad y stryd, yn enwedig ar hyd ochr ddwyreiniol Redbrink Crescent a ger ei chyffordd â Friars Road a Breaksea Drive. Grŵp o dai pâr o frics coch a adeiladwyd fel tai i wylwyr y glannau yw'r rhai amlycaf. Hefyd, ceir ystad fach o dai cyhoeddus o'r 1970au ar yr hen dir rhandiroedd wrth gefn Redbrink Crescent. Saif fila o fudiad modern y 1930au ger hen gyffordd Forrest Drive a Friars Road, wrth ymyl y datblygiad tai diweddar ar hen safle'r gwersyll gwyliau. Mae hon yn enghraifft brin iawn o'r arddull hwn yn y Barri ac mae wedi'i chynnwys yn Nhrysorau Sir Bro Morgannwg.<sup>48</sup> Fodd bynnag, strydoedd a thai sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 a welir yn bennaf yn siapia'r cymeriad lleol.

*Tai teras syml â blaen gwastad ar Phyllis Street. Ffotograffwyd yn 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



## Dadansoddi Nodweddion

### Phyllis Street a Clive Road

Phyllis Street yw'r stryd deras fwyaf unffurf o'r ddwy. Tai teras syml â blaen gwastad o frics coch a welir yma, heb lawer o fanylion. Weithiau, mae'r manylion wedi'u hamlygu mewn gwaith paent diweddar, er enghraifft, ar silffoedd ffenestri, neu'r cerrig isaf a cherrig bwa capanau drysau. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith brics wedi goroesi'n dda, ynghyd â thoeon llechi a simneiau, ac mae sawl tŷ wedi'i rendro. Ffenestri newydd UPVC a welir fel arfer, ac mae'r drysau o ddyluniadau modern.

I'r dwyrain o Ivor Street, mae'r estyniadau cefn yn uchder llawn. Mae brics melyn yn ychwanegu diddordeb at fframiau drysau a ffenestri, ac at y gwaith brics uwchlaw ffenestri'r llawr uchaf. Mae gwaith brics deintellog yn creu comis.

Y tu hwnt i Archer Road, dim ond mor bell â Bromfield Road y datblygwyd ochr ogleddol Phyllis Street cyn 1914. Mae'r stryd gyfan o ddiddordeb gweledol cryf gan ei bod yn gwyrto i lawr y rhiw o Clive Place, gan ddilyn y tirffurf sylfaenol, yna'n codi eto o Archer Road. Mae toeon, waliau terfyn ac adeiladau allan yr ysgol gynradd (1899) yn ffocws ar gyffordd Phyllis Street ac Archer Road, ynghyd ag Eglwys Sant Baruc sydd o frics coch syml (cyn 1897).



*Dyluniadau drws modern ar Phyllis Street. Ffotograffwyd yn 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Chwith: Drychiad  
Ysgol Gynradd Ynys y  
Barri ar Archer Road.  
Ffotograffwyd yn 2011  
(© Ymddiriedolaeth  
Ddinesig Cymru).*

*Isod: Eglwys Sant Baruc,  
ar gyffordd Phyllis  
Street ac Archer Road  
(© Hawlfraint y Goron  
(2016) Llywodraeth  
Cymru, Cadw).*





*Uchod: Adeiladwyd y tai cyntaf ar Clive Road yn 1897 ac maent yn debyg i'r tai ar Phyllis Street. Nodwch y garreg dyddiad a'r manylion brics melyn. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Isod: Tai ar Clive Road â baeau unllawr ar ogwydd. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Erbyn 1900, roedd Phyllis Street yn gyflawn ynghyd â'r rhan fwyaf o Clive Road, a adeiladwyd hyd at Bromfield Road gyda bwlch yn y llinell adeiladu rhwng rhifau 3 a 12. Mae'n debyg i Clive Road gael ei chwblhau yn fuan wedyn pan adeiladwyd rhifau 4–11 ac, y tu hwnt i Bromfield Road, rhifau 86–87. Mae gan y tai mwy newydd hyn, ynghyd â rhifau 14–23, faeau unllawr ar ogwydd o Garreg Caerfaddon, gyda chapanau drysau o Garreg Caerfaddon dros barau o ddrysau. Mae'r capanau drysau, congffeini a silffoedd ffenestri a baeau hefyd o Garreg Caerfaddon. Mae blaengyrtiau bach

yn gwahanu'r fynedfa oddi wrth y stryd, gyda grisiau at y drws ffrynt. Mae'r broses o rendro ffasadau a'r defnydd o baent ar garreg wedi erydu cymeriad hanesyddol rhifau 4–11. Pan gawsant eu hadeiladu, roedd amrywiadau bach i'r triniaethau clasurol syml i'r drysau: presenoldeb neu absenoldeb cerrig diddos, er enghraifft. Roedd yn bosibl i un adeiladwr gynnig amrywiaeth o fewn un bloc, a oedd yn ffactor allweddol wrth atal undonedd ym mlaen y stryd.

Mae'r tai sy'n weddill ar Clive Road yn debyg i'r rhai ar Phyllis Street. Defnyddiwyd brics melyn i ychwanegu diddordeb at fynedfeydd a ffenestri, ac ar y drychiadau ochr yn rhifau 1 i 3, a adeiladwyd yn 1897. Mae'r tai hyn yn debyg i floc mwyaf dwyreiniol Phyllis Street, lle mae'r rhai o gomel Ivor Street tua'r gorllewin yn gyson ag adran gyfochrog Phyllis Street, sy'n awgrymu datblygiad cyfoes gan yr un cwmni adeiladu. Y tu hwnt i Bromfield Road, mae rhifau 86 ac 87 yn uned pâr, gyda baeau unllawr a blaengyrtiau. Nid ydynt yn cynnwys manylion gwaith maen y tai â baeau ar ben dwyreiniol y stryd, ond ceir manylion gwaith brics deintellog ar y bondo.





*Clive Road yn pantio tua'r gorllewin wrth iddi ddilyn y gyfuchlin tuag at Austry Hill (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Ffasâd blaen Ysgol Gynradd Ynys y Barri ar Clive Road. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Mae Clive Road yn cyfateb i Phyllis Street o ran ei ymateb i'r gyfuchlin. Mae'r ysgol, a agorwyd yn 1899, wedi'i lleoli ar y stryd. Wrth iddi gael ei hymestyn, datblygodd yn strwythur unllawr â saith bae gyda'r pafiliynau a'r bae canolog yn bargodi allan o'r llinell adeiladu. Mae gan y baeau bargodol

dalcenni; mae gan y baeau cilfachog doeon talcennog. Ceir manylion o Garreg Caerfaddon ar agoriadau ffenestri ac ysgwyddau. Drwy'r cyfuniad o frics, cerrig ac arddull ddomestig, mae'r ysgol, ynghyd ag enghreifftiau cyfoes yn y dref ar y tir mawr, yn gyson â'r strydoedd o'i hamgylch.

*Dde: Manylion o frics melyn o amgylch drysau ar Amherst Crescent. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Isod: Mae gan y tai sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 ar Amherst Crescent flaengyrtiau bach yn ogystal â baeau. Yr ysgoldy yw'r tŷ ar y chwith, a adeiladwyd ar gyfer pennaeth cyntaf yr ysgol. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

### Amherst Crescent

Gosodwyd Amherst Crescent yn gyfochrog ag adran ganolog Phyllis Street. Dim ond rhan fer o ddau deras sy'n wynebu ei gilydd a adeiladwyd cyn 1914; cafodd ei chwblhau fel cilgant pan ddatblygwyd tai cyhoeddus ar ôl 1945. Ar y pennau dwyreiniol, mae'r ddau deras yn terfynu â phafiliwn talcennog â bae uchder dwbl. Fel arall, bae unllawr sydd i'r tai. Mae'r baeau wedi'u gwneud o garreg, gyda ffedogau o frics; mae brics melyn yn ychwanegu diddordeb i'r ffasadau. Mae blaengyrtiau bach wedi'u hamgylchynu gan waliau brics; ymddengys bod enghreifftiau da o waith teils wedi goroesi ar loriau a godreion mynedfeydd cilfachog. Mae'r manylion hyn yn gwahanu'r stryd yn gymdeithasol oddi wrth Phyllis Street i'r gogledd. Yn briodol, mae'r rhes ogleddol yn terfynu â'r ysgoldy a adeiladwyd ar gyfer pennaeth cyntaf ysgol yr ynys. Mae ei ddyluniad yn nodedig, gyda'r defnydd o frics coch a melyn a pharhad llinell adeiladu'r teras yn sicrhau bod y tŷ yn cyd-fynd â'r tai o'i amgylch.







*Plymouth Road oedd prif ganolbwynt y gymuned newydd. Fe'i hadeiladwyd cyn 1914, ac mae'r tai mawr hyn â baeau deulawr yn manteisio ar gyfuchlin y ffordd. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Chwith ac isod: Drysau pâr, â theils amryliw, ar Plymouth Road. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

### **Plymouth Road**

Mae Plymouth Road yn dilyn y codiad o droed Austry Hill i The Triangle, a oedd yn ganolbwynt i'r gymuned cyn 1914. Mae'r stryd yn nodedig yn bensaernïol a, phan gafodd ei hadeiladu, roedd hicyn uwchlaw'r strydoedd cyfagos, Amherst Road ac Ivor Street, yn gymdeithasol. Mae'n wynebu oddi wrth y doc tuag at Nell's Point, gyda golygfeydd i'r gorllewin ar hyd y stryd at Ynys Fach, yr Hen Harbwr a Cold Knap. Mae baeau deulawr a chroglofftydd yn manteisio ar wyneb wedd uchel ac agored y stryd. Mae'r baeau wedi'u gwneud o Garreg Caerfaddon, gyda ffedogau panelog, ac arferent gael canllawiau ar eu brig. Ceir theils amryliw â manylion clasurol ar ddrysau pâr. Nodweddir dormerau croglofftydd gan ymylon bondo addumul. Mae llawer o'r manylion gwreiddiol sydd wedi goroesi yn cyferbynnu â'r siopau sy'n cwblhau'r teras hwn yn The Triangle.



### Ivor Street

Mae Ivor Street yn rhedeg ar hyd y gyfuchlin o Plymouth Road i Clive Road. Roedd ei datblygiad yn fylchog ac ni chafodd ei chwblhau ar ei hochr orllewinol tan y 1920au. Yma, mae ffasadau o garreg yn cyferbynnu â'r brics coch sydd fel arall yn nodweddiadol o'r ardal â nodweddion. Mae'r baeau uchder dwbl a'r

driniaeth glasurol ar fynedfeydd yn cysylltu'r tai yn gymdeithasol â Plymouth Road. Gosodwyd ochr gyferbyn y stryd fel teras o siopau, y mae un ohonynt wedi goroesi; mae'r gweddill wedi'u trawsnewid yn dai. Er eu bod wedi colli eu ffrytiadau gwreiddiol a bod eu ffasadau brics wedi'u haddasu'n helaeth, erys olion manylion y gwaith maen.

*Mae'r tai carreg ar ochr orllewinol Ivor Street yn cyferbynnu â'r brics coch a welir mewn manau eraill (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Ochr orllewinol Ivor Street, a osodwyd yn wreiddiol fel teras o siopau (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Mae Clive Place yn arwain at The Triangle, sef prif ganolfan fasnachol yr ynys yn wreiddiol (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

### The Triangle

Roedd prif siopau'r gymuned ar ben Plymouth Road, yn wynebu Gwesty'r Marine (Ger y Môr bellach). Ffurfiwyd The Triangle lle mae Clive Place, Battery Hill (Dock Road), Plymouth Road a Redbrink Crescent yn cwrdd. Ddeugain mlynedd yn ôl, roedd y siopau yma yn ffynnu ac roeddent yn cynnwys siop papur newydd, cigydd, groser, teisenwyr a chaffi. Nawr, ceir siop cyfleustra/ swyddfa'r bost. Mae drychiadau llawr daear hen siopau wedi'u haddasu'n helaeth a'u llenwi. Er hyn, erys manylion brics a charreg lefelau uwch ac mae dormerau croglofftydd yn ychwanegu diddordeb i'r gornel sy'n wynebu Gwesty'r Marine (Ger y Môr bellach).

Adeiladwyd Gwesty'r Marine yn 1893, ar ddechrau'r cyfnod o ddatblygu cymuned yr ynys, a cholodd y rhan fwyaf o'i ffyrntiad helaeth ar Friars Road pan gafodd ei moderneiddio. Yn ddiweddar, cafodd ei hymgorffori yn natblygiad tai cymdeithasol Ger y Môr. Mae hen floc y gwesty wedi'i drawsnewid yn wyth fflat. Mae blociau o fflatiau a leolir ar hyd Redbrink Crescent ac wrth gefn y llain yn darparu deuddeg uned arall.

Mae'r adeilad gwreiddiol yn strwythur urddasol o hyd ac yn un o brif elfennau'r treflun. Mae ei ddeunyddiau o frics a Charreg Caerfaddon yn gosod y cywair ar gyfer yr ardal.

*Chwith isod: Y fynyddfa ochr i Westy'r Marine gyda'i ffrâm drws nodedig o Garreg Caerfaddon. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Isod: Yr unig siop sydd ar ôl yn The Triangle gyda drychiad a addaswyd yn helaeth ar y llawr daear (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



Mae'n dominyddu'r golygfeydd tua'r dwyrain ac ar i fyny ar hyd Plymouth Road, ac mae'n cau'r olygfa ar hyd Clive Place. Mae ei thriniaeth bensaernïol yn amrywiol, ond yn glasurol ar y cyfan. Mae'r ffyrntiadau eraill ar Friars Road yn cynnwys portsh talog a bae deulawr, sy'n pwysleisio pwysigrwydd yr ystafell gyfarfod ar y llawr cyntaf ac yn adleisio'r tai hynny ar Plymouth Road gyda chomis a phediment.

Cyn y gwaith ailddatblygu, roedd oriel talcennog ar ffasâd yr asgell ddwyreiniol yn wrthbwynt i dalcennau Iseldiraidd y prif floc trillawr. Mae'r gwydr nodweddiadol ar y bae hir ar y ffasâd gogleddol wedi'i ddisodli gan wydr clir mewn fframiau UPVC. Fel arall, mae'r gwaith maen wedi'i adfer. Mae'r blociau newydd mewn arddull modern syml, gyda mesuriadau domestig, mewn brics coch â baeau sgwâr deulawr wedi'u rendro yn cyd-fynd â gwaith maen y strwythur Fictoraidd.<sup>49</sup>

*Gwesty'r Marine, a adeiladwyd yn 1893, cyn iddo gael ei foderneiddio. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Gwesty'r Marine ar ôl cael ei ailddatblygu ar gyfer tai cymdeithasol. Mae'r bloc newydd, ar y dde, a adeiladwyd gan ddefnyddio brics coch gyda baeau sgwâr wedi'u rendro yn parchu cymeriad hanesyddol yr hen westy. Tynnwyd y ffenestr oriel dalog gain ar y drychiad ochr. Ffotograffwyd ym mis Awst 2015 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





*Mae'r tai cynnar ar ben gogleddol Dyfrig Street yn nodedig yn lleol; mae grisiau cerrig serth yn arwain atynt ac mae ganddynt dalcenni ffug Tiwdor. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

### Dyfrig Street

Cymeriad dosbarth gweithiol oedd i strydoedd gogleddol cymuned wreiddiol yr ynys. Roedd amrywiadau yn y terasau yn adlewyrchu amrywiadau mewn statws ac incwm. Mae'r strydoedd i'r de o Battery Hill yn dangos cynnydd graddol mewn statws yn y gymuned. Mae'r tai yn mynd yn fwy o faint ac yn fwy mawreddog wrth i'r olygfa wella, ac yn y pen draw mae terasau yn gwneud lle i filâu Edwardaidd mawr ar ben deheuol Redbrink Crescent ac ar Friars Road.

Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, cwblhawyd y stryd pan adeiladwyd dau dŷ pâr â ffryntiad bae dwbl. Mae ganddynt falconiau addumedig dros bob mynedfa a thalcenni ffug Tiwdor uwchlaw'r baeau. Mae gwaith rendro gwyn yn amlygu manylion y gwaith brics. Mae'r newid hwn mewn statws yn dangos ar raddfa fach y patrwm datblygu ar hyd Redbrink Crescent wrth i derasau'r is-ddeddfau drawsnewid yn adfywiad domestig.

*Cwblhaodd tai mwy a mwy addurnol y gwaith o ddatblygu Dyfrig Street yn y cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Mae gan Dyfrig Street olygfeydd trawiadol dros fraich ddeheuol y dociau a'r Basn (Doc Rhif 3), ond yn 1901, roedd ganddo gymeriad cymysg yn gymdeithasol. Roedd ei deiliaid yn cynnwys labrwy, saer dodrefn, cofnodwr amser adeiladu rheilffordd y doc ac ysgraffwr. Roedd gan y wraig weddw yn rhif 9 fab a oedd yn gyfrifydd. Mae'r tai cynharach yn y fan hon yn cynnwys nodweddion dylunio lleol, gyda'u mynedfeydd ar ben grisiau serth i fyny o lefel y stryd. Mae gan rifau 1–10 ffryntiad dwbl, gyda ffasadau gwastad a thalcenni ffug Tiwdor uwchlaw ffenestri'r prif ystafelloedd gwely. Roedd waliau calchfaen haenog uchel gyda brics coch ar eu brig yn waliau terfyn o amgylch gerddi blaen bach. Mae ffenestri UPVC wedi'u gosod yn lle'r ffenestri codi gwreiddiol yn bennaf, ond erys pedwar canopi â chromfachau pren (yn lle portshys wedi'u modemeiddio) i roi cysgod i'r drysau ffrynt. Mae teils wedi'u gosod yn lle llawer o lechi to, ond, er gwaethaf yr erydiad hwn o fanylion hanesyddol, mae cymeriad y stryd wedi goroesi.



### Redbrink Crescent

Mae rhifau 1, 3 a 5 ar ben Battery Hill o Redbrink Crescent yn ffurfio teras byr o frics sy'n cynnwys tri thŷ. Mae gan rif un fynedfa ochr, ond mae'r to llechi uwchlaw ei fae yn ei gysylltu â rhif 3. Datblygwyd ochr gyferbyn y stryd i fanteisio ar y golygfeydd tuag allan. Gellir nodi sawl bloc adeiladu.

Mae rhifau 2–16 wedi'u hadeiladu o frics coch ac mae ganddynt ffryntiadau bae. Maent yn nodedig oherwydd eu capanau drysau clasurol hynod uwchlaw parau o ddrysau ffrynt; mae gan bob pâr bediment ag addum sgrolwaith. Ceir manylion cerrig yn y baeau brics. Mae gan rifau 2 ac 16 bafilynnau terfyn sy'n rhannu'r un manylion ond gyda baeau deulawr a thalcenni plaen a goleuadau croglofft.

Mae'r thema hon yn parhau yn rhifau 20–30, sydd wedi'u gwahanu oddi wrth 16 gan 18, 18a a 18b (datblygiad cyswllt mewnlenwi byr ar hen randir). Eto, mae pafilynnau terfyn, capanau drysau o Garreg Caerfaddon ar y baeau, llin-gyrsiau cerrig a chorbeli cerrig ar fondo toeon a baeau yn cyfoethogi manylion y ffasadau, sy'n gwahaniaethu rhwng y teras hwn a rhifau 2–16.

Wrth i'r stryd esgyn a gwyro tuag at fan uchaf yr ynys, mae'r teras nesaf yn nodi newid arall mewn arddull a statws cymdeithasol. Mae gan rifau 32–42 faeau uchder dwbl gyda manylion cerrig trwm ar y ffenestri, llin-gyrsiau cerrig a ffedogau. Ceir gwaith teils terracotta ar rannau o'r talcenni ac maent wedi'u cynnal gan gromfachau pren. Mae uchder y grisiau cerrig o'r stryd at y mynedfeydd yn cynyddu wrth i'r tir godi, sy'n amlygu'r cynnydd yn urddas cynnil y mynedfeydd.

Mae rhif 42 wedi cael triniaeth arbennig iawn, sy'n nodi ei safle amlwg ar ben y bryn, yn edrych dros y fynedfa i'r doc a Môr Hafren. Mae gan ei ddrychiad ochr fae deulawr sy'n debyg i'r drychiad blaen, ond yma ceir ystafell tŵr (y mae ei manylion gwreiddiol wedi'u colli). Caiff mawredd ychwanegol ei gyfleu ar y fynedfa flaen yn sgil y balconi â gwaith haearn addurnol a phortsh ffrâm bren. Mae gwrychoedd prifet ar ben y waliau terfyn brics yn cyfleu ymdeimlad o breifatrwydd ac arwahanrwydd. Yn 1901, roedd y tŷ yn gartref i beilot doc.

*Mae'r tai ar Redbrink Crescent yn dangos newid mewn maint ac uchelgais wrth i'r ffordd esgyn o The Triangle tuag at y môr. Teras brics coch â ffryntiad bae yw rhifau 2–16, sy'n arwain at The Triangle. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





*Mae gan rifau 32 i 42 Redbrink Crescent faeau uchder dwbl gyda manylion carreg trwm. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Mae rhif 42 Redbrink Crescent wedi cael triniaeth arbennig iawn gydag ystafell tiŵr, balconi a portsh pren. Datblygiad sy'n dyddio o'r 1970au yw Marquis Close, ar y chwith. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Hynny yw, o fewn yr hyn y gellid ei ystyried yn ffyrntiad stryd unffurf, manteisiodd yr adeiladwyr ar lethr a geometreg Redbrink Crescent. Gwnaethant gynnig dyluniad a manylion mwy a mwy coeth fel bod graddfeydd pensaernïol cynnil yn adlewyrchu'r newid yn

statws y deiliaid. Mae hyn yn amlwg iawn mewn cyfrifiadau cyn 1914. Yn 1911, roedd meistr pier, capten llong, rheolwr peirianeg, peiloliaid porthladd a sianel yn byw yn rhifau 20–30. Y tu hwnt, roedd peiloliau, peiriannwyr a pherchennog pwll glo yn rhif 62.

*Rhifau 44–54 yw'r teras olaf ar Redbrink Crescent. Mae rhif 44 yn nodedig oherwydd ei ffryntiad dwbl a'i falconi. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Mae rhifau 56–58 Redbrink Crescent yn bâr trawiadol o dai pêr, gyda thalcenni ffug Tiwdor trwm. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



Rhifau 44–54 yw'r teras olaf ar Redbrink Crescent. Mae'r tai mewn parau heblaw rhifau 44 a 54, sydd â ffryntiad dwbl a balconïau syml dros y fynedfa a lloiau'r croglofftydd gyda ffenestri yn y talcen. Mae dau o'r tai symlach rhwng rhifau 44 a 54 wedi'u haddasu gydag estyniadau to. Mae baeau carreg uchder llawn yn cyferbynnu â ffasadau brics coch.

Nesaf (rhifau 56–58), ceir dau dŷ pêr trawiadol, sy'n dangos amrywiad arall o frics coch a Charreg Caerfaddon. Mae ganddynt fynedfeydd ochr a cheir gerddi ffrynt go iawn yn lle mynedfeydd grisiog a blaengyrtiau. Gall y balconïau sy'n uno'r baeau fod yn ychwanegiadau i'r adeilad gwreiddiol. Mae talcenni ffug Tiwdor trwm â chromfachau addumul a chorbeli cerrig yn amlygu'r cyfansoddiad.



Mae dau dŷ pâr arall (rhifau 60 a 62) hefyd yn nodedig. Mae'r dyluniad sylfaenol yn debyg, ond mae gan y tai hyn faeau tyredig ar eu corneli, sy'n pwysleisio drama eu lleoliad a phwysigrwydd edrych allan i'r môr. Mae gan y ddau bâr nesaf (rhifau 64 a 66) ddyluniad tebyg ond heb y tyredau. Mae'r baeau mewn carreg yn hytrach na chyfuniad o frics a charreg, ac mae goleddf y talcenni yn fwy serth. Mae'r ardd flaen yn fwy ac mae llinell yr adeilad wedi'i gosod yn ôl oddi wrth y ffordd. Mae gwrychoedd uchel yn rhoi ymdeimlad o gaeadle a phreifatrwydd sy'n awgrymu ymbellhau cymdeithasol sy'n mynd yn groes i natur gymdlogol y teras.

Fila fawr ar wahân yw rhif 68, sy'n nodedig oherwydd bae talcennog ar ochr ddwyreiniol y dyrchafiad a thŵr bargodol gyda thyred pigfain i'r gorllewin. Mae rhif 69 a thu hwnt yn adeiladau mewnlenwi modern, yn cynnwys gorsaf gwylwyr y glannau a thŷ cysylltiedig a adeiladwyd yng nghanol y 1960au.

Mae gerddi rhandir wedi goroesi ar ochr rhiw Redbrink Crescent sy'n wynebu'r de, yn edrych dros fynedfa'r dociau. Mae'r rhain yn ein hatgoffa yr arferai llawer o'r tir annatblygedig ar yr ynys fod yn rhandiroedd.



*Uchod: Mae rhifau 60 a 62 yn dai pâr eraill o ddyluniad tebyg, ond gyda baeau tyredig ar eu corneli. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Chwith: Mae rhif 68 yn fila ar wahân ac yn nodi diwedd y datblygiad cynnar. Adeilad mewnlenwi modern yw rhif 69, ar y chwith. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

### Friars Road

Mae datblygiad yr arddulliau ar hyd Redbrink Crescent yn dod i uchafbwynt gyda filâu adfywiad domestig mewn brics coch gyda manylion carreg wedi'u masgynhyrchu. Ar Friars Road, rhwng Nell's Point a'i chyffordd â Redbrink Crescent, gwelir tai pêr Edwardaidd mawreddog. Mae'r tai hyn yn rhannu golygfeydd tua'r de dros Nell's Point a Môr Hafren gyda thai mwy mawreddog Redbrink Crescent. O'u gerddi cefn, mae ganddynt olygfeydd o Plymouth Road a rhan orllewinol y Barri y tu hwnt.

Cyn cyfnod y gweryll gwyliau, arferai Friars Road barhau tua'r gorllewin ar draws cyfyngdir Nell's Point a'r Spion Kop at lan y môr. Mae'r cysylltiad hwn wedi'i dorri o hyd gan ddatblygiadau tai diweddar. Roedd llethr dwyreiniol Nell's Point yn dir agored gyda mynediad i Fae Jackson islaw — traeth tawel, cysgodol yn cyferbynnu ag ehangder prysur Bae Whitmore.

Diflannodd y gerddi rhandir pan adeiladwyd y gweryll gwyliau, ond mae'r gwaith o ailddatblygu'r pentir wedi adfer man glas rhwng y stryd a'r clogwyni, gan alluogi pobl i gerdded o amgylch Nell's Point. Mae olion isel Capel canoloesol Sant Baruc wedi'u gwarchod ymysg celli amlwg.

Nid yw'r adeiladau mewnlenwi o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi amharu ar ansawdd y tai gwreiddiol ar hyd Friars Road; ond mae cyferbyniad nodedig â phensaernïaeth masgynhyrchu y cartrefi ar Nell's Point.

Mae rhifau 6–24 Friars Road yn dangos amrywiadau o dai pêr mawr o'r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae rhywbeth gwahanol ar ben y stryd. Mae 26 Friars Road yn fila o'r mudiad modern sydd wedi goroesi'n dda, sy'n dyddio o'r 1930au — mae wedi'i nodi'n un o Drysorau'r Sir bellach<sup>50</sup> ac mae'n un o ddim ond tair enghraifft o'r arddull yn y Barri.

*Mae rhif 26 Friars Road yn enghraifft brin yn y Barri o fila o fudiad modern y 1930au. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





*Friars Road yw cartref yr hen dŷ Edwardaidd mawreddog ar Ynys y Barri. Rhifau 22–24 yw'r pâr mwyaf plaen. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Rhifau 22 a 24 yw'r pâr mwyaf plaen. Maent wedi'u hadeiladu o frics coch ac wedi'u rendro uwchlaw'r llin-gwrs, gyda thalcenni trwm yn bargodi dros faeau uchder llawn, ymylon bondo cerffiedig, ffenestri croglofft a drysau cilfachog dwfn o fewn mynedfeydd pengrwn. Adeiladwyd rhifau 10 a 12, 14 a 16, a 18 ac 20 gan yr un adeiladwr gan ddilyn yr un dyluniad cyffredinol yn 1909

a 1910 (fel y noda'r cerrig dyddiad yn y talcenni). Mae baeau talcennog bargodol a Charreg Caerfaddon yn codi uwchlaw toeau'r neuaddau cilfachog a'r unedau mynedfa. Mae balconïau o waith haearn addurnol yn rhedeg o fae i fae ac yn gweithredu fel canopiau uwchlaw'r mynedfeydd a'r ffenestri parlwr cyntaf. Ar lefel y balconi, mae'r gwaith brics wedi'i rendro.



*Mae rhifau 18 a 20 yn fwy addurnol gyda balconïau o waith haearn addurnol. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Chwith: Mae rhifau 6 ac 8, gyda'u talcenni ffug Tiwdor ar oleddf serth, yn terfynu'r rhes. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Dde isod: Capel Methodistaidd bach Sant Ioan o arddull Celf a Chrefft. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Isod: Manylion y balconi o waith haearn ar rifau 10–12. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Mae'r rhes yn terfynu gyda rhifau 6 ac 8, ond mae estyniad diweddarach bellach wedi'u cysylltu â rhifau 10 a 12. Mae gan ei ffasâd i'r stryd ddau fae brics a cherrig gyda thoeon teils islaw talcenni ffug Tiwdor hynod addumul sydd ar oleddf serth. Ceir effaith hanner pren dros y gwaith brics un llawr a hanner i fyny ac mae balconi addumul yn cysylltu'r baeau.

Y tu ôl i Friars Road ceir Capel Methodistaidd bach o arddull Celf a Chrefft a adeiladwyd

yn 1905. Ni ellir ei weld o'r stryd ac mae yng nghysgod y tai diweddar oddi ar Breaksea Drive. Mae'n enghraifft ddiddorol o'i fath ac yn rhan annatod o'r ardal â nodweddion.

Mae Friars Road yn parhau hyd at y groesffordd â Plymouth Road, lle saif hen Westy'r Marine. Mae tri thŷ modern ar wahân yn gwahanu rhif 8 oddi wrth Breaksea Court, sy'n dominyddu'r gornel â Breaksea Drive. Bloc o fflatiau amlwg plaen wedi'i rendro'n wyn a geir yma.





*Earl Crescent ac eglwys Seisnig y Presbyteriaid a adeiladwyd yn 1902. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

Ar ochr ddwyreiniol y ffordd, 'Other Road' oedd Earl Crescent yn wreiddiol, wedi'i henwi ar ôl Other Archer Windsor, chweched iarll Plymouth (bu farw 1833). Cynrychiolir y gymuned gynnar gan yr eglwys Bresbyteriaidd, a adeiladwyd yn 1902 mewn arddull Gothig a Lombardaidd, ac adeiladwyd rhifau 1 a 2 Earl Crescent yn 1906. Mae'r ddau dŷ pâr hyn yn anarferol am iddynt gael eu hadeiladu o gerrig yn hytrach na brics, sy'n cyd-fynd â'r eglwys.

Y tu hwnt i Breadsea Drive a'r ganolfan gymuned sy'n dyddio o'r 1960au, mae rhifau 1 a 3 Friars Road yn cwblhau'r rhestr o ddatblygiadau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914. Dau dŷ pâr mewn brics coch plaen ydynt — efallai yn fwriadol yn blaen er mwyn cyferbynnu â hen Westy fflamddull y Marine. Yn 1901, y rhain oedd cartrefi dirprwy feistri'r dociau a'u teuluoedd.



*Adeiladwyd rhifau 1 a 3 Friars Road, ynghyd â hen Westy'r Marine, cyn 1914 befyd mewn brics coch plaen. Ffotograffwyd ym mis Medi 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Pentir moel Friars Point, yn edrych i'r de tua'r môr. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



### 3. Ynys Fach

#### Diffinio a Dadansoddi Nodweddion

Yn hanesyddol, cysylltwyd Ynys Fach â gweddill Ynys y Barri gan gyfyngdir cul o dywod a thwyni rhwng Bae Austri a Bae Whitmore. Gyda'r broses ddiwydiannu, llanwyd y bae er mwyn gwneud lle i gilffyrdd rheilffordd. Mae'r hen draethlin wedi ymgaregu yn ffin ôl lleiniau ar Paget Road. O ganlyniad, mae'r cyfyngdir hwn yn lletach na'r hyn a fu, ond mae Ynys Fach wedi cadw ei chymeriad hanesyddol. Mae pentir moel Friars Point yn golygu bod ei wedd sy'n annatblygedig i raddau helaeth tuag at Cold Knap

yn edrych fel ag yr oedd cyn 1884. Dim ond olion prin o nodweddion archaeolegol cynhanesyddol a chanoloesol a geir o hyd, ynghyd â sylfeini carreg a choncrid strwythur nad yw ei darddiad a'i ddefnydd gwreiddiol yn hysbys.<sup>51</sup> Mae Friars Point House, a adeiladwyd fel Gwesty'r Marine yn y 1850au, a'r hen York Breakwater o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg<sup>52</sup> yn cyfrannu at nodweddion pictiwrésg Cold Knap a'r Hen Harbwr.

*Dde pellaf: Olion yr hen strwythur carreg a choncrid o darddiad a defnydd ansicr ar ochr orllewinol Friars Point. Ffotograffwyd ym mis Gorffennaf 2016 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Dde: Friars Point House (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



Tyfodd cefnlen coetir Friars Point House ar ôl 1884. Mae ei fodolaeth yn atgyfnerthu ymdeimlad o wahaniad rhwng y gyrchfan wyliau, Friars Point a'r Hen Harbwr. Caiff hyn ei bwysleisio ymhellach gan y clogwyni calchfaen trawiadol a'r morglawdd, sy'n darparu cysgod i draeth bach yn y distyll. Cafodd pwysigrwydd golygfaol a gwyddonol y pentir, a'i gydberthynas â'r Hen Harbwr, Cold Knap a golygfeydd calchfaen Bae Porthceri, ei gydnabod yn 1991 drwy ei gynnwys yn Ardal Cadwraeth Forol y Barri.<sup>53</sup>

Ar ochr ddwyreiniol Friars Point, lle mae'r ardal â nodweddion yn ymdoddi â glan y môr, adlewyrchir hanes cynnar y gyrchfan wyliau yn olion tameidiog y pwll ymdrochi llanw a chwt yr arolygydd traeth. I'r dwyrain o'r morglawdd, yn lle'r cilffyrdd rheilffordd, ceir maes parcio sy'n dominyddu'r draethlin rhwng y morglawdd a'r sarn. Mae llwybr cyswllt i gerddwyr yn darparu mynediad hawdd i Friars Road. Yn ogystal â chysylltu â'r gyrchfan wyliau, mae'r ardal hon

hefyd yn edrych ar draws yr Hen Harbwr at Parade Gardens. Rhwng y maes parcio a Paget Road, mae'r clybiau criced a thennis yn cynnig mannau glas a defnydd tir sy'n fwy cysylltiedig â'r gymuned leol na'r gyrchfan wyliau. Ceir ffin gadarn rhwng y cae criced a chefn Paget Road.



*Uchod: Mae'r gefnlen goediog i Friars Point House yn darparu sgrin nodedig sy'n gwahanu Friars Point oddi wrth yr Hen Harbwr. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Chwith: Y clogwyn calchfaen sy'n goleddfu'n serth ar ochr orllewinol Friars Point yn edrych tuag at Cold Knap Point. Mae'r ddau bentir wedi'u cynnwys o fewn Ardal Cadwraeth Forol y Barri. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Mae'r cae criced, a leolir ar dir wedi'i adfer o Fae Austri, yn darparu ffin gadarn â chefn Paget Road. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Austry Hill o'r Hen Harbwr*  
(© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).

## 4. Austry Hill

### Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad

Cafodd ardal ogledd-orllewinol yr ynys ei siâp modern yn ystod y gwaith o adeiladu'r dociau, pan gafodd llethr gogleddol Austry Hill ei dorri'n ôl a chafodd clogwyn newydd ei greu yn edrych dros yr Hen Harbwr, y sam a'r rheilffordd. O bwynt uchaf Clive Road, mae'r strydoedd yn pantio tua'r dwyrain a'r de tuag at Plymouth Road a Maslin Park ar ochr yr hen Leech Pool. Islaw Austry Hill, mae cromlin Paget Road yn atgof o hen draethlin Bae Austry.

Gosododd ystâd Windsor yr holl ynys i'w hailddatblygu yn y 1890au, ond nid adeiladwyd yn yr ardal hon tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Cyn hynny, fe'i defnyddiwyd ar gyfer rhandiroedd. Diffiniodd Clive Road, Phyllis Street, Amherst Crescent a Plymouth Road y cynllun sylfaenol ar gyfer ystâd o dai cyhoeddus ar ôl y rhyfel, ond newidiwyd y cynllun gwreiddiol yn rhannol i gynnwys

McQuade Place. Mae enw'r stryd yn mynd yn groes i'r cysylltiadau arferol ag ystâd Windsor. Trefnodd Mrs McQuade i blant Ynys y Barri gael cinio ysgol am ddim yn ystod y Dirwasgiad a bu'r teulu McQuade yn ddeiliaid trwydded Gwesty'r Marine am sawl blwyddyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r tai yn yr ardal hon yn nodweddiadol o ddatblygiadau cyhoeddus ar ôl y rhyfel yn y DU, sy'n adlewyrchu bwriadau Adroddiad Dudley a'r *Housing Manual* sy'n dyddio o 1949.<sup>54</sup> Gosodwyd y strydoedd yn bennaf gyda thai pâr deulawr cadarn brics a rendr gyda gerddi ffrynt a chefn helaeth. Mae'r cynllun hwn yn cyferbynnu'n fawr â chynllun y tai a adeiladwyd cyn 1914 a oedd yn gysylltiedig â'r dociau. Mae haenau trefol tyn y terasau ar hyd adrannau dwyreiniol o Clive Road, Phyllis Street ac Amherst Crescent yn gwneud lle i gynllun llawer mwy agored o dai pâr. Mae dau deras byr ar Amherst Crescent. Y brif uned bensaernïol yw'r stryd.<sup>55</sup> Rhwng Phyllis Street ac Amherst Crescent, mae Archer Court yn ddatblygiad diweddarach o dai gwarchod, gyda fflatiau mewn blociau bach o bedair uned ar ongl i'w gilydd ac i'r stryd.



## Dadansoddi Nodweddion

Roedd y ffyrdd a adeiladwyd gan ystâd Windsor yn llydan. Fodd bynnag, o un pen i Amherst Crescent i'r llall, ceir newid amlwg o haenau trefol tynn y terasau cynharach i ymdeimlad agored yr ystâd o'r cyfnod ar ôl y rhyfel. Roedd y math hwn o dai yn diwallu angen amlwg ac yn rhoi gofod gardd breifat i drigolion ac, am y tro cyntaf, eu profiad cyntaf o gyflenwad dŵr poeth, toiledau preifat dan do ac ystafelloedd ymolchi preifat.

Ar y cyfan, mae'r ystad hon o'r cyfnod ar ôl y rhyfel yn parchu'r egwyddorion dylunio trefol newydd a gyflwynwyd yn 1949. Mae patrwm grid y strydoedd yn amlwg. Mae'r rhan fwyaf o'r cartrefi yn wynebu'r stryd gyda'r gerddi cefn ar eu pwys, sy'n creu ffryntiadau gweithredol a chyfle naturiol i gadw golwg, yn ogystal â phwysleisio preifatrwydd a diogelwch. Fodd bynnag, ceir gwyrdd oddi wrth y safon hon. Mae rhai gerddi cefn yn wynebu'r brif stryd ac mae blociau o fflatiau wedi'u gosod a'u hochrau yn wynebu'r ffordd. Ar Amherst Crescent, mae'r ffryntiadau yn wynebu tua'r lôn sy'n ei rhannu oddi wrth



Plymouth Road. Yn hyn o beth, mae'r datblygiad ar ôl y rhyfel yn wahanol i gynllun blaen a chefn presennol y terasau cynharach.

Nid yw McQuade Place wedi'i leoli'n gyfforddus yn y grid cynharach, ond mae'n creu ardaloedd bach o ofod gwyrdd anffurfiol, sy'n ategu ardal

*Adeiladwyd tai ar ôl y rhyfel ar onglau sgwâr i Archer Road. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Mae Maslin Park, ar ochr yr hen Leech Pool, yn fan glas pwysig sy'n gwahanu'r tai oddi wrth yr arglawdd a'r gyrchfan wyliau. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



chwarae fwy, rhwng Amherst Crescent a chefn Phyllis Street, a Maslin Park. Roedd pen gorllewinol Maslin Park, sy'n wynebu Island Road, yn rhannol adeiledig (yn cynnwys Clwb yr Hen Harbwr) ac fe'i defnyddiwyd fel maes parcio a maes carafannau. Bellach, mae wedi'i dirlunio i integreiddio â'r parc gwreiddiol, a ddefnyddir fel cae pêl-droed. Mae'r parc yn fan glas pwysig, sy'n gwahanu'r tai oddi wrth yr arglawdd a'r gyrchfan wyliau. Mae'r bont rheilffordd ar gyffordd Station Approach a'r sam yn gweithredu fel porth i'r ardal â nodweddion hon.

Mae'n amlwg bod yr ardal hon o dai yn cyd-fynd yn dda â'r gerfwedd sylfaenol a'r cynllun strydoedd a gynlluniwyd yn y 1890au. Ar ben gorllewinol Plymouth Road ac ar ran isaf Amherst Crescent, er enghraifft, defnyddir serthrydd y llethr i greu gerddi blaen ar oleddf a rhoi golygfa agored i bob tŷ ar draws yr ynys tuag at y ffair a Nell's Point. Ymhellach i'r gogledd i fyny Amherst Crescent neu Bromfield Road, mae'r llethr yn creu nenlinell sy'n datgelu golygfa tuag allan ar draws y dociau i'r dref y tu hwnt. Mae gan y tai ar ben gorllewinol pellaf Clive Road olygfeydd ar draws yr Hen Harbwr i Cold Knap a'r clogwyni y tu hwnt.

Wrth i Plymouth Road godi tua'r dwyrain o'i chornel ag Archer Road, mae toeon y tai mwy newydd yn grisio tuag i fyny wrth i'r ffordd wyro a chodi i gyraedd y teras a adeiladwyd cyn 1914 sydd ar frig y gefn.



*Brig: Tai wedi'u gosod ar Amherst Crescent er mwyn manteisio ar olygfa agored tuag at y ffair. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Uchod: Mae'r tai ar ben gorllewinol Clive Road wedi'u gosod er mwyn mwynhau golygfeydd ar draws yr Hen Harbwr. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Dde: Toeon esgynnol y tai o'r cyfnod ar ôl y rhyfel ar Plymouth Road wrth iddynt risio ar i fyny er mwyn cyrraedd y tai o'r cyfnod cyn 1914 sydd ar frig y gefn. Ffotograffwyd ym mis Rhagfyr 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*





## 5. Nell's Point

### Diffiniad ac Amlinelliad o'r Datblygiad

Mae cymeriad Nell's Point heddiw wedi'i greu yn sgil y gwaith ailddatblygu a wnaed ar yr hen wersyll gwyliau. Dinistriodd y safle natur agored

y pentir gan chwalu cynllun a gysylltai glan y môr â'r tai sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 ar hyd Friars Road. Cafodd y gysgodfan siarabáng, y cwrs golff a'r cyrtiau tennis eu chwalu ynghyd â rhan o erddi ffurfiol glan y môr a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel (yn benodol, y Dingle, gyda'r caffi a'r bont droed). Torrwyd y cysylltiadau â'r promenâd hefyd.

*Mae'r tai modern ar Nell's Point i'w gweld yn amlwg o olygfannau agos a phell (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*



*Nell's Point o'r awyr ym mis Awst 2016 (o gasgliadau Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru: © Hawlfraint y Goron: y Weinyddiaeth Amddiffyn).*

*Canolfan Sefydliad  
Gwyllo'r Glannau  
Cenedlaethol ar Nell's  
Point wedi'i lleoli ar ben  
safle gorsaf rybuddio.  
Mae'r ardal agored  
glaswelltog modern ar  
dir a arferai fod yn rhan  
o'r gwerysll gwyliau.  
Ffotograffwyd ym  
mis Tachwedd 2011  
(© Ymddiriedolaeth  
Ddinesig Cymru).*



Cafodd yr adeiladau a'r strwythurau ar Nell's Point — gorsaf gwylwr y glannau a'r orsaf rybuddio, ynghyd â'r nodweddion milwrol — hefyd eu dymchwel.<sup>56</sup> Mae darn o un safle chwilolau wedi goroesi yng nghanolfan Sefydliad Gwyllo'r Glannau Cenedlaethol, ynghyd ag olion un arall ar gornel de-orllewinol y pwynt.

Gan fod safle'r gwerysll gwyliau wedi'i glirio ar ôl 1996, adeiladwyd tai preifat oddi ar Breaksea Drive a Friars Road, sydd bellach yn dominyddu Nell's Point. Mae'r tai hyn yn wahanol iawn o ran cymeriad a ffurf i Redbrink Crescent a Friars Road, neu'r gyrchfan a'r promenâd. Yn weledol, mae'n amlwg o olygfannau agos a phell ar yr ynys a thu hwnt.

Cafodd tir ymylol yn edrych dros Fae Jackson a Bae Whitmore ei dirlunio i adfer ymdeimlad agored. Yn 2016, mae ardal orllewinol yr hen wersyll gwyliau wedi'i glirio, ond nid yw wedi'i ddatblygu o hyd. Mae'r ardal ddeheuol yn faes parcio dros dro, a gysylltir drwy lwybrau a gwaith tirlunio newydd ar lan y môr fel rhan o Gynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol.

Yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r ynys, cyn i'r tai gael eu hadeiladu ar hyd Forrest Drive, defnyddiwyd y pentir ar gyfer garsiwn a gorsaf gwylwr y glannau. Daeth cyrion deheuol a dwyreiniol Nell's Point yn rhan o isadeiledd

ffurfiol y gyrchfan hyd at 1965–66 pan adeiladwyd y gwerysll gwyliau.

Ers 1996, mae gwaith adfer wedi gwella Llwybr Cerdded Clements Colley o amgylch y pentir ac mae llwybrau ychwanegol a manau gorffws wedi'u gosod. Estynwyd yr hen orsaf gwylwr y glannau a'i hadfer yn adnodd addysgol gan warchod gwaith maen hen safle chwilolau. Mae ardal helaeth o hen dir rhandiroedd a arferai fod yn faes parcio wrth gefn safle'r gwerysll gwyliau wedi'i adfer yn lastwelltir. Mae'r broses hon o adfer manau agored wedi arwain at adsefydlu cynefin lled naturiol wedi'i ffinio gan y môr a'r clogwyni, y ceir mynediad iddo drwy lwybrau rhwng y gyrchfan wyliau, Friars Road/ Redbrink Crescent a Bae Jackson.

## Dadansoddi Nodweddion

Nodweddir y datblygiadau ar ôl 1996 gan gyfres o ffyrdd pengaead y gellir eu cyrraedd oddi ar Breaksea Drive ac o ben dwyreiniol Friars Road. Ni cheir llwybr cylchynol o amgylch y datblygiad i gerddwyr na cherbydau.

Nid yw'r cynllun ac enwau'r strydoedd yn cyfeirio'n ôl at gymeriad hanesyddol yr ynys. Yn wahanol i ardaloedd eraill, mae llawer o'r tai wedi'u lleoli gyda'u cefnau neu eu hochrau'n

wynebu'r môr. Dewiswyd enwau'r strydoedd gan ddefnyddio thema'r môr a bywyd gwylt.

Mae'r grwpiau o strydoedd oddi ar Breaksea Drive wedi'u cysylltu â'r rhai oddi ar Friars Road gan lwybr troed o amgylch ymyl orllewinol y datblygiad rhwng Heol Eryr Môr a Gwennol y Môr. Mae ffensys yn rhwystro golygfeydd allan i'r gyrchfan wyliau a thu hwnt.

Mae'r datblygiad oddi ar Breaksea Drive yn fwy dwys na'r datblygiad oddi ar Friars Road.

Mae unedau cyswllt bach yn frith ymysg y cartrefi bach ar wahân a gysylltir gyda garejys. Lleolir anheddau trillawr ar gomeli a nodau mynediad; mae'r ffasadau naill ai o rendr lliw hufen gyda manylion brics, neu o frics coch ond gyda manylion tebyg i gonglfeini ac agoriadau. Mae'r ffyrdd yn gul sy'n cyfyngu ar y gallu i barcio ar ochr y ffordd. Mae garejys ac ardaloedd eang o darmac yn dominyddu pen pob ffordd bengaead. Mae'r rhain hefyd yn rhwystro golygfeydd tuag allan rhwng bylchau ar flaen yr adeiladau.

*Ni ellir mynd o amgylch Nell's Point nac i lawr at y traeth o'r datblygiad tai modern. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Chwith pellaf: Mae ffensys yn rhwystro golygfeydd allan i'r gyrchfan wyliau a thu hwnt. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



*Chwith: Mae ffyrdd pengaead yn dominyddu'r datblygiadau tai newydd. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*

*Mae rhai tai ar hyd Gwennol y Graig yn mwynhau golygfeydd gwych o'r môr ond mae eu talcenni — a'u tyredi — yn golygu y gellir eu gweld o bellter mawr. Ffotograffwyd ym mis Tachwedd 2011 (© Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru).*



Ceir mynedfa i'r tai ar y pwynt ei hun oddi ar gylchfan ar ben adran ddwyreiniol Friars Road. Ceir cyd-destun gan y tai Edwardaidd sylweddol ar Friars Road a'r tai cyfatebol ar Redbrink Crescent. Mae rhai tai ar Clos yr Wylan a Gwennol y Graig yn cyfeirio'n ôl at yr hen adeiladau i ryw raddau — drwy bresenoldeb ymylon bondo pren er enghraifft, neu ffenestri bae. Diffinnir gerddi blaen hefyd gan reiliau neu waliau brics. Fodd bynnag, mae meintiau'r lleiniau yn llai, mae'r ffyrdd yn gulach a tharmac a garejys sy'n dominyddu.

Mae'r tai ar wyneb allanol y datblygiad, ar hyd Pioden Fôr a Gwennol y Graig, yn mwynhau golygfeydd gwych o'r traeth ac allan i'r môr. Mae eu talcenni (a'u tyredi achlysurol) yn sicrhau y gellir eu gweld ar y nenlinell o bellter mawr — o Friars Point, Cold Knap, neu Marine Drive.

## 6. South Quay

### Diffinio a Dadansoddi Nodweddion

Saif South Quay ar ardal yr hen West Pond a'r glanfeydd ar ochr ddeheuol Doc Rhif 1. Peiriannau codi glo a chilffyrdd a welwyd yn bennaf ar y glanfeydd hyd at y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Disodlwyd y rhain gan danciau storio cemegion,

a gafodd eu clirio cyn y gwaith ailddatblygu. Llanwyd West Pond ar ôl 1945. Mae'r cilffyrdd a'r siediau diwydiannol a welwyd ar y rhan hon o'r safle hefyd wedi cael eu dymchwel. Defnyddiwyd llawr caled tuag at Paget Road fel ffair dros dro a maes parcio ychwanegol ar gyfer y gyrchfan wyliau. Yn weledol, caiff yr ardal ei dominyddu gan y clogwyni sydd wedi tyfu'n wyllt ar wyneb gogleddol yr ynys, yr ardal eang o ddŵr agored yn Noc Rhif 1, y gwaith ailddatblygu ar hyd y cei gogleddol a'r codiad yn y tir lle saif yr hen dref tu hwnt.

Ceir golygfeydd trawiadol dros yr ardal hon o safleoedd dyrchafedig ar Clive Road, yn cynnwys Ysgol Gynradd Ynys y Barri a'i hardal o erddi wedi'u tirlunio.

Mae llwybr cerdded yn arwain ar hyd llwybr troed (a godwyd yn 1899 gan Gwmni Dociau a Rheilffordd y Barri) a grisiau o Clive Road i ochr ogleddol y doc.

Mae'r ardal hon bellach yn rhan o ddatblygiad y Quays, a ddechreuwyd yn 2015 gyda therfynlin o ddeg mlynedd. Yn 2016, nid yw'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar lan y cei islaw Clive Road, ond bydd ffordd fynediad newydd i'r ynys yn dod i olwg tir islaw Austri Point ac yn cysylltu â Paget Road. Caiff y fynedfa i gerddwyr ar draws y bont droed ei hintegreiddio i'r gwaith ailddatblygu.



*Uchod: Edrych o'r tir mawr, ar draws y dociau, tuag at yr ynys yn 2016: mae'r ardal islaw Austri Hill ar South Quay wedi'i chlirio'n barod ar gyfer ei hailddatblygu (o gasgliadau Cofnodion Henebion Cenedlaethol Cymru: © Hawlfraint y Goron: y Weinyddiaeth Amddiffyn).*

*Chwith: South Quay islaw Austri Hill — gallai'r hyn sy'n digwydd yma effeithio ar olygfeydd o'r ynys ac oddi yno yn ogystal ag ymdeimlad o wahaniad o'r tir mawr (© Hawlfraint y Goron (2016) Llywodraeth Cymru, Cadw).*

# Datganiad Pwysigrwydd

## Pwysigrwydd Hanesyddol a Chymdeithasol

Mae gan Ynys y Barri le allweddol yn hanes cymdeithasol de Cymru. Mae hyn oherwydd, o'r 1890au hyd at y datblygiad diweddar o dwristiaeth dorfol o dramor, roedd yn boblogaidd fel lleoliad teithiau dydd i lan y môr o gymunedau'r pyllau glo, a thu hwnt. Ond mae mwy i'r ynys na hyn. Mae'n rhan nodedig o dref dociau a rheilffordd a ddatblygodd yn gyflym o 1884. Dyluniwyd y dociau a'r dref i domi ar fonopoli Dociau Caerdydd dros allforion glo o dde Cymru. Erbyn 1913, y Barri oedd prif borthladd allforio glo y byd. Roedd yn gymuned newydd, o anghenraid, a ddenodd fewnfudwyr o bob cwr o Ynysoedd Prydain, ac roedd ardal y dociau a oedd yn aml-genhedlig, yn adlewyrchu ei gwmpas byd-eang.

Felly, mae'r ynys yn rhan o dref newydd Fictoriaidd ac Edwardaidd yr oedd ei threflun diwydiannol a phreswyl yn celu patrwm anheddiad hollol wledig. Datblygwyd y dref newydd gan entrepreneuriaid Fictoriaidd mewn partneriaeth â thirfeddianwyr aristocrataidd, ac fe'i gosodwyd yn unol ag egwyddorion Deddf Iechyd y Cyhoedd 1875. Yn fuan, sefydlwyd cyngor dosbarth trefol balch a nawddogol, a oedd yn awyddus i gyflwyno'r sefydliadau diwylliannol yr oedd y Barri yn eu haeddu yr un pryd ag yr oedd yn llygadu'r posibilrwydd o ddatblygu cyrchfan wyliau. Mae'r ynys yn rhannu cydlynid o ran amser, lle a chymeriad â thref y tir mawr.

Fodd bynnag, ceir ymdeimlad cryf o wahaniad ar yr ynys — sy'n deillio o'r Hen Harbwr, y dociau, y clogwyni a'r sarn, a'r broses o'i datblygu fel cyrchfan wyliau. Mae'r ffyrdd a'r rheilffyrdd o'r tir mawr yn croesi'r sarn; mae'r clogwynlun a ffurfiwyd yn ystod y gwaith o gloddio Doc Rhif 1 yn amlwg o'r golygfeydd o'r gogledd, ac mae'r strydoedd teras sy'n rhedeg ar hyd y gyfuchlinell yn edrych allan tua'r tai ar lechwedd y brif dref, sy'n codi uwchlaw'r doc.

Mae datblygiad gofodol yr ynys yn adlewyrchu'r tirwedd naturiol. Roedd cynllun y strydoedd

yn defnyddio'r tirffurf tonnog, gan adeiladu tai ar y tir mwy bryniog i'r gogledd a'r dwyrain. I'r gwrthwyneb, datblygwyd y gyrchfan wyliau ar dir mwy gwastad o dywod a phrysgwydd y tu ôl i'r hen system twyni ym Mae Whitmore. Gosododd ystâd Windsor strydoedd yr ynys er mwyn cysylltu'r strydoedd preswyl â glan y môr. Ar yr un pryd, atgyfnerthodd y rheilffordd, a redai ar draws canol yr ynys o dan Redbrink Point i'r Pier Head, y gwahaniaeth rhwng y defnyddiau.

Mae tai a strydoedd cymuned y dociau a fagwyd ar yr ynys cyn 1914 yn rhan fach o hanes adeiladu a hanes cymdeithasol y dref gynnar. Ceir unrhywiaeth o ran y math o adeiladu, y deunyddiau a'r arddulliau addurnol, heb sôn am ddatblygiad o ran y math o dai a dosbarth cymdeithasol, fel bod y terasau syml yn edrych dros y dociau, a'r tai pâ'r tai ar wahân sylweddol yn edrych allan dros y môr.

Mae tai cyhoeddus o'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd ar ochr ogledd-orllewinol yr ynys yn fodel o'r dull a anogwyd yn Adroddiad Dudley a'r *Housing Manual* sy'n dyddio o 1949. Mae ei gynllun agored yn cyferbynnu â haenau tynnach y terasau a adeiladwyd cyn 1914. Mae'r rhain yn gartrefi a ddyluniwyd yn dda, mewn lleoliad da ar strydoedd sy'n dilyn y fframwaith trefol a osodwyd gan ystâd Windsor yn y 1890au.

Gyda'i gilydd, mae'r ddau gyfnod adeiladu wedi creu strydoedd o werth mawr i'r dreflun. Mae athreiddedd ac eglurder y ffurf drefol yn cynnig model da ar gyfer datblygiadau preswyl yn y dyfodol. Mae pensaernïaeth ddeniadol yn cyfrannu at ymdeimlad cryf ac unigol o le sy'n nodwedd o hunaniaeth gymdeithasol y gymuned leol.

Mae'r ynys yn enwog yn ehangach fel cyrchfan wyliau i'r dosbarth gweithiol a ddatblygodd yn ystod y 1890au ac wedi hynny er mwyn gwasanaethu Caerdydd a chymunedau'r pyllau glo, gan adeiladu ar y dwristiaeth graddfa fach a ddatblygodd cyn i'r dociau gael eu hadeiladu. Erys elfennau o'r gyrchfan wyliau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 ar lan y môr, wedi'u hymgorffori o fewn y seilwaith a ddatblygwyd pan aeth Cyngor Dosbarth Trefol y Barri ati i ailfodelu



Bae Whitmore yn sylweddol yn y 1920au, er bod hynny yn dilyn yr hyn a ragwelwyd cyn i'r Rhyfel Byd Cyntaf dorri ar draws.

Felly, mae glan môr yr ynys yn bwysig fel adlewyrchiad o dwristiaeth glan y môr dorfol. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan y gydbertynas agos mewn termau dylunio rhwng glan môr cynlluniedig Bae Whitmore a'r datblygiad cyfoes yn Cold Knap a Lakeside, sy'n cynnwys elfennau tebyg o ran arddull. Er enghraifft, roedd cynlluniau Cold Knap ac Ynys y Barri yn cynnwys manylion clasurol. Gwelir hyn mewn strwythurau mawr ac mewn nodweddion sy'n uno, yn enwedig y defnydd o ganllawiau concrid bwrw. Mae'r dewis hwn o arddull yn golygu bod y Barri yn unigryw gan ei bod yn wahanol i nodweddion Art Deco mwy nodweddiadol llawer o gyrchfannau a ddatblygwyd rhwng y ddau ryfel, fel Bexhill, Margate a Brighton.

Ymysg y nodweddion eiconig mae'r cysgodfannau Dwyreiniol a Gorllewinol, y morglawdd a'r strwythurau cysylltiedig, y rhodfa o siopau a chaffis ar Paget Road, a'r Merrie Friars ac Adeiladau'r Esplanade. Atgyfnerthir y dyluniad gan erddi addumulol y promenâd a chaiff yr holl gyfansoddiad ei amgylchynu gan bentir Friars Point a Nell's Point. Mae Friars Point, yn benodol, wedi cadw ei gymeriad naturiol, sy'n cysylltu arfordir yr ynys â'r Hen Harbwr, y pentir, y bae a'r clogwyni i'r gorllewin.

## Elfennau Dylunio Allweddol

Ceir gwerth treflun uchel i ddatblygiadau adeiledig yr ynys, a bennir gan ei leoliad, ei gynllun, y defnydd tir a'r datblygiadau adeiledig. Ynghyd â hyn, ceir nodweddion naturiol dramatig: ystum Bae Whitmore, nodweddion agored Friars Point (lle mae olion gweithgarwch cynhanesyddol a chanoloesol wedi goroesi) a Nell's Point (lle y gwnaed ymdrech i adfer pentir naturiol), a'r coetir ar gyrion yr Hen Harbwr.

### Glan y Môr

Mae glan y môr ym Mae Whitmore yn cynnwys nodweddion creiriol y gyrchfan wyliau sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 a'r seilwaith a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel, yn ogystal â'r gwaith o ailfodelu'r promenâd dwyreiniol yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n arwyddocaol

bod y gwaith o ailfodelu Bae Whitmore yn y 1920au yn rhan o raglen fwy o waith cyhoeddus a oedd yn cynnwys glan y môr, y llyn, y pwll nofio, y cysgodfannau a'r gerddi yn Cold Knap, a'r parciau yn Gladstone Gardens, Alexandra Gardens a Church Road.

Ymysg yr elfennau dylunio allweddol mae:

- grisiau a walïau cysylltiedig o'r traeth i Friars Point sy'n dyddio o tua 1903–05, sy'n cynnwys olion o gaffi Dinky
- Tŷ Ymdrochi'r Dynion (cyn 1914), a ail-fodelwyd yn ddiweddar i gynnwys toiledau a chyfleusterau ategol
- y promenâd, cysgodfannau a strwythurau cysylltiedig a ddatblygwyd yn y 1920au, yn cynnwys y cyfleusterau cyhoeddus rhestredig gradd II, y morglawdd, y bont a'r cysgodfannau Dwyreiniol a Gorllewinol
- yr elfen sydd wedi goroesi o erddi'r promenâd, yn cynnwys y canllawiau concrid bwrw sy'n nodwedd ddylunio allweddol o barciau a gerddi eraill yn y Barri
- ciosgau a adeiladwyd yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel ar Friars Road
- y ramp a'r gerddi a ail-fodelwyd uwchlaw'r Gysgodfan Ddwyreiniol, sy'n cysylltu â Nell's Point, ynghyd â'r cytiau traeth a'r wal ddringo
- y datblygiad sy'n dyddio o'r cyfnod cyn 1914 ar Paget Road, sy'n ymgorffori nodweddion cyfnod allweddol yn cynnwys gwaith brics a gwaith maen, ffenestri, talcenni, canllawiau addumulol, a chanopiâu o waith haearn addumulol (rhai gwreiddiol a rhai newydd)
- adeiladau allweddol o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel. Mae gan y Merrie Friars ac Adeiladau'r Esplanade nodweddion ffurfiol sy'n cyd-fynd â thriniaeth glasurol y cysgodfannau Dwyreiniol a Gorllewinol a'r cyfleusterau cyhoeddus
- porth gorchest ac obelïsgau yn Cosy Corner y brodyr White
- adeilad yr orsaf o arddull Gothig Jacobeaidd (1896)

- defnydd ffair/hamdden a wnaed o'r safle hirgrwn sy'n ffinio â Paget Road, Friars Road a Station Approach
- morglawdd o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn York Point
- Friars Point House, gardd a choetir, yn cynnwys porthordy a nodwedd giât
- arwyddion enwau strydoedd — platiau enw metel gyda llythrennau glas ar gefndir gwyn — elfen gyffredin o'r strydoedd hŷn ar Ynys y Barri a'r tir mawr.
- clogwynlun i'r gogledd o Friars Road
- cae criced a maes parcio i hen flaendraeth yr Hen Harbwr
- Parc Maslin
- golygfeydd o'r ynys tuag at y môr, yr harbwr, y dociau a'r tir mawr
- golygfeydd tuag at yr ynys o'r tir mawr, gan ganolbwyntio'n benodol ar glogwynlun yr ynys uwchlaw'r dociau

### Datblygiadau Preswyl

Ceir unfurfedd nodweddion cyffredinol i'r tai o'r cyfnod 1890–1914 a dangosir cynnydd mewn statws o'r terasau sy'n wynebu'r dociau drwodd i'r anheddau pâr ac ar wahân mawr sy'n edrych dros Fôr Hafren.

Ymhlith yr elfennau nodweddion allweddol mae:

- toeon llechi, simneiau, manylion o frics melyn a Charreg Caerfaddon, a nodweddion addurnol cyfnod eraill yn cynnwys gwaith haearn, portshys, ymylon bondo, topwaith
- gwaith teils addurnol mewn portshys mynediad ac ar lwybrau
- Ysgol Gynradd Ynys y Barri a hen Westy'r Marine.

### Cysylltiadau, Golygfeydd a Llefydd

Mae manau gwyrdd yn creu cysylltiad gweledol rhwng glan y môr yn Cold Knap/Parade Gardens ac Ynys Fach a Nell's Point. Mae Parc Maslin hefyd wedi goroesi gan ein hatgoffa o'r ardal agored y tu ôl i system twyni'r ynys.

Ymysg yr elfennau gofodol, golygfeydd a chysylltiadau allweddol ar yr ynys mae:

- manau agored/coetir naturiol a lled naturiol yn Friars Point, Ynys Fach a Nell's Point
- clogwyni i Friars Point, Nell's Point a Bae Jackson

- y rheilffordd a'r sam

- cynllun ffyrdd cysylltiedig, gyda'r bwriad o integreiddio'r parth preswyl â glan y môr, drwy deithio ar hyd Paget Road, Friars Road, Plymouth Road a Redbrink Crescent. Torrwyd y cysylltiad hwn pan adeiladwyd y gwersyll gwyliau ac mae wedi parhau yn y gwaith ailddatblygu diweddar yn Nell's Point. Mae llinell Friars Road wedi goroesi yn yr hen fynedfa i'r gwersyll gwyliau.

### Edrych i'r Dyfodol

Gyda'i gilydd, mae hwn yn waddol pwysig o nodweddion hanesyddol a dylunio gyda'r posibilrwydd o ddylanwadu ar waith ailddatblygu yn gadarnhaol yn y dyfodol.

Mae Cynllun Adfywio'r Promenâd Dwyreiniol wedi ailgysylltu'r promenâd â Nell's Point a chyflwynwyd cynllun gerddi modern sy'n cyfrannu rhywfaint at y broses o adfer yr hyn a gollwyd yn y 1960au. Mae'n ymgorffori Tŷ Ymdrochi'r Dynion yn y broses o ailfodelu'r manau cyhoeddus.

Mae'r cynllun hwn wedi gosod safon uchel ar gyfer gweithredu i warchod strwythurau hanesyddol, diweddarau manau cyhoeddus a denu gweithgarwch o fewn yr ardal gadwraeth. Mae'n parchu'r gorffennol tra'n cyflwyno ysbryd newydd i lan y môr.

Un o'r camau hanfodol nesaf fydd mabwysiadu dull gweithredu dylunio trefol ar gyfer safle'r ffair sy'n parchu'r cyd-destun ac yn atgyfnerthu porth yr ynys, ac atgyfnerthu hyn drwy warchod a gwella

nodweddion hanesyddol y promenâd, yn cynnwys y canllawiau, gerddi, ciosgau a chyfleusterau cyhoeddus rhestredig sydd wedi goroesi.

Bydd datblygu'r Spion Kop yr un mor bwysig ynghyd â'r rhan o safle'r gwersyll gwyliau sydd yn dal ar agor. Mae'r gydberthynas rhwng y safle dyrchafedig hwn, y tai newydd i'r dwyrain ac ar y pentir, ac ardal y gyrchfan wyliau yn creu heriau o ran dylunio a defnydd tir. Dylai'r datrysiadau barchu'r cyd-destun uniongyrchol a lleoliad amlwg y safle ar y nenlinell o olygfannau ar y tir mawr, ffordd ddynesu'r ynys ar hyd y sam ac o'r traeth.

Roedd y fynedfa ffurfiol i'r gwersyll gwyliau (mynedfa'r maes parcio dros dro bellach) yn dilyn yr hyn a fu'n rhan o Friars Road. Mae hyn yn ffurfio porth naturiol i'r safle a gallai gwaith ailddatblygu gynnig y cyfle i ailgysylltu pennau toredig Friars Road — at ddefnydd beicwyr a cherddwyr o leiaf. Gallai hyn ailintegreiddio system ffyrdd yr ynys a chynnig cyswllt newydd rhwng y gyrchfan wyliau, Redbrink Crescent a Bae Jackson.

Y tu hwnt i lan y môr, ceir rhagor o gyfleoedd i sicrhau bod tai hŷn yn cael eu cynnal a'u cadw mewn modd sensitif, gwella'r manau cyhoeddus a diogelu a gwarchod nodweddion naturiol Ynys Fach. Yn ogystal, gall fod yn bosibl ystyried

cyfleoedd i wella'r datblygiad diweddar yn Nell's Point ac oddi ar Breaksea Drive sy'n parchu nodweddion hanesyddol Friars Road a Redbrink Terrace er mwyn integreiddio'r datblygiad modern hwn yn well â'r treflun ehangach.

Un o elfennau allweddol cynllun llwyddiannus strydoedd cynharach yr ynys yw'r ffordd y maent yn manteisio ar olygfeydd am allan tuag at y dref ar y tir mawr, Môr Hafren a'r arfordiroedd i'r dwyrain a'r gorllewin. Ond, mae arwyddocâd yr ynys ym mhanorama ehangach y dociau, y dref a'r morwedd, sy'n nodweddiadol o leoliad y Barri, yr un mor bwysig. Mae hyn yn cynnwys y golygfeydd a geir o bwyntiau allweddol yn edrych tuag at y llechwedd sy'n arwain at lan y môr. Dylai dyluniad trefol da yn y broses o adfywio South Quay gydnabod y ffordd y mae clogwynlun gogledd yr ynys, a'i nenlinell o derasau a thai cyhoeddus yn ganolog i hunaniaeth yr ynys a'r dref. Mae hefyd yn hanfodol i'r ymdeimlad o wahaniad sy'n golygu bod Ynys y Barri dal i fod yn 'ynys'.

Yn gryno, mae nodweddion hanesyddol Ynys y Barri yn haeddu i gael eu cadw a'u gwella drwy warchod ac addasu adeiladau cyfnod a thrwy waith ailddatblygu sy'n ymateb yn sensitif i'r cyd-destun.

# Ffynonellau Dethol

## Argraffedig

---

Brian Luxton, *Old Barry in Photographs*, Cyfrolau 1–3 (y Barri, 1977, 1978, 1990).

D. Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984).

Samuel Lewis, *Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).

Michelle Statton, Barry Island Pleasure Park, Barry: archaeological desk-based assessment (Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent, 2008).

Barry A. Thomas, *Barry Island and Cold Knap* (Machynlleth, 2010).

Cyngor Bro Morgannwg, Ardal Cadwraeth Forol y Barri: Cynllun Arfamu a Rheoli (mis Medi 2009).

Cyngor Bro Morgannwg, Trysorau Sir Bro Morgannwg (2007, diwygiwyd 2009, 2001).

## Ar-lein

---

Grŵp Hanesyddol Ynys y Barri  
<http://www.facebook.com/pages/Barry-Island-Historical-Group/214842455233543>

Coflein — cronfa ddata ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru — sef y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.  
<http://www.coflein.gov.uk/>

# Ôl-nodion

1. D. Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984); Brian Luxton, *Old Barry in Photographs*, Cyfrolau 1–3 (y Barri, 1977, 1978, 1990); Barry A. Thomas, *Barry Island and Cold Knap* (Machynlleth, 2010), t. 1. <http://www.facebook.com/pages/Barry-Island-Historical-Group/214842455233543>, cyrchwyd 20 Medi 2015; Edith Evans, Early medieval ecclesiastical sites in south-east Wales (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, 2003); Michelle Statton, Barry Island Pleasure Park, Barry: archaeological desk-based assessment (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, 2008).
2. Michelle Statton, Barry Island Pleasure Park, Barry: archaeological desk-based assessment (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, 2008), tt. 11–23.
3. The *Vita Cadoci* associates Barry Island with Cadoc: Edith Evans, Early medieval ecclesiastical sites in south-east Wales (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, 2003), t. 9; Awgrymodd Jeremy Knight bod creirfa Normanaidd bosibl yng Nghapel Sant Baruc wedi disodli beddrod awyr agored: 'Excavations at St Barruc's chapel, Barry Island, Glamorgan', *Transactions of the Cardiff Naturalists' Society*, xixc (1978), tt. 47–51, 57. Mae Giraldus Cambrensis yn deillio'r enw 'Ynys y Barri' o Sant Baruc, sy'n cyd-fynd â'r cyfrif yn Muchedd boddi'r sant rhwng Ynys Echni a Barren Island. Roedd Baruc yn un o ddisgyblion Cadog. Dywedir iddo gael ei gladdu ar yr ynys. Ceir posibiladau amgen, yn seiliedig ar wreiddiau Cymreig neu Lychlynaidd. Er enghraifft, ystyr y gwraidd Celtaidd, Barr, yw 'bryncyn neu gopa'. Gallai ei ystyr yn y cyd-destun hwn gyfeirio at y llechwedd sy'n gysylltiedig â nant y Barri (Buttrills Hill), neu at Ynys y Barri ei hun. Mae Gwynedd O. Pierce yn *The Place-names of Dinas Powys Hundred* (Caerdydd, 1968), tt. 1–5, yn cadw meddwl agored.
4. Edith Evans, Early medieval ecclesiastical sites in south-east Wales (Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent, 2003).
5. Michelle Statton, Barry Island Pleasure Park, Barry: archaeological desk-based assessment (Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent, 2008), t. 13.
6. Howard J. Thomas, 'Castle, church and village: medieval Barry', yn Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 85.
7. Michelle Statton, Barry Island Pleasure Park, Barry: archaeological desk-based assessment (Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent, 2008), t. 15.
8. *Ibid.*, 14.
9. Howard J. Thomas, 'Castle, church and village: medieval Barry', yn Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 78; Matthew Griffiths, 'Landlords and tenants, 1700–1880' yn Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 189.
10. *Ibid.*, p. 189.
11. R. J. Evans, *A Tour of South Wales* (1804), a ddyfynnwyd gan Griffiths in Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 191.
12. Archifau Morgannwg, Llyfr o Fapiau a arolygwyd gan Tho[mas] Morrice (1798), ym mhapurau ystâd Castell Gwenfô, DWE/2; GRO, cofnodion plwyf sifil Sili, P50/1a (cynllun, 1846) ac 1b (dosraniad, 1840).
13. Mae'n debyg bod enw'r lle yn ddisgrifiadol, yn gysylltiedig ag ymddangosiad y tywod a'r twyni uwchlaw'r traeth.
14. 'Saturday at Barry Island', *Western Mail*, 17 Gorffennaf 1876.
15. Samuel Lewis, *Topographical Dictionary of Wales* (Llundain, 1833).
16. Barry A. Thomas, *Barry Island and Cold Knap* (Machynlleth, 2010), t. 6.

17. Galwyd ystâd Windsor yn ystâd Plymouth o 1905 pan gafodd Robert Windsor-Clive (yr Arglwydd Windsor) ei urddo yn iarll cyntaf Plymouth y trydydd urddo.
18. Iorwerth W. Prothero, 'The port and railways of Barry', in Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 217. Mae'r naratif wedi'i seilio'n gadarn ar benodau VI a VII yn y gwaith hwn, gan Iorwerth Prothero a Brian Luxton ('Ambition, vice, virtue and social life, 1884–1914') yn y drefn honno.
19. Archwiliwyd nodweddion y tai cynnar yn y Barri a'r gydbertynas rhwng strwythur tîrfeiddiannaeth a'r broses o ddatblygu tai gan Richard Thomas yn 'The building of Barry' yn Moore (gol.), *Barry, The Centenary Book* (y Barri, 1984).
20. Peter Stead, 'The town that had come of age', yn Moore (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), tt. 381–82.
21. Cyngor Bro Morgannwg, adroddiad i'r Cabinet, 4 Tachwedd 2009.
22. Cyngor Bro Morgannwg, 2013/00353/FUL a 2010/00123/RES.
23. Rhoddodd Cyngor Bro Morgannwg ganiatâd ym mis Mawrth 2013, 2009/00946/OUT. Roedd y ceisiadau preswyl fel a ganlyn: 2012/0086/EAR, 2012/00733/EAR a 2012/00732/EAR, ar gyfer adeiladu cyfanswm o 373 o dai.
24. Cyngor Bro Morgannwg, 2014/00920/FUL.
25. Cyngor Bro Morgannwg, 2013/00778/FUL.
26. Gwybodaeth gan Mike Heffernan (Grŵp Hanesyddol Ynys y Barri).
27. Richard Thomas, yn Moore. (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 360. Roedd rheilffordd gul yn cysylltu'r ynys â Phorthceri, gan groesi'r Hen Harbwr ar sarn newydd a greodd lyn cychod, a phasio drwy Bull Cliff drwy dwnnel a chwythwyd drwy'r calchfaen.
28. Martin Selby a Nigel J. Morgan, 'Reconstructing place image: a case study of its role in destination market research', *Tourism Management*, xvii (4), 1996, tt. 287–94.
29. Daw'r cyfeiriad cyntaf at ei enw o I595065, fel *Le Ostrie*. Mae'n deillio o'r Saesneg Canol hostry neu 'hostelry'.
30. Mae map stryd lleol o 1896 yn awgrymu bwriad i gysylltu Friars Road a Station Approach ar draws Spion Kop, ond ni chafodd hwn ei adeiladu erioed, mae'n debyg oherwydd yr ystyriwyd bod y tir yn rhy anodd. (Archifau Morgannwg, BB/C/52).
31. Barry A. Thomas, *Barry Island and Cold Knap* (Machynlleth, 2010), t. 65.
32. Richard Thomas, yn Moore. (gol.), *Barry: The Centenary Book* (y Barri, 1984), t. 337.
33. Cyngor Cefn Gwlad Cymru, disgrifiad o safle SoDdGA, 1958,1990; MAP TIR CCGC, tirwedd ddaearegol (<http://test.landmap.ccw.gov.uk>, cyrchwyd 29 Medi 2015).
34. Fe'i henwyd ar ôl Other Archer Windsor, chweched iarll Plymouth (2 Gorffennaf 1789–20 Gorffennaf 1833).
35. Archifau Morgannwg, BB/Y/74.
36. Brian Luxton, *Old Barry in Photographs* (y Barri, 1977), dim rhifau tudalennau.
37. Barry A. Thomas, *Barry Island and Cold Knap* (Machynlleth, 2010), t. vi. Cymharwch â'r delweddau a atgynhyrchwyd ar dudalen 56.
38. Rhoddwyd y ddau safle ar y farchnad ym mis Gorffennaf 2015, gan geisio cynigion ar wahân neu ar y cyd.
39. Pwyllgor Cynghori Tai Canolog, y Weinyddiaeth Iechyd, *Design of Dwellings* ('adroddiad Dudley') (Llundain, 1944). Adlewyrchir ei argymhellion yn nogfen *Housing Manual* y Weinyddiaeth Iechyd a'r Weinyddiaeth Gwaith (Llundain, 1949).
40. Cyngor Bro Morgannwg, Ardal Cadwraeth Forol y Barri: Cynllun Arfamu a Rheoli (mis Medi 2009).
41. Cyngor Bro Morgannwg, Ardal Cadwraeth Forol y Barri: Cynllun Arfamu a Rheoli (mis Medi 2009).


42. Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, Gwobrau RTPI ar gyfer Rhagoriaeth Cynllunio, 2015 (<http://rtpi.org.uk/media/1395475/RTPI%20Awards%20ONLINE%20Brochure%20FINAL.pdf> cyrchwyd ym mis Mehefin 2016).
43. Roedd y cysyniad dylunio gan yr Urbanists (Powell Dobson Urbanists gynt), ar y cyd ag Atkins, Cyngor Bro Morgannwg a rhanddeiliaid lleol (<http://www.theurbanists.net/eastemprombarry> cyrchwyd ar 24 Medi 2015). Rhoddwyd drafft o'r astudiaeth hon, a oedd yn cynnwys sylwadau ar gyfleoedd i ailgysylltu'r promenâd a'r pwynt, ac yn pwysleisio diddordeb hanesyddol a gweledol y nodweddion a oedd yn bodoli ar y pryd, i'r ymgynghorwyr. Gwnaed gwaith dylunio manwl gan y cyngor a'r pensaer P. J. Lee (<http://www.pjl-a.com/> cyrchwyd ar 24 Medi 2015).
44. Fe'i dyluniwyd gan Studio Fink ar ôl cystadleuaeth yn 2013 (<http://www.studiofink.eu/news/> cyrchwyd ar 24 Medi 2015).
45. Deilliodd cysyniad y dyluniad o weithdai yn cynnwys Ysgol Gynradd Ynys y Barri, grwpiau ieuencid a Grŵp Hanesyddol Ynys y Barri. Gwnaed y gwaith dylunio manwl gan Gordon Young a Part-Two Creative (<http://www.designboom.com/art/gordon-young-interview/> cyrchwyd ar 24 Medi 2015).
46. <http://www.ustigatewaterplay.co.uk/archives/571> cyrchwyd ar 24 Medi 2015.
47. <http://www.basestructures.com/assets/PDFs/Barry%20Island.pdf> (cyrchwyd ar 17 Medi 2015 ond nid yw ar gael mwyach).
48. Cyngor Bro Morgannwg, Trysorau Sir Bro Morgannwg, Atodiad (Gorffennaf 009), t. 17
49. Datblygiad ar gyfer Cymdeithas Dai Newydd gan Pendragon Design and Build gan ddilyn dyluniad Tony King Architects (Penarth). Cyngor Bro Morgannwg, 2013/00778/FUL.
50. Cyngor Bro Morgannwg, Trysorau Sir Bro Morgannwg, Atodiad, Gorffennaf 2011, t. 17.
51. Gallai fod yn gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu Gwesty'r Marine ac wedi'i aildddefnyddio yn yr ugeinfed ganrif (Gerald Beaudette, gohebiaeth bersonol).
52. Cyngor Bro Morgannwg, Trysorau Sir Bro Morgannwg: y Barri (2007), t. 31.
53. Cyngor Bro Morgannwg, Ardal Cadwraeth Forol y Barri: Cynllun Arfamu a Rheoli (mis Medi 2009).
54. Pwyllgor Cyngori Tai Canolog, y Weinyddiaeth Iechyd, *Design of Dwellings* ('adroddiad Dudley') (Llundain, 1944); Y Weinyddiaeth Iechyd, *Housing Manual* (Llundain, 1949).
55. Cf. Finn Jensen, *The English Semi-detached House* (Ellington, 2007), 204–05.
56. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent, Cofnod Amgylchedd Hanesyddol, PRN02714s (<http://www.cofiadurcahcymru.org.uk/arch/ggat/english/index.html> cyrchwyd 29 Medi 2015).
57. Pwyllgor Cyngori Tai Canolog, y Weinyddiaeth Iechyd, *Design of Dwellings* ('adroddiad Dudley') (Llundain, 1944); Y Weinyddiaeth Iechyd, *Housing Manual* (Llundain, 1949).

# I Rhan o Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans o 1879 (25 modfedd)







## 2 Rhan o Argraffiad Cyntaf y Map Arolwg Ordnans o 1900 (25 modfedd)




### 3 Rhan o Ail Argraffiad y Map Arolwg Ordnans o 1920 (25 modfedd)




## 4 Rhan o Drydydd Argraffiad y Map Arolwg Ordnans o 1936 (25 modfedd)




## 5 Pob Ardal â Nodweddion




## 6 Pob Ardal â Nodweddion ag Asedau Hanesyddol




## 7 Y Gyrchfan Wyliau (I)



## 8 Y Gymuned Cyn 1914 (2)




## 9 Ynys Fach (3)





## 10 Austray Hill (4)



## II Nell's Point (5)

